Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

Gwasanaeth cyhoeddus i bawb: y BBC yn yr oes ddigidol

Mawrth 2006

Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

Gwasanaeth Cyhoeddus i Bawb: Y BBC yn yr Oes Ddigidol

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol
dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
Trwy Orchymyn ei Mawrhydi
Mawrth 2006

Cm 6763

© Hawlfraint y Goron 2006

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon (heblaw am yr Arfbais y Goron a logo'r adrannau) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod eu bod yn cael eu hatgynhyrchu'n fanwl gywir ac na ddefnyddir hwy mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y defnydd fel hawlfraint y Goron a nodi teitl y ddogfen.

Dylech gyfeirio unrhyw ymholiadau ynglŷn â hawlfraint y ddogfen hon i The Licensing Division, HMSO, St Clements House, 2-16 Colegate, Norwich, NR3 1BQ. Ffacs 01603 723000 neu e-bost: licensing@cabinet-office.x.gsi.gov.uk

Cynnwys

		tudalen
1.	Rhagair gan yr Ysgrifennydd Gwladol	2
2.	Beth mae'r Papur Gwyn hwn yn ei gynnwys	6
3.	Dibenion y BBC	9
4.	Paratoi ar gyfer y dyfodol: Datblygu Prydain Ddigidol	22
5.	Eglurder a sicrwydd: Gwasanaethau'r BBC a'r Prawf Gwerth Cyhoeddus	28
6.	Rheoleiddio cystadleuaeth	34
7.	Gwasanaethau masnachol	38
8.	Cynhyrchu a threfnu	40
9.	Ymddiriedolaeth y BBC a'r Bwrdd Gweithredol	46
10.	Ariannu	57
11.	Dyfodol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus y tu hwnt i'r BBC	63
12.	Camau nesaf	65
13.	Atodiad I: Rolau Allweddol yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol	66
14.	Atodiad II: Hanes byr	69
15.	Atodiad III: Dulliau cynnwys y cyhoedd	72

1. Rhagair gan yr Ysgrifennydd Gwladol

Nid oes gan unrhyw wlad arall yn y byd wasanaeth tebyg i'r BBC. Mae'n unigryw - yn ei ansawdd, ei gwmpas, ei gyrhaeddiad ac yn yr ymddiriedaeth y mae'n ei ennyn ymysg y cyhoedd. Mae'n debyg mai'r GIG yw'r unig wasanaeth arall yr ydym yn teimlo rhywbeth tebyg i'r un anwyldeb tuag ato. Mae'n rhannu'r un gwerthoedd â'r genedl - tegwch a goddefgarwch, dynamiaeth, creadigrwydd ac annibyniaeth ar awdurdod. Ac mae wedi cryfhau'r gwerthoedd hynny gartref fel y mae wedi'u hyrwyddo dramor.

Ond nid ar hap y digwyddydd hyn. Gwreiddiodd y syniad o ddarlledu fel gwasanaeth cyhoeddus, ac nid dim ond fel diwydiant yr un fath â phob un arall, ym Mhrydain, yn yr un modd ag y gwnaeth y syniad o ddarpariaeth iechyd i bawb. Mae'r GIG a'r BBC fel ei gilydd wedi cynnal y fflam dros yr egwyddorion hyn ers degawdau. Ond mae'r ddau sefydliad wedi gorfod gwneud hynny wrth addasu i fyd sy'n newid. Ac nid oes unrhyw beth yn newid yn gyflymach na'r cyfryngau.

Ar y dechrau, yn gyntaf fel cwmni ym 1922, dim ond ar y radio'r oedd y BBC yn darlledu. Ugain mlynedd yn ddiweddarach, ychwanegwyd sianel deledu. Heddiw, mae'n darparu 8 gwahanol wasanaeth teledu, 10 gorsaf radio genedlaethol a dwsinau o rai lleol, ac yn gweithredu mewn byd o gannoedd o sianeli gyda miloedd o ddarparwyr cynnwys. Mae'n rhedeg un o'r gwefannau yr ymwelir â hi amlaf yn y byd; mae gwefannau newyddion rhyngwladol y BBC bellach yn cofnodi dros 230 miliwn o drawiadau y mis. Mae'r BBC World Service yn parhau i gynnal ei safle fel darllenydd mwyaf blaenllaw'r byd, yn darlledu rhaglenni mewn Saesneg a 42 o ieithoedd eraill i 146 miliwn o wrandawyr bob wythnos. Mae teledu digidol wedi cyrraedd dros ddwy ran o dair o gartrefi, ac erbyn 2012, bydd yr holl wlad yn derbyn gwasanaeth teledu yn y modd hwn. Ac i filoedd, mae cydgyfeiriant cyfryngau eisoes yn wirionedd.

Felly wrth lunio'r cynlluniau ar gyfer dyfodol y BBC, roedd gennym ddau amcan: sicrhau y gall y Gorfforaeth aros cyfuwch â thechnoleg a harneisio ei botensial i ddarparu hyd yn oed gwell gwasanaeth i'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded, ac ailgysylltu'r BBC â'r dinasyddion y mae'n eu gwasanaethu, ac sy'n talu amdano drwy ffi'r drwydded.

Ond mae angen i ni hefyd sicrhau, er budd y cyhoedd a gweddill y byd darlledu, bod darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus achol megis ITV, Channel 4 a Five, gwasanaethau masnachol fel Sky a gorsafoedd radio masnachol, a'r diwydiant ehangach hefyd oll yn ffynnu. Mae'r berthynas rhwng y BBC a'r gweddill wedi bod yn destun trafodaeth ddwys ers hanner can mlynedd. Ac mae yna bos wrth wraidd y drafodaeth honno - sut all y BBC fod yn ddarlledwr cadarn gyda chyrhaeddiad byd-eang heb fygu arloesedd mewn mannau eraill, neu ddefnyddio ei fanteision unigryw yn annheg i gystadlu ag eraill?

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r cyhoedd wedi cael cyfle i fynegi eu barn ar lein, ar bapur, mewn cyfarfodydd mewn neuaddau tref ar hyd a lled y wlad ac yn bersonol wrth Weinidogion. Rydym hefyd wedi ymgynghori â chynrychiolwyr defnyddwyr, undebau llafur, seneddwyr, academyddion, y diwydiant ac arbenigwyr ar y cyfryngau. At ei gilydd, dyma fu'r broses fwyaf trylwyr ac amlwg o adolygu'r Siarter yn hanes y Gorfforaeth.

Drwy gydol y broses, cadwodd y Llywodraeth feddwl agored ynglŷn â'r modd, ond nid y dibenion. Bu i ni nodi'n glir yn y Papur Gwyrdd a gyhoeddwyd ym Mawrth 2005 ein bod am i'r BBC aros wrth graidd darlledu gwasanaeth cyhoeddus. I wneud hynny, rhaid iddo aros yn gadarn ac yn annibynnol ar y Llywodraeth. A rhaid iddo allu gweithredu ochr yn ochr â darparwyr eraill, heb daflu cysgod drostynt.

Mae'r Papur Gwyn hwn, "Gwasanaeth cyhoeddus i bawb: y BBC yn yr oes ddigidol", yn nodi sut y bwriadwn gyflawni hyn.

Mae'n sefydlu newid cyfeiriad yn **nhrefn lywodraethol** y Gorfforaeth. Ers 1927, y Bwrdd Llywodraethwyr, a benodwyd gan y Llywodraeth, fu'r codwyr hwyl ar gyfer rheolaeth y BBC, yn ogystal ag amddiffynwyr annibyniaeth y Gorfforaeth a llys apêl y cwynion yn ei herbyn. Mewn oes lle mae tryloywder a gwahaniad pwerau wedi gweddnewid strwythurau bron pob sefydliad cyhoeddus, byddai'n anghyson i'r BBC barhau â system lle mae'r Llywodraethwyr yn farnwyr ac yn rheithgor. Ceir consensws cyffredin ar y pwynt hwn. Felly fe awn ymlaen â'n cynlluniau i ddisodli'r Llywodraethwyr ag Ymddiriedolaeth newydd y BBC a Bwrdd Gweithredol. Y Bwrdd fydd yn gyfrifol am gyflwyno gwasanaethau'r BBC, a'r Ymddiriedolaeth am ei ddwyn i gyfrif, ac ymgynghori'n eang ac yn rheolaidd â'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded a'r diwydiant.

Mae'n nodi system fydd yn sicrhau **ffocws eglur** ar yr hyn y dylai'r BBC ei gyflawni. Mewn byd lle mae mwy o ddewis nag erioed mewn teledu a radio, mae'n hanfodol i'r BBC allu cyfiawnhau braint ffi'r drwydded. Felly rhaid iddo fod yn gwbl dryloyw ynglŷn â'i amcanion a sut y mesurir ei lwyddiant wrth eu cyrraedd. Felly bydd y Siarter Brenhinol newydd yn nodi chwe diben newydd ar gyfer y BBC, sef:

- Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil;
- Hybu addysg a dysgu;
- Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol drwy ddefnyddio ffi'r drwydded fel cyfalaf mentro ar gyfer creadigrwydd;
- Cynrychioli'r DU, ei gwledydd a'i rhanbarthau;
- Dod â'r byd i'r DU a'r DU i'r byd;
- Datblygu Prydain Ddigidol.

Rhaid i bob gweithgaredd y mae'r BBC yn ymgymryd ag ef fod â'r nod o ddiwallu un neu fwy o'r dibenion hyn. Bydd yr amcanion hyn yn ei helpu i ganolbwyntio ei waith a bydd yr Ymddiriedolaeth newydd yn ymgynghori â'r cyhoedd ar sut i gyflawni pob un.

Bydd system "clo triphlyg" newydd hefyd yn cael ei sefydlu i sicrhau'r **safonau uchaf** ym mhopeth y mae'r BBC yn ei gynhyrchu - drwy ei wasanaethau teledu, radio a chyfryngau newydd. Yn gyntaf, bydd pob gwasanaeth yn rhedeg yn unol â thrwydded wasanaeth fanwl newydd. Bydd yn nodi beth ddylai nodweddion allweddol y gwasanaeth fod, sut y mae'n helpu diwallu dibenion y BBC a beth y gall y cyhoedd ei ddisgwyl ganddo.

Yn ail, bydd rhaid gallu profi bod y cynnwys a gynhyrchir ar gyfer pob un o'r sianeli hyn yn briodol ar gyfer y BBC. I sicrhau hyn, gosodir meini prawf newydd o ran ansawdd, gwreiddioldeb, arloesedd, her ac ymrwymiad, er mwyn helpu bodloni'r pryderon bod y Gorfforaeth â'i fryd ar geisio cynulleidfaoedd da.

Ac yn olaf, mae angen mecanwaith i'w gwneud yn bosibl archwilio cynigion y BBC i amrywio trwyddedau gwasanaeth er mwyn addasu i newidiadau mewn technoleg neu chwaeth y cyhoedd. Felly yn y dyfodol, bydd rhaid i unrhyw wasanaeth newydd gan y BBC, neu unrhyw newid sylweddol i wasanaeth, fod yn destun archwiliad manwl drwy Brawf Gwerth Cyhoeddus er mwyn penderfynu sut y bydd yn gwasanaethu budd y cyhoedd, ac i bwyso hynny yn erbyn unrhyw effaith ar y farchnad. Bydd hyn yn cynnwys asesiad effaith ar y farchnad trylwyr a ddarperir gan Ofcom. Bwriad y prawf yw helpu cydbwyso manteision darlledu gwasanaeth cyhoeddus ag iechyd y farchnad gyfryngau ehangach.

Mae **ecoleg gytbwys** o'r math hwn hefyd yn ateb sy'n unigryw i Brydain. Mae nawdd cyhoeddus i ddarlledwyr yn eistedd ochr yn ochr â nawdd masnachol, ac wedi gwneud hynny ers 1955. Mae gan Brydain un o'r diwydiannau cyfryngau mwyaf bywiog a chystadleuol yn y byd. Mae hyn o fudd i'r economi a'r cyhoedd, sy'n mwynhau amrediad o ansawdd a dewis yn y cyfryngau na welir yn aml unrhyw le arall, ac y mae un arolwg barn ar ôl y llall yn dangos eu bod yn ei werthfawrogi.

Mae angen i'r BBC fod yn gryf o fewn y system honno, gyda'r pŵer i gyrraedd pob rhan o'r gymuned. Ond yn dilyn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd, cawsom nifer o sylwadau gan y cyhoedd a'r diwydiant yn dadlau na all y BBC fod yn rhy rymus, er anfantais i'r farchnad gyfan. Rydym wedi gwrando ar y sylwadau hyn, felly, ochr yn ochr â rôl Ofcom yn y gwaith o werthuso effaith gweithgarwch gwasanaethau newydd ar y farchnad, bydd gan yr Ymddiriedolaeth newydd ddyletswydd gyffredinol rwymol i ystyried effaith y BBC ar y farchnad ehangach. Bydd yna hefyd:

- Fath newydd o reoliad *ex ante* mewn meysydd gweithgarwch penodol, sydd â'r potensial i godi pryderon o ran cystadleuaeth, gyda rôl sylweddol ar gyfer Ofcom;
- Cyfundrefn masnachu teg wedi'i harchwilio, er mwyn egluro'r gwahaniaeth rhwng rhwymedigaethau cyfreithiol y Gorfforaeth a'i rheolau mewnol ei hun;
- Trefn gwyno newydd gadarn sy'n galluogi'r Ymddiriedolaeth i gymryd camau pan fo'r angen i ddisgyblu Bwrdd Gweithredol y BBC;
- Ac ochr yn ochr â hyn, rôl gyfnerthedig ar gyfer y NAO, o fewn y trefniadau presennol.

Nod y cynigion hyn yw cyrraedd y cytbwysedd cywir rhwng rheoleiddiad allanol ac Ymddiriedolaeth gref. Cafwyd pryderon y bydd yr Ymddiriedolaeth yn rhy agos at y Bwrdd Gweithredol. Ond byddai hynny'n mynd yn groes i fuddion hirdymor y BBC. Y broses Adolygu Siarter nesaf fydd yn gwarantu annibyniaeth a chadernid yr Ymddiriedolaeth. Bydd hyn yn digwydd yn 2016, mewn marchnad gwbl ddigidol. Erbyn hynny, bydd angen i'r BBC fod wedi dangos effeithiolrwydd y trefniadau newydd hyn ac wedi datblygu consensws ar eu cyfer.

Mae'r Papur Gwyn yn rhoi diben newydd i'r Gorfforaeth, sy'n unigryw ymysg yr holl ddarlledwyr, sef **datblygu Prydain Ddigidol**. Bydd hyn yn diogelu ei rôl o ran cynnig manteision technolegau newydd i gynulleidfaoedd. Yn benodol, erbyn 2012, ac yn dechrau yn 2008, bydd y wlad gyfan wedi newid ei derbyniad teledu i fod yn ddigidol. Y manteision yw y bydd signal digidol cliriach ac amrediad ehangach o sianeli a gwasanaethau a ddaw yn sgil gwasanaeth digidol yn unig ar gael yn gyffredinol am y tro cyntaf. Ym Mhrydain y mae'r gyfradd uchaf o bobl sy'n manteisio ar deledu digidol yn y byd yn barod, sef dwy ran o dair o'r cartrefi, ac mae gwasanaethau newydd y BBC wedi bod yn rhan arwyddocaol o'r llwyddiant hwn. Ond mae trosi'n gyfan gwbl i ddigidol yn brosiect mawr a chymhleth, a bydd angen cyngor a chymorth ymarferol ar filiynau o bobl i wneud y newid hwn.

Y BBC sydd yn y sefyllfa orau ymysg yr holl ddarlledwyr i ymddwyn fel "arweinydd dibynadwy" i'r cyhoedd drwy'r broses hon. Mae eisoes wedi helpu miliynau i ddeall a defnyddio'r rhyngrwyd. Mae ganddo'r cyrhaeddiad i gynnig cymorth ymarferol ym mhob rhan o'r wlad. Mae'r BBC wedi cyflawni'r rôl hon drwy gydol ei hanes, gan helpu ymlediad y radio, yna'r teledu a nawr y Rhyngrwyd a theledu digidol. Ond bydd newid i ddigidol hefyd yn dod â manteision penodol i'r BBC; nid yn unig y bydd yn osgoi cost cynnal dau rwydwaith darlledu daearol, ond bydd hefyd yn sicrhau y gall pawb sy'n talu ffi'r drwydded dderbyn y sianeli teledu digidol y maent eisoes yn eu hariannu ar hyn o bryd, ond na all lleiafrif sylweddol gael gafael arnynt drwy eu herial.

Bydd gan y BBC rôl hefyd yn y gwaith o hyrwyddo llythrennedd cyfryngol. Gall helpu sicrhau bod gwylwyr a gwrandawyr yn deall sut y mae'r cyfryngau'n gweithio, sut y maent yn dylanwadu ar ein bywydau a sut y gellir eu defnyddio orau. Yn yr oes sydd ohoni, nid sgiliau ymylol mo'r rhain. Maent yn dechrau bod yr un mor bwysig â ffurfiau eraill o lythrennedd i waith a hamdden, ac i weithrediad democratiaeth.

Mae'r Papur Gwyn yn egluro mai ffi'r drwydded fydd y ffordd decaf a mwyaf cost effeithlon o ariannu'r BBC drwy'r ddeng mlynedd nesaf. Ond, fel rhan o'i ddyletswydd hollbwysig i sicrhau bod y BBC yn cyflawni gwerth am arian ar ran y rhai sy'n talu ffi'r drwydded, bydd angen i'r Ymddiriedolaeth ddewis

yn aml rhwng blaenoriaethau sy'n cystadlu'n erbyn ei gilydd. Rhaid i unrhyw sefydliad ar y raddfa hon ddisgwyl gorfod cyfyngu ar ei gost drwy arbedion effeithlonrwydd. Nid yw'r BBC yn eithriad yn hyn o beth.

Gyda Siarter Brenhinol newydd a ffi'r drwydded wedi'i hadnewyddu, gall y Gorfforaeth ddisgwyl aros wrth graidd bywyd cyhoeddus am y ddeng mlynedd nesaf. Ond ni fydd darlledu yn 2016 yn ymdebygu llawer i fyd y cyfryngau heddiw, ac ni ellir cymryd y safle hwnnw'n ganiataol. Rydym yn uchelgeisiol dros ddyfodol darlledu gwasanaeth cyhoeddus. Ddeng mlynedd yn ôl, roedd sylwebyddion yn rhagweld y byddai technoleg yn disodli'r angen am fuddsoddiad cyhoeddus mewn cynnwys. Heddiw, darlledu gwasanaeth cyhoeddus yw sylfaen ein cyfryngau o hyd. Mae'r Siarter hwn yn rhoi'r modd a'r cyfle i'r BBC gynnal a datblygu'r rôl ganolog honno. Os gall y BBC barhau i wasanaethu pawb sy'n talu ffi'r drwydded, yn arbennig drwy recriwtio cenedlaethau newydd o wylwyr a gwrandawyr, ac os gall ddatblygu consensws o amgylch ei safle breintiedig yn y farchnad, bydd yn parhau i fod yn ganolog i fywyd a darlledu ym Mhrydain.

Mae'r Papur Gwyn hwn yn rhoi'r cyhoedd wrth graidd y drafodaeth honno am y BBC. Bydd y trefniadau newydd yn rhoi grym iddynt drwy roi llais gwirioneddol iddynt ym materion y BBC dros y ddeng mlynedd nesaf. Fel y casglodd Yr Arglwydd Burns a'r panel annibynnol ar adolygiad y Siarter:

> *"Po fwyaf atebol i'r cyhoedd y mae'r BBC yn ymddangos, mwyaf parod fydd y cyhoedd i ganiatáu iddo ddefnyddio'i ddoethineb o ran ei ddiben a'i gylch gwaith yn ogystal â derbyn ffi'r drwydded fel ffordd briodol o'i ariannu".*

Rhaid i'r BBC gynnwys, argyhoeddi a bodloni'r cyhoedd er mwyn cadw ei safle fel sefydliad a chadw ei le yng nghalon y genedl, fel y credwn ni y gall ei wneud.

TESSA JOWELL
Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

2. Beth mae'r Papur Gwyn hwn yn ei gynnwys

Mae'r Papur Gwyn hwn yn egluro polisi'r Llywodraeth ar gyfer y BBC am gyfnod y Siarter nesaf. Caiff y polisi ei weithredu drwy Siarter a Chytundeb newydd y BBC.

Mae'r Papur Gwyn wedi'i rannu'n nifer o adrannau, pob un yn ymdrin â gwahanol agwedd ar bolisi'r Llywodraeth. Mae'r adran hon yn egluro rhai o bwyntiau allweddol y polisi hwnnw er mwyn helpu'r darllenydd i ddod o hyd i'w ffordd o amgylch y Papur Gwyn.

Dibenion y BBC

- Rydym yn cadarnhau chwe **diben cyhoeddus** newydd ar gyfer y BBC: cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil; hybu addysg a dysgu; ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol - gan gynnwys ffilmiau; adlewyrchu Cenhedloedd, rhanbarthau a chymunedau'r DU; dod â'r byd i'r DU â'r DU i'r byd a Datblygu Prydain Ddigidol.
- O fewn y fframwaith hwnnw, rydym yn egluro pwysigrwydd **adloniant** i genhadaeth y BBC, ac ar yr un pryd yn sicrhau y dylai ei gynnwys gynnig rhywbeth gwahanol i ddarlledwyr eraill.
- Rydym yn cadarnhau set o bum **nodwedd** fydd yn gwahaniaethu cynnwys y BBC: safon uchel; heriol; gwreiddiol; arloesol ac atyniadol. Dylai holl gynnwys y BBC fod ag o leiaf un o'r nodweddion hyn.
- Bydd yr Ymddiriedolaeth yn ymgynghori ar **"gylchoedd gwaith newydd y dibenion"**, gan nodi ei flaenoriaethau strategol o fewn pob diben.

Paratoi ar gyfer y dyfodol: Datblygu Prydain Ddigidol

- Fel rhan o'i ddiben o "Ddatblygu Prydain Ddigidol", dylai'r BBC barhau i chwarae rhan arweiniol mewn datblygiad technolegol. Ar yr un pryd, mae'r Llywodraeth yn cefnogi sector masnachol sydd yr un mor fywiog, cystadleuol ac arloesol - a bydd ar y BBC angen perthynas wahanol iawn â'r byd y tu allan i adlewyrchu hynny.
- Rydym yn cadarnhau rôl y BBC yn y gwaith o **newid i wasanaeth digidol**. Un o ganlyniadau allweddol newid i ddigidol fydd sicrhau y gall pawb sy'n talu ffi'r drwydded dderbyn gwasanaethau digidol y BBC. Felly mae'n briodol i'r BBC gymryd rôl arweiniol mewn gweithredu'r newid i wasanaeth digidol.
- Dan y Siarter a'r Cytundeb newydd, bydd cyfraniad y BBC yn dod o dan dri maes allweddol: ehangu'r rhwydwaith digidol, hysbysu'r cyhoedd a helpu'r gwylwyr teledu mwyaf agored i niwed.
- Rydym hefyd yn croesawu buddsoddiad y BBC mewn **radio digidol** a'i waith i'w hyrwyddo, ac yn credu y dylai'r BBC barhau â'i rôl yn y maes hwn.

Eglurder a sicrwydd: trwyddedau gwasanaeth a'r Prawf Gwerth Cyhoeddus

- Caiff gwasanaethau'r BBC eu rhedeg yn ôl **"trwydded gwasanaeth"** a roddir i'r Bwrdd Gweithredol gan yr Ymddiriedolaeth. Byd trwyddedau gwasanaeth yn cynnwys holl nodweddion pwysicaf gwasanaeth unigol. Byddant yn nodi sut y mae'r gwasanaeth yn cyfrannu tuag at gyflawni blaenoriaethau'r Ymddiriedolaeth ac yn cynnwys dangosyddion y bydd yr Ymddiriedolaeth yn eu defnyddio i farnu perfformiad y gwasanaeth. Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus ar bob trwydded gwasanaeth, a bydd yr Ymddiriedolaeth yn eu hadolygu o dro i dro.

- Dylai pob cynnig am newid sylweddol i wasanaethau presennol neu am wasanaethau newydd fod yn destun **Prawf Gwerth Cyhoeddus**. Yr Ymddiriedolaeth fydd yn penderfynu a yw cynnig yn sylweddol ai peidio, gan gyfeirio at feini prawf eglur.
- Pa bryd bynnag y bydd yr Ymddiriedolaeth yn cynnal Prawf Gwerth Cyhoeddus, bydd Ofcom yn gyfrifol am ddarparu asesiad effaith ar y farchnad, fydd yn cael ei gyhoeddi. Bydd gwaith Ofcom yn cael ei oruchwylio gan grŵp llywio fydd yn cynnwys aelodau'r Ymddiriedolaeth ac Ofcom ar y cyd.

Rheoleiddio cystadleuaeth

Bydd gofyn i'r BBC gyflawni ei gyfrifoldebau i'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded o fewn fframwaith marchnad newydd:

- Dyletswydd, i'w nodi yn Siarter newydd y BBC, ar yr Ymddiriedolaeth i ystyried materion cystadleuaeth wrth sicrhau cyflawniad dibenion cyhoeddus y BBC
- **Cyfundrefn masnachu teg** wedi'i harchwilio.
- System newydd o **godau *ex ante***, a weithredir gan yr Ymddiriedolaeth ac a lunnir ganddynt mewn ymgynghoriad ag Ofcom, mewn meysydd penodol sy'n codi pryderon posibl o ran cystadleuaeth.
- Trefn gwyno newydd

Gwasanaethau Masnachol

- Dylai'r BBC barhau i dynnu pwysau oddi ar ffi'r drwydded drwy gynhyrchu incwm masnachol. Fodd bynnag, dylid rhedeg ei wasanaethau masnachol yn unol â phedwar egwyddor: dylent gytuno â dibenion cyhoeddus y BBC; effeithlonrwydd masnachol; diogelu brand y BBC ac osgoi ystumio'r farchnad. Bydd Ymddiriedolaeth y BBC yn gyfrifol am ddwyn y Bwrdd Gweithredol i gyfrif o ran cydymffurfio â'r meini prawf.
- Mae'n bwysig i'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded allu cael gafael ar wybodaeth am sut y mae arian yn symud rhwng gwahanol adrannau'r BBC. Bydd amddiffyniadau priodol yn cael eu sefydlu, gan gynnwys cyfrifon cwbl ar wahân a thelerau eglur ar gyfer cynnal trafodion rhwng y gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithgareddau masnachol.

Cynhyrchu a threfnu

- Credwn mai annog cystadleuaeth ym maes cynhyrchu teledu drwy gyflwyno **"cyfle am gystadleuaeth greadigol"**, ar y cyd â gallu mewnol cryf a chyson y BBC, yw'r ffordd orau o sicrhau bod y rhaglenni gorau'n cyrraedd y sgrin.
- Byddwn yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar yr Ymddiriedolaeth i sicrhau y caiff **cynhyrchwyr radio annibynnol** gyfle i gyfrannu'n llawn i ddarpariaeth y BBC o'r rhaglenni gorau posibl ar gyfer gwrandawyr. Byddwn yn sicrhau y mabwysiadir arferion tebyg ar gyfer **cynnwys ar-lein** ag ar gyfer y radio.
- Rydym yn cadarnhau rôl arweiniol y BBC mewn **hyfforddiant** – gan gynnwys ei gyfraniad i fentrau drwy'r diwydiant cyfan – ac i **ymchwil a datblygiad technolegol**.
- Rydym yn croesawu mewn egwyddor gynigion y BBC i symud swm sylweddol o gynhyrchiant i ddinasoedd y tu allan i Lundain, yn enwedig i Ogledd Orllewin Lloegr. Byddwn yn ystyried darpar werth am arian symudiad o'r fath yn fanylach yng nghyd-destun cais ffi trwydded y BBC.

Ymddiriedolaeth y BBC a'r Bwrdd Gweithredol

- Rydym yn cadarnhau y caiff Llywodraethwyr y BBC eu diddymu a'u disodli gan ddau gorff newydd â chyfansoddiad ffurfiol: Ymddiriedolaeth y BBC a'r Bwrdd Gweithredol. Yr Ymddiriedolaeth fydd y corff goruchaf o fewn y BBC.
- Byddwn yn creu llinell newydd o atebolrwydd - o'r Ymddiriedolaeth newydd yn uniongyrchol i'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded, wedi'i hatgyfnerthu gan wahaniaethiad clir rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol a rhwymedigaeth ddigynsail i ddidwylledd ac amlygrwydd.
- Bydd ar yr Ymddiriedolaeth angen pobl â'r **arbenigedd** priodol. Bydd yn cynnwys aelodau sydd wedi ymroi i fuddion Lloegr, Yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.
- Bydd y **Bwrdd Gweithredol** yn cynnwys Uwch Swyddogion Gweithredol yn bennaf, gyda lleiafrif sylweddol – o leiaf draean a dim llai na phedwar – o Swyddogion Anweithredol i weithredu fel "cyfeillion beirniadol". Caiff ei gadeirio gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol neu, yn ôl doethineb yr Ymddiriedolaeth, swyddog anweithredol.
- Caiff y berthynas rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r **Swyddfa Archwilio Genedlaethol** ei chryfhau o fewn y trefniadau presennol.

Ariannu

- Nid yw'r Llywodraeth yn bwriadu gwneud unrhyw newidiadau i'r amrediad presennol o **gonsesiynau ffi'r drwydded**. O ran **casglu a gorfodi** ffi'r drwydded, byddwn yn gwneud yr Ymddiriedolaeth yn fwy uniongyrchol atebol am weithgareddau Trwyddedu Teledu. Byddwn yn annog pobl i fanteisio ar gynlluniau talu rhwydd. A byddwn yn ystyried cynigion pellach i ddargyfeirio troseddwyr oddi wrth y system Gyfiawnder Troseddol.

Gosod lefel ffi'r drwydded

- Ffi'r drwydded deledu yw'r ffordd orau o ariannu'r BBC o hyd, a dyma fydd ei brif fecanwaith ariannu drwy gydol y ddeng mlynedd nesaf.
- Byddwn yn adolygu'r posibilrwydd o ddefnyddio mecanweithiau ariannu amgen ar ôl diwedd y Siarter nesaf yn 2016. Rydym yn disgwyl i'r adolygiad hwn gael ei gynnal tua diwedd y broses o newid i ddigidol, er mwyn caniatáu amser ar gyfer y gwaith cynllunio angenrheidiol cyn rhoi unrhyw newidiadau ar waith.
- Mae'r Llywodraeth wrthi'n ystyried lefel setliad newydd ffi'r drwydded, ddylai ddod i rym fis Ebrill 2007. Byddwn yn cyhoeddi manylion y setliad maes o law. Yn yr un modd â setliad ffi'r drwydded gyfredol, byddwn yn disgwyl i'r BBC godi rhan fawr o'r cyllid y mae arno ei angen drwy "hunangymorth": effeithlonrwydd, gwelliannau yn y drefn o gasglu a gorfodi ffi'r drwydded a refeniw masnachol.

Dyfodol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus y tu hwnt i'r BBC

- Wrth i effaith y newid i wasanaethau digidol ddod yn fwy amlwg yn ystod cyfnod y Siarter nesaf, byddwn yn cynnal adolygiad o'r achos dros ddosbarthu arian cyhoeddus – gan gynnwys arian ffi'r drwydded – yn ehangach y tu hwnt i'r BBC. Disgwyliwn y bydd hyn yn golygu cynnal yr adolygiad tuag at ddiwedd cyfnod y newid i ddigidol, ond byddwn yn cadw'r opsiwn o gynnal adolygiad cynharach cyn diwedd y ddegawd hon.

3. Dibenion y BBC

Beth mae pobl Prydain ei eisiau gan y BBC

3.1.1 Mae'r BBC wedi chwarae rôl bwysig ym mywyd Prydain o'r dechrau. Mae pobl Prydain yn cydnabod ac yn edmygu'r rôl hon, ac mae ymgynghoriad helaeth ar ddyfodol y BBC wedi dangos bod y cyhoedd am i'r rôl honno barhau. Mae'r naill Lywodraeth ar ôl y llall wedi cydnabod pwysigrwydd y BBC ac wedi dewis cadw darlledwr cryf ac annibynnol a ariennir gan y cyhoedd oherwydd y manteision enfawr y mae'n eu cynnig i unigolion sy'n talu ffi'r drwydded, i'r gymdeithas ehangach ac i'r diwydiant y mae'n rhan ohono. Mae'n rhan o'n diwylliant cenedlaethol y dibynnir arno ac a werthfawrogir yn eang. Mae'n rhan fawr o'r rheswm pam mai ni sydd â'r gwasanaeth darlledu gorau yn y byd.

3.1.2 Mae pobl hefyd yn gwybod beth y mae arnynt ei eisiau gan y BBC. Maent yn cydnabod y ceir dewis helaeth iawn yn y farchnad ehangach, ond credant, os unrhyw beth, bod cyflymder y newid a'r ehangiad cyflym yn y dewis yn gwneud y BBC yn bwysicach nawr nag a fu erioed. Yn wir yn hytrach na diflannu'n ddim, mae'r rhan fwyaf o bobl yn ystyried y BBC fel sylfaen cadarn ar gyfer gweddill cyfryngau darlledu'r DU. Mae pobl yn ei ystyried yn amgylchedd sicr a dibynadwy, sy'n cyflwyno rhaglenni o ansawdd uchel a chynnwys rhyngrwyd y gallant hwy a'u teuluoedd ddibynnu arno.

3.1.3 Felly mae pobl yn ystyried bod gan y BBC ddibenion amlwg, sy'n gwasanaethu'r cyhoedd mewn modd unigryw. Maent yn cytuno, yn yr un modd â'r Llywodraeth, â'r amcanion gwreiddiol a osododd Cyfarwyddwr Cyffredinol cyntaf y BBC, Yr Arglwydd Reith, y dylai'r BBC hysbysu, addysgu a difyrru. Ond, ym myd mwy cymhleth y cyfryngau sydd ohoni, cytunodd pobl bod angen set o ddibenion mwy cyflawn a manwl ar gyfer y BBC, fel yr amlinellir yn y Papur Gwyrdd.

Y dibenion

3.1.4 Nododd y Papur Gwyrdd chwe diben cyhoeddus ar gyfer y BBC:

- Cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil;
- Hybu addysg a dysgu;
- Ysgogi creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol;
- Adlewyrchu Cenhedloedd, rhanbarthau a chymunedau'r DU;
- Dod â'r byd i'r DU a'r DU i'r byd;
- Datblygu Prydain Ddigidol.

Adloniant a gwahanolrwydd

3.1.5 Fodd bynnag, un o'r negeseuon amlycaf a gafwyd o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y Papur Gwyrdd oedd pwysigrwydd rôl y BBC o ran darparu adloniant. Roedd rhai'n pryderu ein bod mewn perygl o golli golwg ar hyn. Roeddent yn teimlo nad oedd adloniant yn cael ei adlewyrchu'n ddigonol yn y trefniadau newydd arfaethedig. Ac un pwynt a wnaed yn rymus gan y diwydiant oedd yr angen i gynnwys y BBC fod yn wahanol.

3.1.6 Mae adloniant yn rhan hanfodol o genhadaeth y BBC. Nid yw'r Llywodraeth yn gweld unrhyw wrthdaro rhwng y trefniadau newydd ac adloniant. Yn unol â barn Pwyllgor Dethol arbennig Tŷ'r Arglwyddi ar yr Adolygiad Siarter[1], nid ydym yn cytuno â'r syniad y dylai darlledu gwasanaeth cyhoeddus gael ei gyfyngu i'r "teilwng". Yn wir, yn y rhan fwyaf o achosion, dim ond drwy ddifyrru ei wylwyr a'i wrandawyr y bydd yr hyn a gynhyrchir gan y BBC yn cael yr effaith orau bosibl.

3.1.7 Ar y llaw arall, fel y bu i ni egluro yn y Papur Gwyrdd, ni ddylai'r BBC geisio cynulleidfaoedd drwy raglenni deilliadol neu gopïo. Mae'n anghywir ystyried bod adloniant yn groes i'r chwe diben a restrir yn y Papur Gwyrdd. Nid dewisiadau amgen mohonynt; i'r BBC, dylai difyrru fod yn sylfaenol bwysig, ond dylai gynnwys cystadlu â darlledwyr eraill ar sail ansawdd, ac nid drwy gopïo neu addasu fformatau llwyddiannus darlledwyr eraill na gwneud rhaglenni ar lun fformwlâu dibynadwy yn unig. Er ei fod yn gwbl gyfreithlon - ac, o ystyried y modd y caiff ei ariannu, yn angenrheidiol - i'r BBC ddarparu rhaglenni wedi'u hanelu at gynulleidfa eang, dylai sicrhau'r cynulleidfaoedd hynny drwy rinweddau cynhenid ei gynnwys, gydag adloniant yn un o'r nodweddion pwysig i'w cyrraedd, ond nid yr unig un.

3.1.8 Cytunwn hefyd y dylai cynnwys y BBC gynnig rhywbeth gwahanol i ddarlledwyr eraill. Nid yw hyn yn golygu mai dim ond mathau o raglenni nad yw eraill yn eu darparu y dylai eu cynnig. Yn lle hynny, lle mae'n darparu genres sydd eisoes ar gael ar y farchnad, dylai ei gynnwys sefyll allan yn amlwg fel cynnwys y BBC. Dylai ymagwedd y BBC tuag at "gaffaeliadau" - rhaglenni a ffilmiau a brynir i mewn, yn aml oddi tramor - hefyd, ar y cyfan, geisio cynnig rhywbeth gwahanol i'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded i'r hyn sydd ar gael iddynt o ffynonellau eraill.

3.1.9 Yn y Papur Gwyrdd, bu i ni gynnig set o bum nodwedd (gweler y blwch) fydd yn gwahaniaethu cynnwys y BBC - ei raglenni teledu a radio, ei dudalennau gwe ac ati - oddi wrth gynnwys pawb arall. Dangosodd ymgynghoriad cyhoeddus bod cefnogaeth gref i'r nodweddion. Rydym felly'n cadarnhau'r nodweddion fel a ganlyn:

- Safon uchel – dylai'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded gydnabod bod rhaglenni'r BBC yn sefyll allan oddi wrth y gweddill;
- Heriol – dylai beri i gynulleidfaoedd feddwl;
- Gwreiddiol – dylai ymdrechu i gynnig y lefel briodol o gynnwys newydd neu gychwynnol;
- Arloesol – dylai gyflwyno syniadau newydd neu ddyfeisio ymagweddau cyffrous, yn hytrach na chopïo hen rai;
- Atyniadol – dylai ddenu'r gynulleidfa gyda chynnwys cyfareddol a difyr.

3.1.10 Rydym yn cadarnhau y dylai holl gynnwys y BBC ddangos o leiaf un o'r nodweddion hyn.

3.1.11 Mae'r nodweddion yn ddigon eang i alluogi'r BBC i ddarparu amrediad eang o raglenni i apelio at ei holl gynulleidfa. Fodd bynnag, ar y cyd â'r dibenion a'r trwyddedau gwasanaeth, byddant hefyd yn darparu mecanweithiau grymus i'r Ymddiriedolaeth ar gyfer dwyn y Bwrdd Gweithredol i gyfrif - ac, yn eu tro, sefydlir safonau eglur y gellir barnu effeithiolrwydd yr Ymddiriedolaeth yn eu herbyn.

[1] *Adolygiad o Siarter Brenhinol y BBC*, Cyfrol 1: Adroddiad, Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar yr Adolygiad o Siarter y BBC

Cynigion y Papur Gwyrdd

Dylai'r BBC ddarparu amrediad eang o gynnwys, ar draws pob genre, gan geisio cyrraedd yr amrediad mwyaf posibl o gynulleidfaoedd. Lle bo'n bosibl, dylai wneud pynciau'n hygyrch i gynulleidfaoedd newydd. Dylai ei raglenni osod safonau, yn arbennig o ran y newyddion, y gall darlledwyr eraill fod am ymgyrraedd atynt.

Dylai rhaglenni geisio bod yn rhagorol, yn wahanol ac yn ddifyr – golyga hyn, yn fwy penodol, y dylent fod:

- o safon uchel; yn
- Heriol;
- Gwreiddiol;
- Arloesol;
- Atyniadol.

Dylai pob rhaglen ddangos o leiaf un o'r nodweddion uchod o ragoriaeth a gwahanolrwydd.

3.1.12 Bydd y system o ddibenion a nodweddion rydym wedi'i nodi yn rhoi'r arfau angenrheidiol i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod y BBC yn cyflwyno cynnwys sy'n wahanol ac yn ddifyr. Ni fydd gofyn i unrhyw ddarlledwr arall ganolbwyntio ei holl ymdrechion i gyflawni fframwaith tebyg o ddibenion cyhoeddus - mae hynny ynddo'i hun yn ddigon i osod y BBC ar wahân i'r gweddill.

3.1.13 Darlledwr yw'r BBC yn anad dim - ei brif swydd yw cynhyrchu cynnwys o'r safon orau ar draws amrediad eang o genres sydd ar gael i gynulleidfa dorfol, yn bennaf drwy deledu, radio a gwasanaethau cyfryngol newydd. Fodd bynnag, fel y nododd y Papur Gwyrdd, mae gan y BBC ran werthfawr iawn i'w chwarae drwy ei weithgareddau ehangach: er enghraifft, ei gerddorfeydd a'i gorau, ei waith o ran cyfoethogi'r deyrnas gyhoeddus â digwyddiadau sgrin fawr yng nghanol dinasoedd a'r nifer helaeth o brosiectau cymunedol sy'n ymwneud â darlledu y mae'n eu cynnal ledled y wlad. Mae ei ymrwymiad i dalent newydd wedi gwneud Radio 3 yn gomisiynydd cerddoriaeth newydd mwya'r byd a Radio 4 yn un o'r comisiynwyr gweithiau llenyddol newydd mwyaf. Disgwylia'r Llywodraeth i'r BBC barhau i ddatblygu gweithgareddau o'r fath yn unol â'i ddibenion cyhoeddus, ac yn amodol ar ei ddyletswydd gyffredinol i ystyried yr effaith ar y diwydiant ehangach.

Arweiniad drwy dechnolegau'r dyfodol

3.1.14 Mae technoleg yn datblygu ar gyflymder na welwyd ei debyg erioed o'r blaen, sy'n aml yn ddigon i ddrysu rhywun. Os ydym ni am i'r DU aros ar flaen y datblygiadau hyn – gyda'r holl fanteision i gymdeithas a diwydiant allai ddod yn sgil hynny – mae angen cynnwys y cyhoedd ynddynt. Dyma ble mae gan y BBC ran hanfodol i'w chwarae.

3.1.15 Ers ei sefydlu, mae'r BBC wedi cymryd rôl arweiniol o ran cynnig manteision technolegau newydd i gynulleidfaoedd torfol. Fel y dywedasom yn y Papur Gwyrdd, fe'i hystyrir yn "arweinydd dibynadwy" i dechnoleg newydd a'r profiadau newydd a ddaw yn ei sgil. Ar hyd ei hanes maith, mae wedi helpu cyflwyno teledu du a gwyn ac yna deledu lliw, radio FM ac yna radio digidol, teledu digidol ac yna deledu rhyngweithiol, y rhyngrwyd, podgastio a

gwasanaeth dal-i-fyny 7 niwrnod i gynulleidfaoedd. Rydym am i'r BBC allu datblygu'r rôl hon dan y Siarter a'r Cytundeb newydd.

3.1.16 Felly mae'n rhaid i'r BBC fod yn ddigon hyblyg i addasu i dirwedd gyfryngol sy'n newid yn barhaus dros gyfnod y Siarter nesaf. Rhaid iddo allu ymateb i ddisgwyliadau newidiol cynulleidfaoedd, a hefyd eu rhagweld a helpu i'w llunio. Bydd hyn yn bwysicach fyth mewn byd lle bydd cynnwys a gynhyrchir gan ddefnyddwyr yn chwarae rhan fwyfwy pwysig. Bydd hyn yn helpu creu cyfleoedd i'r diwydiant cyfan elwa arnynt ac yn diogelu'r BBC ar gyfer y cenedlaethau fydd yn talu ffi'r drwydded yn y dyfodol.

3.1.17 Ond, ar yr un pryd, mae'r Llywodraeth yn cefnogi sector masnachol sydd yr un mor fywiog, cystadleuol ac arloesol. Mae 2006 yn wahanol iawn i 1927, pan sefydlwyd y BBC ar ei ffurf bresennol. Bydd angen i'r BBC ddatblygu perthynas wahanol iawn â'r byd y tu allan i adlewyrchu hynny.

3.1.18 Dyma'r egwyddor sydd wrth wraidd ein diwygiadau i'r drefn lywodraethol, a nodir yn adran 10. Mae'n gosod sylfaen ar gyfer y mecanweithiau newydd i reoleiddio gweithgareddau'r Bwrdd Gweithredol a nodir yn nes ymlaen – trwyddedau gwasanaeth, y Prawf Gwerth Cyhoeddus a'r codau *ex ante* newydd i fynd i'r afael â materion allai godi pryderon o ran cystadleuaeth. Mae hefyd yn ganolog i ddibenion cyhoeddus newydd y BBC, sy'n datblygu ar fformwla Reith o hysbysu, addysgu a diddanu.

3.1.19 Rydym felly'n cadarnhau'r polisi a nodir yn y Papur Gwyrdd; bydd nodau Reith yn parhau, gyda'r dibenion cyhoeddus newydd yn gyrru'r BBC ymlaen yn ystod cyfnod y Siarter nesaf. Bydd popeth y bydd y BBC yn ei wneud â'r nod o gyflwyno'r dibenion cyhoeddus, a bydd ei ymdrechion yn cael eu hadlewyrchu yn ansawdd ei raglenni gwasanaeth cyhoeddus.

Datblygu consensws a gosod blaenoriaethau

3.1.20 Mae'r dibenion newydd yn cynnig cyfle i'r Ymddiriedolaeth ddatblygu consensws ynglŷn â rôl y BBC, gosod blaenoriaethau ac amlygu meysydd lle mae'r BBC yn y sefyllfa orau i wneud gwahaniaeth; ni all y BBC wneud popeth, felly rhaid iddo ganolbwyntio ar ei gryfderau. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn ymgynghori ar "gylchoedd gwaith newydd y dibenion", gan osod ei blaenoriaethau strategol o fewn pob diben, ac ar sut y bernir llwyddiant, gan ystyried effaith y BBC, nid yr hyn y mae'n ei gynhyrchu yn unig.

Effaith a chynnyrch

Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth gynnwys y rhai sy'n talu ffi'r drwydded mewn trafodaeth ynglŷn â'i flaenoriaethau a sut y bernir ei lwyddiant ei hun wrth eu cyflawni. Wrth wneud hynny, bydd angen i'r Ymddiriedolaeth feddwl am effaith y BBC. Er enghraifft, fel rhan o'i gynllun ar gyfer cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil, gallai'r Ymddiriedolaeth, yn dilyn ymgynghoriad, benderfynu y dylai egluro materion y tu ôl i'r newyddion yn well nag unrhyw ddarlledwr arall fod yn un o'i amcanion. Bydd angen iddo ddatblygu mesurau, o bosibl wedi'u seilio ar ymchwil i gynulleifaoedd neu adolygiad cyfoedion, i ddangos pa mor llwyddiannus y bu wrth gyflawni'r amcan hwnnw.

3.1.21 Wrth ymgynghori, bydd angen i'r Ymddiriedolaeth weithio'n agos â'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded, a hefyd ag amrediad eang o bobl eraill â diddordeb, megis darlledwyr a darpar bartneriaid, cynrychiolwyr defnyddwyr ac undebau llafur, er mwyn sicrhau bod cylchoedd gwaith dibenion y BBC yn cyd-fynd â'r cryfderau a'r rhinweddau y gall eraill eu cynnig.

3.1.22 Wrth ddatblygu ei gylchoedd gwaith, bydd angen i'r Ymddiriedolaeth osod blaenoriaethau eglur. Er y bydd y setliad ar gyfer ffi'r drwydded sydd ar ddod yn sicrhau bod y BBC yn cael ei ariannu'n ddigonol i gyflawni ei ddibenion cyhoeddus, bydd angen i'r Ymddiriedolaeth wneud dewisiadau o ran sut y mae'r BBC yn defnyddio ei adnoddau yn ogystal â sicrhau effeithlonrwydd parhaus yn y modd y mae'n cyflwyno ei wasanaethau. Mae ei gylchoedd gwaith ar gyfer y dibenion yn darparu modd grymus o gynnwys y rhai sy'n talu ffi'r drwydded wrth benderfynu ar ei flaenoriaethau. Dylai'r Ymddiriedolaeth barhau i adolygu ei chynlluniau.

3.1.23 Gyda phob un o'r dibenion, yr Ymddiriedolaeth fydd yn gyfrifol am benderfynu blaenoriaethau'r BBC a sut y bernir llwyddiant. Bydd y Siarter a'r Cytundeb yn nodi elfennau diffiniol allweddol pob diben y bydd angen i'r Ymddiriedolaeth eu hystyried wrth lunio ei blaenoriaethau.

3.2 Dinasyddiaeth

3.2.1 Diffiniodd y Papur Gwyrdd ddiben dinasyddiaeth fel "rhoi gwybodaeth i ni'n hunain ac eraill a dod i ddeall y byd yn well drwy newyddion, gwybodaeth a dadansoddiad o syniadau a digwyddiadau cyfoes". Mae'n nodi rhai o'r meysydd y gallai'r BBC eu hystyried wrth gyflawni'r diben (gweler y blwch). Dangosodd ymgynghoriad cyhoeddus bod cefnogaeth iddynt.

Dinasyddiaeth: disgrifiad y Papur Gwyrdd

- Rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd a'n cynorthwyo i ddeall y byd yn well drwy gyfrwng newyddion, gwybodaeth a dadansoddi syniadau a digwyddiadau cyfoes;
- Pennu safonau ansawdd o ran newyddion a materion cyfoes;
- Cynnwys y trawsdoriad ehangaf bosibl o boblogaeth y DU â gwasanaethau wedi'u targedu at wahanol grwpiau, gan gynnwys BBC Ar-lein;
- Ymrwymiad parhaus i newyddion lleol a rhanbarthol;
- Annog pobl i ymwneud â materion gwleidyddol a chymdeithasol drwy raglenni ar wahân i newyddion a materion cyfoes – e.e. drwy gynnal tymhorau neu ymgyrchoedd â themau penodol;
- Helpu pobl i ddeall y Senedd a system wleidyddol y DU, gan gynnwys y gweinyddiaethau datganoledig; dylai BBC Parliament barhau i ymdrin yn benodol â materion y Senedd, a dylid rhoi sylw rheolaidd i ddigwyddiadau'r Senedd yn y newyddion ac mewn rhaglenni eraill ar y prif sianeli;
- Cyfrannu at drafodaeth ddemocrataidd mewn ffyrdd ar wahân i'r rhaglenni a ddarlledir – er enghraifft drwy drefnu seminarau a fforymau trafod ar y we, dosbarthu gwybodaeth a gweithio ar ymgyrchoedd gyda phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol – o fewn ffiniau clir;
- Rhoi argymhellion craidd adroddiad Neil ar waith.

3.2.2 Mae'n amlwg o'n gwaith ymchwil ac ymgynghori bod y rhai sy'n talu ffi'r drwydded yn gosod gwerth uchel iawn ar gywirdeb ac amhleidioldeb, yn enwedig yn y newyddion ac mewn materion cyfoes. Mae'r BBC yn sefyll allan ymysg y gweddill yn eu barn hwy. Heb os, bydd yr Ymddiriedolaeth am sicrhau bod ei gynlluniau'n cynnal safle'r BBC fel darparwr newyddion mwyaf dibynadwy'r DU, a'i fod yn parhau i gyrraedd cynulleidfaoedd gyda newyddion wedi'i addasu i anghenion penodol ei wahanol gynulleidfaoedd, er enghraifft *Newsbeat* ar Radio 1.

3.2.3 Yn y cyd-destun hwn, bydd y rhai sy'n talu ffi'r drwydded yn croesawu'r newidiadau y mae'r BBC eisoes wedi'u gwneud i gryfhau ei newyddiaduraeth.

Together We Can

Ymgyrch yw "Together We Can" a gefnogir gan sefydliadau cymunedol gyda chefnogaeth y Llywodraeth, i annog mwy o ddinasyddion i fynegi eu barn o ran llunio polisïau a gwasanaethau cyhoeddus.

Rydym yn croesawu gwaith y BBC ar ddatblygu strategaeth i gynnwys mwy o ddinasyddion wrth ystyried ac ymateb i faterion polisi cyhoeddus - er enghraifft drwy ei fenter Action Network ei hun.

Llythrennedd Cyfryngol

3.2.4 Mae'n dod yn fwyfwy pwysig i'n proses ddemocrataidd bod pobl yn gallu llywio byd y cyfryngau gyda dewis cynyddol o sianeli, llwyfannau a lleisiau. Rhoddodd y Llywodraeth ddyletswydd benodol ar Ofcom i hybu llythrennedd cyfryngol dan Ddeddf Cyfathrebu 2003. Mae'r BBC yn parhau i chwarae rôl arweiniol yn y gwaith o ddatblygu poblogaeth sy'n llythrennog yn y cyfryngau yn y DU, helpu pobl i ddeall a defnyddio technolegau cyfathrebu newydd a thanategu creadigrwydd personol yn y byd digidol.

3.2.5 Mae'r BBC yn un o aelodau gwreiddiol y Tasglu Llythrennedd Cyfryngol, sy'n cydweithio â Chyngor Ffilm y DU, Channel 4, Sefydliad Ffilm Prydain a Skillset i gydlynu gweithgarwch y diwydiant a chodi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o lythrennedd cyfryngol. Un o brif nodau'r Tasglu, drwy ei Siarter Llythrennedd Cyfryngol newydd, yw sicrhau datblygiad poblogaeth y DU sy'n llythrennog yn y cyfryngau drwy ddarparu portffolio sylweddol o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth y mae ar bob dinesydd yn yr 21ain Ganrif eu hangen. Mae hyn yn cynnwys:

- Ehangu profiadau a dealltwriaeth pobl o wahanol fathau o gyfryngau a chynnwys;
- Eu helpu i ddatblygu sgiliau beirniadol drwy ddadansoddi, asesu a datblygu eu beirniadaeth eu hunain o'r cyfryngau;
- Datblygu sgiliau creadigol ar gyfer defnyddio'r cyfryngau i fynegi, cyfathrebu a chymryd rhan mewn trafodaethau cyhoeddus;
- Tynnu ar rôl unigryw'r BBC yn y gwaith o hyrwyddo mynediad eang at dechnolegau ac adnoddau cyfryngau newydd ochr yn ochr â strategaeth eang Ofcom ar gyfer datblygu llythrennedd cyfryngol ledled y DU.

3.3 Addysg a dysgu

3.3.1 Mae addysg wedi bod yn ganolog i genhadaeth y BBC ers wyth deg o flynyddoedd. Mae wedi'i gorffori yn niffiniad enwog yr Arglwydd Reith o ddiben y BBC: hysbysu, addysgu a diddanu. Mae ein gweledigaeth ni o ddyfodol y BBC yn cadw pwysigrwydd canolog addysg a dysgu. Dyma pam ein bod wedi nodi yn y papur Gwyrdd ddiben addysg a dysgu penodol ar gyfer y BBC newydd, y gwnaethom ei ddiffinio fel a ganlyn:

- Ysgogi ein diddordeb mewn ystod llawn o bynciau a materion, a'n gwybodaeth amdanynt, drwy raglenni sydd ar gael i bawb ac a all annog naill ai dysgu ffurfiol neu anffurfiol;

- Darparu rhaglenni a deunyddiau addysgol arbenigol i hwyluso dysgu ar bob lefel ac ar gyfer pob oed.

Addysg a dysgu: disgrifiad y Papur Gwyrdd

- Parhau i fod yn rym pwysig ym maes addysg a dysgu ar draws ystod llawn o bynciau a materion, o gefnogaeth draddodiadol ar gyfer pynciau'r cwricwlwm i feysydd sy'n cael effaith ehangach ar y gymdeithas;
- Cyfrannu drwy ddeunyddiau addysgol ffurfiol yn ogystal â dysgu anffurfiol drwy raglenni'r brif ffrwd;
- Diwallu gwahanol anghenion y gwahanol gynulleidfaoedd, o blant cyn oedran ysgol a disgyblion ysgol i oedolion a'r rheiny mewn addysg bellach;
- Bod ar y blaen o ran harneisio cyfleoedd a gynigir gan ddatblygiadau technolegol, er mwyn cyflwyno dysgu ffurfiol ac anffurfiol;
- Ar yr un pryd, annog grwpiau o'r gynulleidfa i fanteisio'n llawn ar y dechnoleg a'r cyfleoedd dysgu sydd ar gael iddynt, a chynyddu llythrennedd cyfryngol ymhlith pob oedran a grŵp cymdeithasol;
- Defnyddio'i holl wasanaethau at ddibenion addysgol, fel y bo'n briodol, gan gynnwys y sianeli darlledu mwyaf, ei archif a'i wasanaethau lleol;
- Wrth gyflawn'i holl amcanion, rhaid i'r BBC gadw mewn cof ei sefyllfa freintiedig a'r dylanwad y gallai ei gael ar y farchnad.

3.3.2 Dangosodd yr ymgynghoriad gefnogaeth y cyhoedd i rôl arfaethedig y BBC mewn addysg a dysgu. Cafodd y tri chategori dysgu a nodwyd yn y Papur Gwyrdd – "ffurfiol", "anffurfiol, wedi'i dargedu" ac "anffurfiol drwy raglenni cyffredinol" – oll eu cydnabod gan ymatebwyr. Rydym felly'n cadarnhau diben addysg a dysgu'r BBC fel y'i diffiniwyd yn y Papur Gwyrdd. Bydd y BBC yn parhau i fod yn rym pwysig mewn dysgu ffurfiol ac anffurfiol ar draws pob grŵp oedran. Byddem yn disgwyl i'r BBC ystyried yr elfennau hyn wrth benderfynu sut i ddatblygu ei ddiben addysg a dysgu.

Archif Greadigol

Lansiwyd Grŵp Archif Greadigol y Drwydded ym mis Ebrill 2005 gan aelodau gwreiddiol y BBC, Sefydliad Ffilm Prydain, Channel 4 a'r Brifysgol Agored, er mwyn sicrhau y gellir llwytho cynnwys i lawr dan delerau un cynllun trwydded defnyddwyr a rennir. Crëwyd y drwydded hon, a elwir yn Drwydded Archif Greadigol, er mwyn llwytho delweddau symudol, sain a lluniau llonydd i lawr.

Mae'r drwydded wedi'i dylunio'n benodol i'w gwneud mor rhwydd ag sy'n bosibl i sefydliadau addysgol elwa.

Mae gan yr Archif Greadigol y potensial i wneud cyfraniad pwysig i gyflawni diben addysg a dysgu'r BBC, yn amodol ar basio'r Prawf Gwerth Cyhoeddus.

3.4 Creadigrwydd a diwylliant

3.4.1 Mae gan y BBC rôl unigryw ym mywyd diwylliannol a chreadigol y genedl. Bu i ni adlewyrchu'r rôl hon yn ein cynigion ar gyfer diben creadigol a diwylliannol newydd ar gyfer y BBC, a ddiffiniwyd gennym fel a ganlyn:

- Cyfoethogi bywyd diwylliannol y DU drwy ragoriaeth greadigol mewn rhaglenni nodedig a gwreiddiol;
- Meithrin doniau a sgiliau creadigol;
- Hybu diddordeb mewn gweithgaredd diwylliannol ymhlith cynulleidfaoedd newydd a'u hannog i ymroi i'r weithgaredd honno a chymryd rhan ynddi.

Creadigrwydd a diwylliant: disgrifiad y Papur Gwyrdd

Arddangos rhagoriaeth:

- Dathlu'r goreuon ym mhob genre, er mwyn ysgogi, ysbrydoli a herio cynulleidfaoedd presennol a newydd drwy raglenni nodedig o'r ansawdd uchaf;
- Defnyddio ei sefyllfa ariannu unigryw i gymryd mwy o risgiau na'i gymheiriaid masnachol;
- Derbyn argymhelliad Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon y dylai'r BBC lunio strategaeth ar gyfer buddsoddi mewn ffilmiau er mwyn gofalu y dangosir ffilmiau gorau'r DU i gynulleidfa deledu ehangach.

Meithrin doniau a chreadigrwydd:

- Defnyddio ei allu unigryw i ysbrydoli, cefnogi a rhoi sylw i ddoniau creadigol gorau'r DU;
- Cynnal ei gyfraniad hanfodol i gerddoriaeth newydd, o Radio 1 a One Extra i Radio 3.

Annog pobl i ymroi i weithgaredd ddiwylliannol a chymryd rhan ynddi:

- Agor y drws i brofiadau diwylliannol i gynulleidfaoedd a rhoi llwybrau iddynt eu harchwilio ymhellach;
- Ym maes chwaraeon, ennyn diddordeb ac annog pobl i gymryd rhan mewn chwaraeon bach, llai poblogaidd sy'n cael llai o sylw gan y rhwydweithiau masnachol;
- Sefydlu partneriaeth â sefydliadau eraill y sector cyhoeddus.

3.4.2 Mae dod â'r rhaglenni a'r cynnwys arall gorau oll i'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded yn ganolog i'r diben hwn: rhaglenni fel *Life on Earth*, a osododd safonau cadarn i eraill ymgyrraedd atynt, fel *I'm Sorry I Haven't a Clue*, sy'n denu cynulleidfaoedd flwyddyn ar ôl blwyddyn, fel *Strictly Come Dancing*, sy'n dod â phobl at ei gilydd i drafod ac fel *6:06*, sy'n meithrin trafodaeth ar raddfa genedlaethol. Mae'r BBC mewn sefyllfa unigryw i gymryd risgiau creadigol, i fuddsoddi mewn doniau ac i ysbrydoli a chyffroi cynulleidfaoedd.

3.4.3 Y BBC yw un o beiriannau creadigol mwyaf pwerus y wlad. Mae'n chwarae rhan bwysig mewn trosglwyddo gwybodaeth a chefnogi rhagoriaeth greadigol, ac mewn datblygu partneriaethau diwylliannol â chyrff cyhoeddus eraill sy'n cydweithio i gefnogi'r sectorau creadigol. A rhaid iddo adlewyrchu amrywiaeth Prydain y 21ain Ganrif.

3.4.4 Mae'r diwydiannau creadigol eisoes yn bwysig i economi'r DU, ac mae'r llywodraeth am iddynt wneud cyfraniad mwy fyth yn y dyfodol. Rhwng 1997 a 2003, tyfodd y sectorau creadigol ddwywaith mor gyflym â'r economi cyffredinol. Maent yn cyflogi tua 1.8 miliwn o bobl ac yn cyfrif am un rhan o ddeuddeg o'n heconomi, sy'n fwy nag mewn unrhyw wlad arall. Mae cryfder cyfredol y DU o ran ei diwydiannau creadigol yn gyfle gwirioneddol. Mae angen i ni ddatblygu ar y cryfder hwn a chyfalafu ar farchnadoedd sy'n tyfu.

3.4.5 Dangosodd y Papur Gwyrdd yn glir bod cefnogaeth ar gyfer ffilmiau yn rhan bwysig o rôl y BBC. Bydd y Siarter a'r Cytundeb yn mynnu bod Ymddiriedolaeth y BBC yn cynnwys strategaeth ffilmiau yn ei gynlluniau ar gyfer cyflawni'r diben creadigol a diwylliannol. Dylai hyn gynnwys buddsoddi mewn ffilmiau newydd a hefyd gefnogaeth ar gyfer diwylliant ffilmiau Prydain drwy helpu cynulleidfaoedd i ddeall a chael mynediad at amrywiaeth eang o ffilmiau Prydeinig a rhyngwladol, fel sydd eisoes yn digwydd gyda cherddoriaeth. Rydym yn croesawu'r cyhoeddiad diweddar am y bartneriaeth rhwng y BBC a Chyngor Ffilm y DU, fydd yn galluogi strategaeth ffilmiau newydd y BBC i gael yr effaith fwyaf posibl.

3.4.6 Yn yr un modd ag y bydd adloniant yn parhau i fod yn rhan hanfodol o genhadaeth y BBC, bydd hefyd yn cadw rôl bwysig ym mywyd chwaraeon y DU drwy ddod â goreuon chwaraeon i'w gynulleidfaoedd. Mae gan y BBC allu arbennig i feithrin cydlyniad cenedlaethol, o ddarllediad cyntaf ras gychod Rhydychen a Chaergrawnt ym mis Ebrill 1927 hyd at Gemau Olympaidd 2012. Dylai felly geisio parhau i gynnig detholiad o'r digwyddiadau pwysig hynny ym myd chwaraeon sy'n asedau cenedlaethol i uno'r genedl - o gemau pêl-droed Cwpan y Byd i Wimbledon - a hefyd o'r chwaraeon llai, lleiafrifol hynny allai ddatblygu cefnogaeth newydd ymysg cynulleidfaoedd a darpar chwaraewyr.

3.4.7 Yn y Papur Gwyrdd, nododd y Llywodraeth ei farn y dylai'r BBC beidio â chymryd rhan mewn rhyfeloedd cynigion am fewnforion tramor drud, oni fydd yn amlwg na fyddai unrhyw ddarlledwr daearol arall yn dangos y rhaglenni neu'r ffilmiau dan sylw, neu os byddai'r caffaeliad yn cyfrannu'n amlwg at ddiben cyhoeddus. Nid yw hyn yn golygu y caiff y BBC ei atal rhag caffael ffilmiau a rhaglenni tramor. I'r gwrthwyneb, dylai'r BBC ymdrechu i gynnig y rhaglenni gorau i'w gynulleifaoedd. Ond, fel y mynegodd Pwyllgor Dethol arbennig Tŷ'r Arglwyddi ar yr Adolygiad Siarter, dylai'r BBC fod yn ymwybodol o'i rwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus wrth benderfynu gwneud cynnig am raglenni a fewnforir[2].

3.4.8 Fel yn achos pob un o ddibenion y BBC, mae gan y BBC rôl arwyddocaol mewn datblygu partneriaethau â sefydliadau eraill yn y sectorau perthnasol. Yn ei ymateb i'r Papur Gwyrdd, nododd y BBC amrediad o fentrau sydd wedi'u sefydlu mewn cydweithrediad â sefydliadau eraill, er enghraifft, gyda Sport Action a Music for All. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn croesawu'r Memorandwm Dealltwriaeth y mae'r BBC a'r Cyngor Celfyddydau wedi'i lunio ar y cyd. Mae cyfle ar gyfer mwy o gydweithrediad yn y dyfodol i ddatblygu cyfraniad y BBC i'r cyhoedd.

3.5 Cynrychioli cenhedloedd, rhanbarthau a chymunedau

3.5.1 Yn y Papur Gwyrdd, bu i ni ddisgrifio faint y mae'r cyhoedd yn gwerthfawrogi'r gwaith y mae'r BBC yn ei wneud i gynrychioli cenhedloedd, rhanbarthau a chymunedau. Cydnabuwyd y rôl hon gennym drwy sefydlu diben cynrychioliadol newydd a ddiffiniwyd gennym fel a ganlyn:

[2] *Adolygiad o Siarter Brenhinol y BBC*, Cyfrol 1: Adroddiad, Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar yr Adolygiad o Siarter y BBC, para. 166

- Adlewyrchu a chryfhau ein hunaniaeth ddiwylliannol drwy gyfrwng rhaglenni gwreiddiol ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan ddod â chynulleidfaoedd at ei gilydd o dro i dro i rannu profiadau
- Ein gwneud yn ymwybodol o wahanol ddiwylliannau a safbwyntiau, drwy gynnwys sy'n adlewyrchu bywydau pobl a chymunedau eraill o fewn y DU.

Cynrychioli: disgrifiad y Papur Gwyrdd

Rhaglenni:

- Darparu rhaglenni ar y rhwydwaith sy'n adlewyrchu, mewn modd cytbwys a chywir, gweithgareddau a diwylliannau'r amrywiaewth eang o wahanol gymunedau o fewn y DU;
- Dod â chynulleidfaoedd at ei gilydd ar draws y DU i rannu profiadau;
- Adlewyrchu amrywiaeth y Brydain fodern drwy bortreadu lleiafrifoedd ethnig, pobl ag anableddau a phobl o leiafrifoedd eraill ar yr awyr yn rhaglenni'r prif ffrwd yn ogystal â rhai arbenigol;
- Darparu amrediad o raglenni sy'n adlewyrchu gwahanol grefyddau a chredoau eraill sy'n briodol i wlad aml-ffydd fel Prydain;
- Darparu rhaglenni newyddion a materion cyfoes ar y teledu ar lefel ranbarthol a chynnal y rhwydwaith o wasanaethau radio lleol a gwefannau â ffocws lleol; dylai'r gwasanaethau hyn, gyda'i gilydd, barhau i hybu trafodaeth o fewn y gymuned a chyfleoedd dysgu lleol;
- Yn unol ag argymhelliad Ofcom, ystyried faint o le sydd iddo ehangu ei gyfraniad i raglenni rhanbarthol;
- Darparu mwy o raglenni neilltuol ym mhob un o'r cenhedloedd datganoledig (Gogledd Iwerddon, Yr Alban a Chymru), ac ar eu cyfer; cynnwys darpariaeth yn yr ieithoedd lleiafrifol brodorol ar draws amrywiaeth o lwyfannau - mae'r rhyngrwyd yn arbennig o werthfawr o ran cefnogi'r ieithoedd hyn.

S4C:

- Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ddyfodol cynaliadwy ar gyfer darlledu teledu drwy gyfrwng y Gymraeg; bydd perthynas S4C â'r BBC yn bwysig ar gyfer sefydlogi a chryfhau'r sefyllfa dros y blynyddoedd sydd i ddod;
- Dylid rhoi rhagor o ystyriaeth i fanylion unrhyw setliad rhwng y BBC ac S4C, gan gynnwys lefel cyfraniad y BBC; sut y dylid ei fynegi mewn termau ariannol yn ogystal ag mewn oriau rhaglenni; sut orau i sicrhau y cynhelir ei werth dros amser a phwy ddylai fod yn gyfrifol am benderfynu ar gynnwys.

Darlledu yn y Gaeleg:

- Mae gan y BBC rôl hanfodol i'w chwarae o ran diogelu'r dreftadaeth ddiwylliannol Gaelaidd, ac mae ganddo hanes o ymrwymiad i'r iaith ar nifer o lwyfannau;
- Mae'r Llywodraeth yn awyddus i weld gwell bargen ar gyfer y Gaeleg – gyda sianel wedi'i neilltuo ar ei chyfer o bosibl; bydd gan y BBC rôl allweddol ar y cyd mewn darparu unrhyw sianel yn y dyfodol.

Cynhyrchu:

- Gellir cynnig rhai manteision i gynulleidfaoedd lleol drwy gynhyrchu y tu allan i Lundain, os bydd y rhaglenni a gynhyrchir yn adlewyrchu nodweddion, hanesion neu leoliadau lleol; fe ddaw â manteision economaidd hefyd - o ran swyddi a buddsoddiad.

3.5.2 Cafodd y diben cynrychioliadol gefnogaeth gyffredinol eang yn ein hymgynghoriad cyhoeddus, felly rydym yn ei gadarnhau yn y Papur Gwyn hwn. Mae'r wlad gyfan yn talu am y BBC, felly dylai'r wlad gyfan allu ei hadnabod ei hun yn yr hyn y mae'r BBC yn ei gynhyrchu.

3.5.3 Efallai y bydd yn bwysicach ar gyfer y diben hwn nag ar gyfer unrhyw un o'i dibenion eraill bod yr Ymddiriedolaeth yn cynnal trafodaethau didwyll â'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded o bob rhan o'r gymuned wrth osod ei flaenoriaethau. A bydd yn arbennig o bwysig i'r Ymddiriedolaeth weithio'n galed i geisio barn y rheiny y mae ar y BBC angen datblygu ei berthynas â hwy fwyaf.

Rhaglenni

3.5.4 Cadarnhaodd ymgynghoriad cyhoeddus farn y Llywodraeth, a nodir yn y Papur Gwyrdd, y dylai'r BBC gynhyrchu rhaglenni ar y rhwydwaith sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth o ddiwylliannau a chymunedau ar draws y DU, ac sy'n portreadu ac yn dathlu'r amrywiaeth hwnnw yn rhaglenni'r brif ffrwd yn ogystal â rhai arbenigol. Bydd hyn yn rhan bwysig o gynlluniau'r Ymddiriedolaeth.

3.5.5 Tanlinellodd yr ymgynghoriad hefyd bwysigrwydd rôl barhaus y BBC o ran darparu rhaglenni newyddion a materion cyfoes ar draws ei lwyfannau teledu, radio ac ar-lein. Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth ystyried adolygiad Teledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom[3], oedd yn annog y BBC i ddod o hyd i ffyrdd newydd ac arloesol o ddarparu rhaglenni rhanbarthol. Bydd yr Ymddiriedolaeth am ystyried y cyfleoedd y mae datblygiadau technolegol yn eu cynnig i gyflwyno gwasanaethau o'r fath, yn amodol ar yr adnoddau sydd ar gael a rheoleiddio priodol drwy'r Prawf Gwerth Cyhoeddus.

3.5.6 Neges allweddol arall a gafwyd o'r ymgynghoriad oedd pwysigrwydd adlewyrchu cenhedloedd, rhanbarthau a chymunedau i'r DU gyfan, ac nid yn ôl arnynt eu hunain yn unig. Adleisiwyd hyn gan rai ymatebwyr o'r diwydiant yn y galw am fwy o raglenni rhanbarthol ar y rhwydwaith i gyd-fynd â'r rhaglenni a gynhyrchir ar gyfer defnydd rhanbarthol. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Llywodraeth yn croesawu cynlluniau'r BBC ei hun i gynyddu'r hyn a gomisiynir o'r rhanbarthau ar gyfer y rhwydwaith. Bydd adolygiad cyfredol Ofcom o'r sector cynhyrchu teledu, gaiff ei gwblhau yn nes ymlaen yn 2006, yn gwneud cyfraniad pwysig i'r drafodaeth hon.

Ieithoedd

3.5.7 Mae'r BBC mewn sefyllfa unigryw o allu cyfrannu at ddatblygiad cynnwys sy'n gwasanaethu cenhedloedd a chymunedau'r DU, gan gynnwys darparu gwasanaethau i gefnogi ieithoedd lleiafrifol ar draws amrediad o lwyfannau.

3.5.8 Mae'r BBC wedi bod yn darlledu mewn Gaeleg ers dros 80 mlynedd, wedi bod yn ymrwymedig i'r Gymraeg ers ei ddarllediadau arloesol yn y 1920au ac wedi darlledu mewn Gwyddeleg dros y radio ers bron i 25 mlynedd. Ar hyn o bryd, mae'n buddsoddi mewn Menter Dysgu Iaith newydd ar gyfer y Gymraeg, y Wyddeleg a'r Gaeleg ac mewn Cronfa Ddarlledu'r Iaith Wyddeleg newydd, ac mae hefyd yn darparu gwasanaethau mewn Sgoteg Wlster. Mae gorsafoedd radio lleol yn Lloegr hefyd yn cynnig dros 67 awr o raglenni iaith arbenigol bob wythnos, gan gynnwys: Bengaleg, Cantoneg, Cernyweg, Ffrangeg Guernsey, Gwjarati, Hindi, Mandarin, Mirpwri, Pwyleg, Portiwgaleg, Pwnjabeg, Somalieg ac Wrdw.

[3] Adolygiad Ofcom o Deledu Gwasanaeth Cyhoeddus – Cam 2: Ailffurfio teledu ar gyfer cenhedloedd, rhanbarthau ac ardaloedd y DU, 2004.

3.5.9 Mae'r Llywodraeth yn croesawu ymrwymiad y BBC ac S4C i gyrraedd setliad newydd fydd o fudd i gynulleidfaoedd cyfrwng Cymraeg. Credwn ei bod yn bwysig i'r setliad hwn roi eglurhad i S4C o'r lefelau cyllid dan sylw, ynghyd â rheolaeth dros gomisiynu'r rhaglenni a ddarperir a sut y defnyddir y gyllideb, ond mewn modd sy'n gyson â gwerthoedd golygyddol y BBC a'i rwymedigaethau i'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded. Disgwyliwn i'r setliad hwn fod wedi'i gyflawni cyn cwblhau'r Siarter a'r Cytundeb newydd.

3.5.10 Eglurai'r Papur Gwyrdd mai ein polisi ni yw i'r BBC barhau i chwarae rhan hanfodol wrth ddiogelu treftadaeth ddiwylliannol Gaelaidd. Rydym felly'n croesawu'r trafodaethau sy'n mynd rhagddynt gyda'r Gaelic Media Service ac eraill ynglŷn â chyd-ddarparu gwasanaethau'r dyfodol, fyddai'n helpu cefnogi polisïau i hybu safle'r Gaeleg yn y gymdeithas. Edrychwn ymlaen at ddod â'r trafodaethau cyfredol i ben cyn bo hir a lansio gwasanaethau gwell o 2007 ymlaen.

3.6 Dod â'r byd i'r DU a'r DU i'r byd

3.6.1 Cafodd cynigion y Papur Gwyrdd ar gyfer diben rhyngwladol penodol gefnogaeth eang yn yr ymgynghoriad. Caiff y diben ei fabwysiadu ar y telerau a nodir yn y Papur Gwyrdd:

- Codi ymwybyddiaeth ymhlith cynulleidfaoedd y DU o faterion rhyngwladol ac o wahanol ddiwylliannau a safbwyntiau pobl sy'n byw y tu allan i'r DU;
- Dod â sylwebaeth newyddion rhyngwladol o ansawdd uchel i gynulleidfa fyd-eang drwy gyfrwng radio, teledu a'r cyfryngau newydd.

Dod â'r byd i'r DU a'r DU i'r byd: disgrifiad y Papur Gwyrdd

- Dylai'r BBC barhau i egluro materion rhyngwladol i gynulleidfaoedd y DU - nid yn unig drwy gyfrwng newyddion a materion cyfoes, ond hefyd ar ffurf cyfryngau eraill, gan gynnwys drama, rhaglenni dogfen, rhaglenni ysgolion a chwaraeon;
- Dylai gwasanaethau masnachol y BBC gefnogi ei rôl ryngwladol mewn dwy ffordd:
  Hyrwyddo diwylliant, doniau ac eiddo deallusol y DU yn well mewn gwledydd tramor;
  Rhoi mwy o werth am arian i'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded.
- Ni ddylai'r BBC gyfyngu ei hun i werthu rhaglenni'r BBC. Dylai edrych ar weithio'n agos mewn partneriaeth â darlledwyr eraill y DU o ran datblygu ei strategaeth gwerthu rhaglenni. Dylai ddefnyddio graddfa a phŵer BBC Worldwide i arddangos yr amrywiaeth ehangaf posibl o ddoniau'r DU a sicrhau'r fargen orau bosibl ar gyfer y DU ccc;
- Dylai'r BBC barhau i ddarparu newyddion rhyngwladol i weddill y byd;
- Dylai'r World Service addasu i fodloni'r heriau cymhleth a bennir gan y newid mawr yn nhueddiadau gwrando a gwylio ei gynulleidfaoedd yn y blynyddoedd diwethaf o ganlyniad i'r chwyldro mewn darpariaethau lloeren byd-eang a chyfryngau cebl.

Blaenoriaethau newydd

3.6.2 Mae'r Llywodraeth yn croesawu ailstrwythuro'r World Service a gyhoeddwyd fis Hydref 2005. Bydd cau deg gwasanaeth brodorol nad oeddent yn cael fawr o ddylanwad, yng Nghanolbarth a Dwyrain Ewrop yn bennaf, yn rhyddhau adnoddau i ganiatáu mwy o fuddsoddiad yng ngwasanaethau'r cyfryngau newydd, yn enwedig lansio gwasanaeth teledu Arabaidd 12-awr.

3.6.3 Seiliwyd y blaenoriaethau newydd hyn ar ymchwil awdurdodol a gwerthusiad o bwysigrwydd daear-wleidyddol y gwasanaethau presennol, cyrhaeddiad ac effaith ei wasanaethau brodorol, pwysigrwydd cynyddol technolegau newydd a'r newid yn newisiadau'r gynulleidfa. Cafodd y cyfraniad gwerthfawr a wnaed dros y blynyddoedd gan wasanaethau sydd am gael eu diddymu ei gydnabod yn eang. Ond nid yw'r byd yn aros yn ei unfan. Ac ni all y World Service wneud hynny chwaith.

3.6.4 Dylai'r World Service ddisgwyl cynnydd yng nghyflymder y newid a'r lefel o gystadleuaeth mewn darlledu rhyngwladol. Bydd angen iddo barhau i addasu i'r newidiadau hyn a bod yn barod, lle bo'n briodol, i addasu ymhellach a blaenoriaethu ei amrediad o wasanaethau brodorol.

Adolygiad Carter o Ddiplomyddiaeth Cyhoeddus

Argymhellai adolygiad yr Arglwydd Carter y dylai dull mwy strategol o weithredu tuag at ddiplomyddiaeth gyhoeddus gael ei gydlynu gan Fwrdd Diplomyddiaeth Gyhoeddus newydd. Bydd y Bwrdd yn sefydlu fframwaith tymor canolig i hir ar gyfer cyflawni canlyniadau diplomyddiaeth gyhoeddus sy'n cefnogi blaenoriaethau rhyngwladol y Llywodraeth.

Gan gydnabod ei anibynniaeth golygyddol, bydd y World Service yn cael statws arsyllwr ar y Bwrdd, fydd yn cynnwys y Cyngor Prydeinig a'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad fel aelodau.

3.6.5 O fis Mawrth 2006 ymlaen, bydd y World Service yn cynnig deuddeg ar hugain o wasanaethau radio brodorol ac wyth iaith frodorol ar-lein. Amlinellodd y Papur Gwyrdd fanteision defnyddio'r nifer o ieithoedd ar-lein fel man cychwyn ar gyfer adolygiad o wasanaethau brodorol. Dylai'r World Service barhau i fynd ati'n egnïol i ddilyn ei bolisi o ehangu ei bresenoldeb ar Radio FM mewn gwledydd tramor a cheisio cyfleoedd i gynnig ei wasanaethau brodorol yn ehangach i gymunedau yn y DU.

3.6.6 Wrth osod ei flaenoriaethau, dylai'r BBC dybio y bydd pwysau ar bob ffrwd o arian cyhoeddus yn cynyddu gydag amser, ac y bydd angen tryloywder o ran y modd y dyrannir adnoddau. Dylai'r World Service hefyd ystyried heriau datblygu gwasanaethau llwyddiannus yn yr hyn sydd yn gyfrwng newyd i'r World Service, sef teledu. Y World Service, mewn trafodaeth â'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad, fydd yn gorfod penderfynu ar ei flaenoriaethau a sut y gellid blaenoriaethu gwariant i ganiatáu ar gyfer datblygu gwasanaethau newydd mewn gwledydd sy'n cael blaenoriaeth.

4. Paratoi ar gyfer y dyfodol: Datblygu Prydain Ddigidol

4.1 Y BBC mewn byd llawn newidiadau technolegol cyflym

4.1.1 Bydd cyfnod y Siarter nesaf yn un o newidiadau technolegol na welwyd eu tebyg erioed o'r blaen. Er mwyn parhau i gyflawni ar gyfer y rhai sy'n talu ffi'r drwydded, mae angen i'r BBC allu cadw i fyny â disgwyliadau newidiol cynulleidfaoedd a helpu i'w llunio. Dyma pam ein bod wedi cyflwyno diben newydd arbennig ar gyfer y BBC, a elwir yn "Datblygu Prydain Ddigidol".

Datblygu Prydain Ddigidol: disgrifiad y Papur Gwyrdd

- Rhaid i'r BBC helpu llunio'r dyfodol digidol; mae gwasanaethau newydd y BBC eisoes wedi helpu ysgogi mwy o bobl i ddefnyddio teledu a radio digidol, ond bydd angen menter newydd os yw'r wlad am ddod yn gwbl ddigidol;
- Dylai'r BBC geisio cyrraedd ei darged i ymestyn darpariaeth radio darlledu sain digidol (DAB) i 90% o boblogaeth y DU;
- Darparu gwybodaeth generig ar deledu digidol fydd yn cynnwys yr opsiynau ar gyfer cael gafael ar wasanaethau digidol;
- Datblygu gwasanaethau rhyngweithiol newydd sy'n seiliedig ar y we, wrth i'r galw am gyfryngau newydd megis band eang dyfu;
- Dylai'r BBC ddarparu digon o fynediad, ar draws yr holl lwyfannau cyfryngol, ar gyfer gwylwyr a gwrandawyr sydd â nam ar y synhwyrau;
- Dylai'r BBC helpu sefydlu a rheoli'r sefydliad fydd yn cydlynu'r broses dechnegol o newid i ddigidol;
- Chwarae rôl arweiniol yn yr ymgyrch wybodaeth gyhoeddus a fydd yn rhoi gwybod i'r defnyddwyr pryd a sut y bydd y newid yn digwydd, pa ddewisiadau sydd ganddynt o ran offer a sut y gallant eu gosod;
- Helpu sefydlu ac ariannu cynlluniau i helpu'r defnyddwyr mwyaf agored i niwed i newid i ddigidol.

4.1.2 Mae'r BBC wastad wedi helpu pobl Prydain i fanteisio i'r eithaf ar newidiadau technolegol. Drwy gydol ei hanes, mae'r BBC wedi bod â rhan allweddol mewn cyflwyno ffyrdd newydd o dderbyn gwasanaethau'r cyfryngau i bobl a'u hannog i'w defnyddio. Nid i ddatblygiadau diweddar yn unig y mae hyn yn berthnasol, er enghraifft rôl BBC Ar-lein yn y gwaith o ysgogi'r defnydd o'r rhyngrwyd, rôl gwasanaethau radio digidol y BBC wrth gyfrannu at y nifer sy'n defnyddio Darlledu Sain Digidol (DAB), a rôl ei wasanaethau teledu digidol wrth annog pobl i gael teledu digidol. Yn wir, mae hyn wrth wraidd cenhadaeth hanesyddol y BBC; y BBC a'i wasanaethau oedd y grym y tu ôl i nifer o'r newidiadau mwyaf sylfaenol yn nhirwedd darlledu'r wlad hon - gan gynnwys datblygu ac annog pobl i ddefnyddio gwasanaethau radio, yna gwasanaethau teledu du a gwyn ac yna teledu lliw.

4.1.3 Mae cefnogaeth gref i'r rôl hon ymysg y cyhoedd; yn ein hymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd, pan ofynnom ni'r cwestiwn "ydych chi'n cytuno y dylai'r BBC gymryd rôl arweiniol o ran

helpu'r cyhoedd i fabwysiadu a defnyddio technolegau newydd, gan gynnwys teledu digidol?", roedd yr ymateb yn gadarnhaol iawn, yn enwedig ymysg y rheiny oedd eisoes yn defnyddio gwasanaethau digidol. Dangosodd yr ymgynghoriad gefnogaeth gref i'r cynnig y dylai'r BBC arwain datblygiad cyfathrebu digidol; aeth dros ddwy ran o dair o'r ymatebion i'r holiadur ar y we i'r afael â'r mater hwn, gyda 68% yn ymateb yn gadarnhaol.

4.1.4 Rydym yn cadarnhau y dylai'r BBC, fel rhan o'i ddiben o "Ddatblygu Prydain Ddigidol", barhau i chwarae rôl arweiniol o ran datblygiad technolegol, ac o ran arwain cynulleidfaoedd at ffyrdd newydd o dderbyn rhaglenni.

4.1.5 Ymddengys yn amlwg y bydd safle traddodiadol y teledu yng nghornel yr ystafell fyw, neu'r radio yn y gegin neu'r car, yn aros gyda ni yn y dyfodol agos. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn dal i fod eisiau eistedd ar eu soffa i wylio rhaglenni o safon – am ddim ar bwynt eu defnyddio – ar set deledu. Fodd bynnag, mae datblygiad technolegau digidol eisoes wedi gweddnewid yr amgylchedd darlledu mewn modd dramatig. Mae wedi cynnig ffyrdd newydd o ddarparu a defnyddio cynnwys, p'un ai drwy deledu a radio digidol, y rhyngrwyd neu ffonau symudol. Mae cyflymder y newid yn ystod cyfnod y Siarter nesaf yn debygol o gynyddu. Daw gwybodaeth a chynnwys rhaglenni'n fwyfwy personol a hygyrch "ar gais" drwy amrediad cyfan o wahanol lwyfannau a dyfeisiau. Mewn geiriau eraill, bydd y chwyldro digidol yn ei gwneud yn haws i bobl wylio beth bynnag y mynnant, pryd bynnag y mynnant a lle bynnag y mynnant.

4.1.6 Mae recordwyr fideos personol yn ei gwneud yn haws nag erioed o'r blaen i wylwyr teledu ddewis a gwylio rhaglenni pan fo'n gyfleus iddynt hwy, yn hytrach nag yn ôl amserlen y darlledwr. Mae argaeledd cynyddol band eang cyflym yn galluogi pobl i lwytho rhaglenni i lawr dros y rhyngrwyd - mae'r BBC ei hun yn treialu ei Chwaraewr Cyfryngau Rhyngweithiol, sy'n galluogi defnyddwyr i wylio rhaglenni dros y we am 7 niwrnod ar ôl eu dangos ar y teledu. Mae mwyfwy o bobl eisoes yn defnyddio dyfeisiau symudol - megis ffonau symudol a threfnyddion personol - i lwytho fideos a cherddoriaeth neu dudalennau gwe i lawr, i wrando ar y radio a hyd yn oed i gynhyrchu eu cynnwys eu hunain a'i rannu â'u cyfeillion. Treialwyd teledu symudol - a ddarlledir i sgriniau a ddelir yn y llaw - yn ddiweddar yn Rhydychen a Llundain. Yn y cyfamser, mae datblygiadau megis Teledu Diffiniad Uchel - y bydd BSkyB yn dechrau ei ddarlledu yn nes ymlaen eleni - yn cynnig y posibilrwydd o brofiad gwylio sinematig newydd ar sgriniau mawr yn y cartref.

4.1.7 Un o'r heriau pennaf ar gyfer y BBC dros gyfnod y Siarter nesaf fydd rhagweld ac addasu i'r byd newidiol hwn. Wrth benderfynu sut i wneud hyn, bydd angen iddo farnu sut orau i gynnig gwerth i'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded. Bydd angen iddo hefyd fod yn wyliadwrus o'r dylanwad y gallai ei gael ar y farchnad ehangach. Mae marchnad ddarlledu 2006 yn wahanol iawn i farchnad 1968, er enghraifft, pan gyflwynodd y BBC deledu lliw ar gyfer y Gemau Olympaidd ym Mecsico. Mae'r ffrwydrad mewn cyfryngau newydd a'r defnydd o deledu digidol wedi arwain at greu marchnad lle mae nifer fawr o ddarparwyr yn cynnig amrediad o wasanaethau sydd weithiau'n ddigon i'ch drysu - yn aml o ansawdd uchel iawn. Mae'r farchnad dechnoleg yn gorlenwi'n gyflym a dim ond ar ôl cynnal Prawf Gwerth Cyhoeddus trwyadl y dylai'r BBC lansio gwasanaethau newydd neu wneud newidiadau sylweddol i'r gwasanaethau presennol. Disgrifir dyletswyddau'r Ymddiriedolaeth i gynnal Prawf Gwerth Cyhoeddus cyn cymeradwyo newidiadau sylweddol i weithgareddau'r BBC yn adran 5. Ond mae'r Llywodraeth yn bendant bod angen i'r BBC, o fewn y fframwaith hwn, fod yn ddigon hyblyg i gyflwyno'i raglenni a chynnwys arall mewn ffyrdd newydd wrth i dechnoleg ddatblygu.

4.1.8 Mae miliynau'n achub ar y cyfleoedd newydd wrth iddynt ymddangos, ond mae yna nifer sy'n peidio â gwneud hyn. Ni all rhai fforddio mabwysiadu'r technolegau'n gynnar, neu nid ydynt eisiau gwneud hynny, ac mae eraill wedi drysu neu'n cael eu dychryn hyd yn oed gan gyflymder a graddfa'r newidiadau. Fodd bynnag, mae hyd yn oed y rheiny nad ydynt yn dewis mabwysiadu technolegau newydd nawr yn gwybod y bydd angen iddynt wneud newidiadau rywbryd yn y dyfodol agos. Mae nifer yn cael eu cysuro gan y syniad y bydd y BBC yn eu helpu ar hyd y ffordd. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod hyn a bydd yn parhau i roi rôl arweiniol i'r BBC yn y gwaith o dywys pobl drwy gyfnodau o newid. Byddai hollt mewn cymdeithas, rhwng y rheiny sy'n mwynhau manteision cyfleoedd newydd (megis gwasanaethau arbennig ar gyfer pobl â nam ar eu clyw neu eu golwg) a'r rheiny nad ydynt yn ymwybodol o'r manteision hynny, neu sydd wedi'u hallgau ohonynt, yn achos pryder, ac mae'r BBC mewn sefyllfa unigryw i helpu selio'r hollt hwnnw.

4.1.9 Yr her ar hyn o bryd yw datblygu'r rhaglen o newid pob gwasanaeth teledu yn wasanaethau digidol, sef proses fydd yn dechrau yn 2008 ac yn cael ei chwblhau erbyn 2012.

4.2 Newid i ddigidol

4.2.1 Daw teledu digidol â nifer o fanteision i ddefnyddwyr, gan gynnwys mwy o ddewis o wasanaethau teledu (ar danysgrifiad a rhai gwylio-am-ddim), gwell ansawdd technegol a nodweddion rhyngweithiol newydd. Fodd bynnag, nid yw'r manteision hyn ar gael i bob gwyliwr yn y DU ar hyn o bryd, ac ni fyddant ar gael oni bai a hyd nes y byddwn yn cwblhau'r newid i ddigidol.

4.2.2 Y newid i ddigidol yw'r broses o drosi'r rhwydweithiau darlledu daearol o fod yn analog i fod yn ddigidol, ac annog pawb i drosi neu uwchraddio eu teledu a'u hoffer recordio i dderbyn teledu digidol drwy un llwyfan neu'r llall. Cadarnhaodd y Llywodraeth yr amserlen newid yn ôl rhanbarth (gweler y blwch) ym mis Medi 2005.

4.2.3 Mae gan dros ddwy ran o dair o gartrefi'r DU deledu digidol yn barod - felly mae'r newid i ddigidol yn cydfynd â'r duedd gyhoeddus. Ond mae yna dri rheswm allweddol pam fod angen newid:

- Hyd nes y diffoddir y rhwydweithiau analog, ni ellir cynyddu'r gwasanaethau daearol digidol (a dderbynnir drwy erial drwy flwch-pen-set neu deledu digidol integredig) y tu hwnt i'r lefel bresennol – tua 73% o gartrefi'r DU. Bydd newid i ddigidol yn galluogi gwasanaeth daearol digidol i gyrraedd y lefelau analog presennol;
- Bydd newid i ddigidol yn rhyddhau llawer iawn o sbectrwm ar gyfer defnyddiau newydd, gan ein galluogi ni i fanteisio ar dechnolegau a gwasanaethau newydd. Gallai enghreifftiau gynnwys sianeli teledu safonol neu ddiffiniad uchel newydd, teledu symudol neu rwydweithiau band eang diwifr;
- Mae "cyd-ddarlledu" mewn analog a digidol yn aneffeithiol ar gyfer darlledwyr, gan glymu adnoddau y gellid eu defnyddio rywle arall, er enghraifft i wneud rhaglenni. Mae angen disodli hen rwydwaith darlledu daearol heddiw â'r dechnoleg ddigidol orau bosibl, er mwyn i'r DU allu parhau i fod ar y blaen o ran darlledu drwy'r byd.

Rhanbarth	Dyddiad dechrau newid
Border	2008 2il hanner
West Country	2009 hanner 1af
Cymru	2009 2il hanner
Granada	2009 2il hanner
West	2010 hanner 1af
Grampian	2010 hanner 1af
Scottish Television	2010 2il hanner
Yorkshire	2011 hanner 1af
Anglia	2011 hanner 1af
Central	2011 hanner 1af
Meridian	2012 hanner 1af
London	2012 hanner 1af
Tyne Tees	2012 2il hanner
Ulster	2012 2il hanner

4.2.4 Bydd nifer o bobl yn dewis derbyn eu teledu digidol drwy loeren, cebl neu, mewn rhai ardaloedd, band eang, a bydd y Llywodraeth yn parhau i fod yn niwtral o ran llwyfan yn ei bolisi cyhoeddus. Fodd bynnag, ar gyfer nifer o gartrefi, teledu digidol drwy erial fydd y dewis rhataf a'r mwyaf cyfleus, ac i rai, dyma fydd yr unig ddull fydd ar gael. Ehangu'r gwasanaeth daearol digidol – ac felly diffodd y signal analog - yw'r unig ffordd o sicrhau y gall bron pawb dderbyn teledu digidol, a bod gan bobl, cyn belled ag sy'n bosibl, ddewis o lwyfannau.

4.3 Rôl y BBC

4.3.1 Mae'r BBC yn arweinydd cydnabyddedig a dibynadwy i dechnolegau newydd ac un o ganlyniadau allweddol y newid i ddigidol fydd sicrhau y gall pawb sy'n talu ffi'r drwydded dderbyn gwasanaethau digidol y BBC. Mae'n briodol felly i'r BBC gymryd rôl arweiniol yn y gwaith o weithredu'r newid i ddigidol. Y BBC yw cyfranddaliwr mwyafrifol Digital UK, sef y sefydliad a sefydlwyd gan y prif ddarlledwyr i gydlynu'r rhaglen newid. Dan y Siarter a'r Cytundeb newydd, bydd cyfrifoldebau'r BBC yn dod o dan dri maes allweddol.

a) Ehangu'r rhwydwaith digidol

4.3.2 Gall tua 98.5% o gartrefi'r DU dderbyn teledu analog drwy erial ar hyn o bryd (er bod y ffigur manwl gywir yn amrywio ar gyfer gwahanol sianeli). Yn yr un modd â'r prif ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill (ITV, Channel 4 a Five), bydd gofyn i'r BBC, drwy newid i ddigidol, gyrraedd yr un lefel o wasanaeth i raddau helaeth â'r hyn sydd ar gael ar hyn o bryd mewn

analog. Y nod yw sicrhau y bydd defnyddwyr sydd ar hyn o bryd yn derbyn signal analog o ansawdd derbyniol yn gallu derbyn signal daearol digidol yn y dyfodol.

4.3.3 Bydd y BBC hefyd yn parhau i sicrhau bod ei sianeli teledu ar gael drwy wasanaeth lloeren Sky - ar gyfer cwsmeriaid sy'n talu tanysgrifiad a'r rheiny nad ydynt yn talu - a thrwy gebl. Mae'r Llywodraeth yn awyddus i sicrhau bod gan ddefnyddwyr ddewis mor eang ag sy'n bosibl o sut i dderbyn teledu digidol. Rydym yn croesawu'r cynlluniau y mae'r BBC ac ITV wrthi'n eu datblygu ar gyfer gwasanaeth lloeren gwylio-am-ddim ochr yn ochr â'r hyn y mae Sky yn ei gynnig, a gobeithiwn y bydd y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus eraill yn ymuno â hwy yn yr ymgais hon. Mae hyn yn addo gwella dewis y defnyddwyr a chystadleuaeth yn y farchnad deledu ymhellach.

4.3.4 Mae gan y BBC swm sylweddol o gynhwysedd daearol digidol, y mae'n ei ddefnyddio i ddarlledu ei wasanaethau. Mae'n debygol y bydd y BBC, oherwydd newidiadau technegol, yn ennill cynhwysedd i gludo gwasanaethau ychwanegol o fewn ei sbectrwm presennol. Mae'r Llywodraeth yn cynnig cadw'r hyblygrwydd, dan amgylchiadau a ddiffinnir, i ofyn i'r BBC ryddhau rhywfaint o gynhwysedd i ddefnyddwyr eraill. Yn arbennig, rhagwelir y bydd angen iddo gludo Five ac (yng Nghymru) S4C, ar delerau i'w cytuno â'r darlledwyr hynny. Bydd hyn yn sicrhau y bydd Five, sydd ar gael ar hyn o bryd i 80% yn unig o gartrefi yn ddaearol, ar gael i bron pawb, ac y bydd gwylwyr yng Nghymru'n gallu derbyn S4C a Channel 4.

b) Hysbysu'r cyhoedd

4.3.5 Bydd newid i ddigidol yn galw am ymdrech gyfathrebu enfawr er mwyn sicrhau y caiff yr holl wylwyr yr wybodaeth gywir, ymhell o flaen llaw, ynglŷn â phryd y bydd yn digwydd a beth y mae angen iddynt ei wneud i baratoi ar ei gyfer. Mae gan y BBC rôl ganolog i'w chwarae yn yr ymdrech gyfathrebu, er lles pawb sy'n talu ffi'r drwydded. Ef sydd â'r cyrhaeddiad mwyaf ymysg yr holl ddarlledwyr - mae tua 90% o bobl yn defnyddio gwasanaethau'r BBC mewn wythnos. Ef hefyd yw un o'r sefydliadau y mae'r genedl yn ymddiried fwyaf ynddo, gydag un o'r brandiau mwyaf dibynadwy - pan ofynnom ni pa sefydliadau y byddai pobl yn ymddiried ynddynt i roi gwybod iddynt am fanteision ac anfanteision teledu digidol, y BBC ddaeth i'r brig[4].

4.3.6 Bydd angen i bob darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys y BBC, ddarparu gwybodaeth i'w gwylwyr am sut i barhau i dderbyn eu gwasanaethau ar ôl y newid. Yn ogystal, y BBC fydd y cyfrannwr mwyaf i ymgyrch gyfathrebu gyffredinol helaeth, gaiff ei threfnu ar y cyd â darlledwyr eraill drwy Digital UK.

c) Helpu'r gwylwyr teledu mwyaf agored i niwed

4.3.7 Yn y Papur Gwyrdd, nodwyd cynnig y Llywodraeth y dylai'r BBC helpu sefydlu, ac ariannu, cynlluniau i sicrhau na adewir y cartrefi mwyaf agored i niwed ar ôl. Ym mis Medi 2005, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Tessa Jowell, y byddai'r cynlluniau hynny'n canolbwyntio ar ddarparu cymorth ymarferol gyda'r newid i deledu digidol ar gyfer pobl dros 75 oed a phobl ag anableddau difrifol.

4.3.8 Adlewyrchai'r penderfyniad hwn waith ymchwil ac ymgynghori helaeth gyda grwpiau defnyddwyr. Roedd yn amlwg o hyn bod newid i ddigidol yn fforddiadwy ar gyfer mwyafrif

[4] Ymchwil a gynhaliwyd gan MORI ar gyfer DCMS; ar gael yn http://www.culture.gov.uk/global/publications/archive_2001/mori_report.htm

helaeth y boblogaeth: mae costau offer yn gostwng gan bwyll ac nid yw'r cyfraddau sy'n manteisio yn amrywio llawer ar draws gwahanol grwpiau incwm. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth amlwg bod pobl dros 75 oed a phobl ag anableddau yn arbennig o debygol o wynebu anawsterau ymarferol o ran cael, gosod a dechrau defnyddio offer digidol.

4.3.9 Bydd y cynlluniau cymorth yn darparu'r offer angenrheidiol i drosi un set deledu a'r cymorth y bydd ei angen i'w osod a'i ddefnyddio. Fel rhan o'r cynlluniau, darperir yr offer sydd fwyaf addas i anghenion y bobl sy'n cael cymorth - er enghraifft, drwy ddarparu disgrifiad sain, isdeitlau effeithiol neu declyn rheoli o bell wedi'i ddylunio'n briodol. Bydd y cymorth hwn ar gael am ddim ar gyfer y cartrefi cymwys tlotaf. Codir ffi fechan ar eraill. Caiff swm y ffi hon ei benderfynu yn agosach at amser y newid a bydd yn gysylltiedig â chost yr offer a ddarperir. Bydd y cynllun yn niwtral o ran technoleg ac yn cynnwys mynediad at yr amrediad o lwyfannau digidol, er y bydd rhaid i ddefnyddwyr dalu'r gwahaniaeth yn y gost os byddant yn dewis technoleg ddrutach. Bydd y cynllun hefyd yn sicrhau y gall pobl sydd wedi'u cofrestru'n ddall elwa ar y cyfleusterau disgrifiad sain a ddarperir gan dechnoleg ddigidol.

4.3.10 Mae'r Llywodraeth a'r BBC wedi bod yn cynnal prosiect peilot yn Bolton i gefnogi datblygiad y cynllun cymorth. Bydd rhagor o gyhoeddiadau am fanylion y cynllun, gan gynnwys pryd a sut y gellir cael gafael arno, yn dilyn maes o law.

4.4 Radio digidol

4.4.1 Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ddatblygu radio digidol yn y DU. Mae'n cynnig:

- Mwy o ddewis o orsafoedd;
- Sain heb sŵn hisian na chlecian;
- Tiwnio haws;
- Swyddogaethau newydd fel seibiant ac ail-weindio;
- Gwasanaethau amlgyfrwng a rhyngweithiol newydd;
- Defnydd mwy effeithiol o sbectrwm.

4.4.2 Mae'r BBC wedi chwarae rhan bwysig yn y gwaith o hyrwyddo radio digidol, ac mae ei wasanaethau radio digidol ar gael ar amrywiaeth o lwyfannau - Freeview, teledu cebl a lloeren yn ogystal â darlledu sain digidol (DAB). Mae BBC 7 yn enwedig wedi bod yn rym sylweddol ar gyfer annog pobl i ddefnyddio DAB. Fel yr amlinellwyd yn y Papur Gwyrdd, rydym yn croesawu cynlluniau'r BBC i ehangu gwasanaethau radio digidol i o leiaf 90% o boblogaeth y DU dros oes y Siarter nesaf (tua 85% yw'r ffigur ar hyn o bryd). Rydym yn croesawu buddsoddiad y BBC mewn radio digidol a'i waith yn ei hyrwyddo, a chredwn y dylai'r BBC barhau â'i rôl yn y maes hwn.

5. Eglurder a sicrwydd: gwasanaethau'r BBC a'r Prawf Gwerth Cyhoeddus

5.1.1 Rydym ni'n gosod y cyfeiriad ar gyfer y BBC am ddeng mlynedd arall gyda mandad clir i barhau i wasanaethu ei gynulleidfaoedd ar draws y cyfryngau sydd wedi'u sefydlu, ac i'w harwain - yn arbennig y rhai hynny a allai fel arall gael eu gadael ar ôl - at y profiadau newydd a ddaw yn sgil y datblygiadau mewn technoleg. Bydd angen i'r BBC fod yn hyblyg i addasu i'r newidiadau a helpu i liwio disgwyliadau cynulleidfaoedd, gyda'r holl fanteision a ddaw i'r rhai fydd yn talu'r ffi drwydded unigol a'r diwydiant fel ei gilydd.

5.1.2 Ond rydym hefyd wedi ymrwymo i gynnal sector masnachol bywiog a dynamig. Mae hyn yn golygu cydbwyso'r hyblygrwydd a roddwn i'r BBC gyda mesurau cadarn i sicrhau mwy o eglurder a sicrwydd i'r diwydiant ehangach am weithgareddau'r BBC. Un rhan o'r stori yw dibenion newydd y BBC, fel y disgrifir yn y rhannau blaenorol. Rhan arall yw trwyddedau'r gwasanaeth, nodweddion cynnwys a'r Prawf Gwerth Cyhoeddus a amlinellir yn y rhan hon. A chwblheir y pecyn gyda'r mesurau newydd ar gystadleuaeth a masnachu teg a amlinellir yn ddiweddarach.

5.2 Trwyddedau gwasanaeth – contract rhwng yr Ymddiriedolaeth a thalwr ffi'r drwydded.

5.2.1 Yn y Papur Gwyrdd, cynigiwyd y dylai pob gwasanaeth BBC gael "trwydded gwasanaeth", fyddai'n cael ei rhoi gan yr Ymddiriedolaeth i'r Bwrdd Gweithredol. Byddai'r trwyddedau'n cynnwys dangosyddion clir er mwyn i'r Ymddiriedolaeth allu monitro a sicrhau perfformiad y Bwrdd Gweithredol o ran darparu gwasanaethau unigol. Byddent yn sicrhau eglurder i dalwyr ffi'r drwydded ynghylch yr hyn y gellid ei ddisgwyl. Byddent hefyd wedi'u cynllunio i roi sicrwydd i weddill y farchnad drwy sicrhau y byddai newidiadau sylweddol i wasanaethau unigol yn destun Prawf Gwerth Cyhoeddus, a ddisgrifir yn fanylach isod. Roedd ein hymgynghoriad yn dangos bod cefnogaeth gref i drwyddedau gwasanaeth, yn arbennig ymysg ymatebwyr o fyd diwydiant, ond roedd galw dealladwy am fwy o wybodaeth am eu cynnwys a sut byddent yn gweithio yn ymarferol.

Astudiaeth achos: Radio BBC

Roedd yr ymgynghori ar y Papur Gwyrdd yn dangos bod y sector radio masnachol yn dal i fod yn bryderus bod cynnwys Radio 1 a 2 yn arbennig, yn rhy debyg i'w gorsafoedd eu hunain. Rydym wedi derbyn tystiolaeth ddefnyddiol ychwanegol gan y sector radio masnachol, oedd yn tanlinellu'r pwysigrwydd o sicrhau bod trwyddedau gwasanaeth yn briodol.

Er enghraifft, yn achos Radio 1 gallai'r drwydded gwasanaeth gynnwys faint o newyddion a materion cyfoes i'w ddarlledu, faint o gerddoriaeth o'r DU a cherddoriaeth newydd ac arbenigol, gan gyfeirio at strategaeth rhaglenni gyffredinol y cynnwys. Byddai dau ddiben i hyn:

- Nodi'n glir sut mae Radio 1 yn wahanol o'i gymharu â gorsafoedd eraill
- Sicrhau bod unrhyw wahaniaethau sylweddol i gymeriad Radio 1 – a allai achosi problemau i orsafoedd radio eraill – yn digwydd yn unig ar ôl i farn pob un â diddordeb gael ei hystyried.

5.2.2 Y drwydded gwasanaeth yw'r dull pwysicaf fydd gan yr Ymddiriedolaeth i sicrhau bod y Bwrdd Gweithredol yn atebol am ddarparu gwasanaethau unigol. Mae hefyd yn darparu'r cyswllt rhwng dibenion cyhoeddus y BBC a'i wasanaethau. Am y rheswm hwnnw, bydd pob trwydded gwasanaeth yn amlinellu sut mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau'r Ymddiriedolaeth. A byddant yn cynnwys dangosyddion y bydd yr Ymddiriedolaeth yn eu defnyddio i farnu perfformiad y gwasanaeth.

5.2.3 Un o swyddogaethau pwysicaf y drwydded gwasanaeth yw rhoi eglurder a sicrwydd i dalwyr ffi'r drwydded a'r farchnad ddarlledu ehangach am yr hyn y bydd pob gwasanaeth yn ei ddarparu. Felly bydd trwyddedau gwasanaeth yn amlinellu holl nodweddion pwysicaf gwasanaeth unigol. Pan fydd bwriad i newid trwydded gwasanaeth yn golygu newid sylweddol i'r gwasanaeth, bydd angen i'r Ymddiriedolaeth gynnal Prawf Gwerth Cyhoeddus cyn penderfynu a fydd yn ei gymeradwyo ai peidio. Ond nid y bwriad yw defnyddio'r Prawf Gwerth Cyhoeddus ar gyfer penderfyniadau golygyddol o ddydd i ddydd.

5.2.4 Hefyd er mwyn sicrhau bod trwyddedau gwasanaeth yn adlewyrchu'n briodol ddiddordebau talwr ffi'r drwydded, bydd ymgynghoriad cyhoeddus ar yr holl drwyddedau gwasanaeth cyn eu cyhoeddi.

Beth fydd mewn trwydded gwasanaeth?

Er y gall y ffurf amrywio o wasanaeth i wasanaeth, bydd trwydded gwasanaeth nodweddiadol yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Nodau ac amcanion y gwasanaeth, yn cynnwys y cyfraniad a wna at ddibenion cyhoeddus y BBC, a'i rôl o fewn y farchnad ehangach;
- Lle bydd y gwasanaeth ar gael, sut y darperir ef, a lle bo'n briodol, ei gynulleidfa darged;
- Natur y gwasanaeth: a allai ddisgrifio faint o wahanol fathau o raglenni y gellid eu disgwyl a'r math o raglenni i'w darlledu - er enghraifft newyddion ar adegau prysur neu gerddoriaeth newydd yn ystod y dydd;
- Gwybodaeth am gyllideb y gwasanaeth;
- Sut bydd llwyddiant yn cael ei fesur.

5.2.5 Gan amlaf, bydd trwyddedau gwasanaeth yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd gan yr Ymddiriedolaeth. Ond os bydd yn amlwg i'r Ymddiriedolaeth, yn sgil ei ymwneud parhaus â thalwyr ffi'r drwydded, nad yw gwasanaeth neilltuol yn darparu'r hyn mae talwyr ffi'r drwydded yn ei ddisgwyl, bydd gan yr Ymddiriedolaeth y pŵer i gynnal adolygiad arbennig o'r drwydded.

5.2.6 Yn y rhan fwyaf o achosion, dylai'r penderfyniad ynghylch a oes angen trwydded gwasanaeth fod yn glir: er enghraifft bydd angen i bob gwasanaeth teledu a radio gael trwydded gwasanaeth. Ond mewn rhai achosion, gallai fod yn fwy anodd penderfynu: roedd esiamplau a gododd yn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd yn cynnwys cyfrwng newydd, yn darparu cynnwys drwy gyfrwng llwyfan symudol. Dan amgylchiadau fel hyn, yr Ymddiriedolaeth fydd yn penderfynu; ond wrth ddod i benderfyniad bydd angen edrych tuag allan - tu hwnt i anghenion gweithredol cwbl fewnol y BBC - gan seilio'r casgliadau ar yr hyn a fyddai'n gwneud y synnwyr gorau i dalwyr ffi'r drwydded ac i eraill a fyddai o bosibl yn cael eu heffeithio gan y cynnig. Wrth wneud hynny, bydd yn cymryd cyfrif o dair ystyriaeth:

- Os bydd gweithgaredd newydd yn ymwneud â dewis neu gomisiynu cynnwys a threfnu'r cynnwys neu ei ddosbarthu, mae'n fwy tebygol o fod angen trwydded gwasanaeth;

- Pwysigrwydd sicrhau'r budd a'r eglurder gorau posibl i dalwyr ffi'r drwydded a gwneud penderfyniadau sy'n adlewyrchu orau eu chwaeth a'u hanghenion;
- Pwysigrwydd rhoi sicrwydd am gwmpas y gwasanaeth i weithredwyr eraill yn y farchnad, a chyfleoedd i ymgynghori â hwy.

Adolygiadau

Bydd yr adolygiadau'n ystyried nifer o ffactorau gan gynnwys:

- Newidiadau ym mlaenoriaethau'r Ymddiriedolaeth;
- Newidiadau mewn technoleg ac ymddygiad cynulleidfa;
- Newidiadau yn y sectorau darlledu a'r sectorau ehangach sy'n golygu bod cydbwysedd rhwng gwerth cyhoeddus ac effaith y farchnad wedi newid yn sylweddol.

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus fel rhan o'i adolygiad.

5.2.7 Ac mae'n bwysig nodi y bydd pob newid sylweddol yng ngwasanaethau'r BBC yn destun Prawf Gwerth Cyhoeddus, p'un a fyddant yn ymwneud â chyhoeddi trwyddedau gwasanaeth newydd ai peidio.

5.2.8 Mae'n bosibl bydd gweithgareddau o bwys y bydd y BBC yn eu cyflawni nad ydynt mewn gwirionedd yn wasanaethau fel y cyfryw, ond sydd er hynny ag oblygiadau o ran gwerth cyhoeddus ac oblygiadau posibl ar gyfer y farchnad ehangach. Enghreifftiau posibl fyddai bwriad y BBC i symud i'r Gogledd Orllewin. Ni fyddai penderfyniadau fel hyn yn destun Prawf Gwerth Cyhoeddus - cred y Llywodraeth ei fod yn hanfodol bod gan y BBC y rhyddid i fuddsoddi er mwyn sicrhau ei ddibenion cyhoeddus. Ond byddai egwyddorion craidd yr Ymddiriedolaeth yn dal yn berthnasol i gynigion o'r fath, ac yn sail i'r egwyddorion hynny mae ymwneud â thalwyr ffi'r drwydded a rhanddeiliaid eraill, a rhoi gwerth am arian.

5.3 Y Prawf Gwerth Cyhoeddus

5.3.1 Dros oes y Siarter nesaf, mae'n debygol y bydd y BBC yn wynebu'r her o addasu'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ganddo er mwyn ymateb, ac yn aml arwain, y newidiadau mewn technoleg, diwylliant ac ymddygiad cynulleidfa: er mwyn parhau i fod yn berthnasol i'w gynulleidfaoedd, bydd angen i'r BBC gael lefel o hyblygrwydd i addasu i amgylchedd sy'n newid.

5.3.2 Ond gyda'r hyblygrwydd hwnnw, rhaid cael mesurau i sicrhau bod gweithgareddau'r BBC yn gyson gyda sector masnachol bywiog a dynamig. Mae'r Prawf Gwerth Cyhoeddus yn rhan allweddol o becyn cytbwys y Papur Gwyn.

5.3.3 Yn y Papur Gwyrdd, cynigiwyd y dylai pob gwasanaeth newydd, a newidiadau sylweddol i wasanaethau presennol, fod yn destun Prawf Gwerth Cyhoeddus. Ymddiriedolaeth y BBC fyddai'n gweithredu'r prawf, a byddai'n golygu pwyso a mesur "gwerth cyhoeddus" - a eglurir ymhellach isod - y newid arfaethedig yn erbyn ei effaith ar y farchnad, yn cynnwys diddordebau masnachol a dielw. Gyda gwasanaethau newydd, dywedwyd y dylai Ofcom gynnal asesiad effaith ar y farchnad: yr Ymddiriedolaeth fyddai'n comisiynu newidiadau sylweddol i wasanaethau presennol, yn seiliedig ar fethodoleg y cytunwyd arni gydag Ofcom. Byddai'r canlyniadau'n cael eu cyhoeddi ym mhob achos.

5.3.4 O ganlyniad i faterion pwysig a godwyd gyda ni yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus, a thystiolaeth a gyflwynwyd i Bwyllgor Dethol arbennig Tŷ'r Arglwyddi ar Adolygu'r Siarter, rydym wedi cydnabod yr angen gwirioneddol i roi sicrwydd y gall y system ymdopi gyda datblygiadau na ellir eu rhagweld mewn technoleg ac ymddygiad cynulleidfaoedd yn ystod y ddegawd nesaf. Felly rydym yn cadarnhau'r egwyddor y dylid craff ar **bob** cynnig, fydd yn golygu newid sylweddol i wasanaethau presennol neu wasanaethau newydd, drwy gyfrwng y Prawf Gwerth Cyhoeddus. Yr Ymddiriedolaeth fydd yn penderfynu a fydd cynnig yn un sylweddol ai peidio gan ddefnyddio meini prawf clir (gweler y blwch). Ni ddylai hyn gyfyngu ar ddarparu gwasanaethu - y bwriad yw ymdrin ag effaith ail-gynllunio gwasanaeth.

Pryd mae cynnig yn "sylweddol"?

Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau, bydd y penderfyniad ynghylch a yw newid yn sylweddol ai peidio yn glir. Ond pan nad yw mor glir, bydd angen i'r Ymddiriedolaeth wneud penderfyniad, gan ystyried y cwestiynau canlynol:

- Effaith – i ba raddau y bydd y newid yn debygol o effeithio ar eraill yn y farchnad, neu ar dalwyr ffi'r drwydded;
- Graddfa – yn gyffredinol caiff ei fesur ar sail ariannol;
- Newydd-deb – a yw'n weithgaredd sy'n syniad newydd sbon ar gyfer y BBC, ond heb ei brofi eto:
- Hyd - am ba hyd fydd y gweithgaredd yn para;

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn ystyried yn ofalus wrth wneud ei benderfyniad: er enghraifft gallai hyn olygu ymgynghori â'r diwydiant er mwyn canfod a fyddai'r cynnig o bosibl yn cael effaith sylweddol ar y farchnad.

Asesiadau effaith ar y farchnad

5.3.5 Bydd yr asesiadau effaith ar y farchnad yn allweddol wrth ystyried a fydd cynnig arbennig yn cyfyngu ar y dewis i ddefnyddwyr drwy gyfyngu ar arloesedd a datblygiad yn y farchnad ehangach. Yn y Papur Gwyrdd cynigiwyd y dylid cynnal asesiad effaith ar y farchnad fel a ganlyn:

- O safbwynt gwasanaethau newydd, Ofcom fyddai'n cynnal yr asesiad effaith ar y farchnad:
- O safbwynt newidiadau sylweddol i wasanaethau presennol, yr Ymddiriedolaeth ei hun fyddai'n cynnal yr asesiad effaith ar y farchnad, er y byddai angen iddi gytuno ar fethodoleg gydag Ofcom;
- Byddai canlyniadau'r asesiad effaith ar y farchnad yn cael eu cyhoeddi.

5.3.6 Yn sgil sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghori, rydym wedi mireinio'r trefniadau ar gyfer cynnal asesiadau effaith ar y farchnad, yn seiliedig ar yr egwyddorion canlynol:

- Rôl sylfaenol yr Ymddiriedolaeth i sicrhau budd y cyhoedd:
- Yr angen i'r Prawf Gwerth Cyhoeddus ennill hyder y rhai o'r tu allan i'r BBC;
- Yr angen i'r asesiad effaith ar y farchnad ddarparu'r math cywir o wybodaeth fel y gall yr Ymddiriedolaeth bwyso a mesur yr effaith ar y farchnad a gwerth cyhoeddus;
- Manteisio ar arbenigedd sylweddol Ofcom wrth asesu cystadleuaeth ac effaith ar y farchnad yn y diwydiannau darlledu a chyfathrebu.

5.3.7 Gyda golwg ar yr egwyddorion hyn, rydym wedi penderfynu pa bryd bynnag y bydd yr Ymddiriedolaeth yn cynnal Prawf Gwerth Cyhoeddus, mai Ofcom fydd yn gyfrifol am gynnal yr asesiad effaith ar y farchnad, a bydd yr asesiad hwnnw'n cael ei gyhoeddi. Wrth gynnal yr asesiad, goruchwylir gwaith Ofcom gan grŵp llywio fydd yn cynnwys aelodau o'r Ymddiriedolaeth ac Ofcom (gydag aelodau annibynnol lle cytunir ar hynny), a bydd yn gweithredu methodoleg y cytunwyd arni gan y grŵp llywio. Wrth i'r trefniadau newydd sefydlu eu hunain, disgwyliwn i'r Ymddiriedolaeth ddatblygu partneriaeth gydag Ofcom, gan fanteisio ar ei gyngor gwerthfawr i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau.

5.3.8 Yn y Papur Gwyrdd, dywedodd y Llywodraeth y byddai'n ystyried a ddylai'r Prawf Gwerth Cyhoeddus bennu trothwy ar gyfer gwasanaeth y tu draw i lefel y farchnad, a fyddai'n cael ei ystyried yn gwbl annerbyniol - er enghraifft pe bai risg o flaen-gau marchnad newydd neu leihau cystadleuaeth yn sylweddol. Rydym yn cydymdeimlo gyda sylwadau Pwyllgor Dethol arbennig Tŷ'r Arglwyddi ar yr Adolygiad Siarter "os bydd asesiad effaith ar y farchnad yn dangos y bydd lansio gwasanaeth BBC newydd yn golygu bod risg o golli marchnad newydd, yna ni ddylid lansio'r gwasanaeth newydd"[5]. Rhaid rhoi ystyriaeth ddifrifol i'r risgiau a nodir gan y Pwyllgor Dethol, ond mae holl bwyslais y drefn newydd o gystadlu i'r BBC yn golygu y dylai'r Prawf Gwerth Cyhoeddus ddarparu'r mecanwaith a'r rhesymeg ar gyfer penderfyniadau'r BBC.

Asesiadau Gwerth Cyhoeddus

5.3.9 Bydd yn ofynnol yn ôl y Prawf Gwerth Cyhoeddus i'r Ymddiriedolaeth bwyso a mesur yr effaith ar y farchnad - cadarnhaol a negyddol - yn erbyn "gwerth cyhoeddus". Mae effaith ar y farchnad yn gysyniad mae pobl yn ei ddeall yn weddol dda, a bydd y cyd-grŵp llywio'n cytuno ar fethodoleg fydd yn sicrhau bod Ofcom yn darparu'r wybodaeth y mae'r Ymddiriedolaeth ei hangen. Ond nid yw'r cysyniad o "werth cyhoeddus" wedi'i ddiffinio cystal - pwynt a godwyd yn aml yn yr ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod ei fod yn bwysig bod y prawf yn glir, er mwyn sicrhau hyder allanol ynddo.

5.3.10 Yn y cyd-destun hwn, mae "gwerth cyhoeddus" yn mesur i ba raddau y mae talwyr ffi'r drwydded yn cael budd o'r gwasanaeth arfaethedig. Dylai gynnwys asesiad o'r ffactorau canlynol:

- Y gwerth y byddai talwyr ffi'r drwydded yn ei roi ar y gwasanaeth
- Y gwerth mae'r gwasanaeth yn ei ddarparu i gymdeithas yn gyffredinol drwy ei gyfraniad i ddibenion a blaenoriaethau cyhoeddus y BBC.
- Y gwerth am arian a ddarperir gan y gwasanaeth - gan gynnwys ystyried a allai'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded gael budd o ostyngiad cyfatebol yn ffi'r drwydded.

5.3.11 Mae'r Llywodraeth yn disgwyl i'r Ymddiriedolaeth gymryd ystyriaeth o egwyddorion "Model Perfformiad Gwasanaeth Cyhoeddus" y Sylfaen Gwaith fel sail i asesu gwerth cyhoeddus.

5.3.12 Bydd yr Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am asesu gwerth cyhoeddus unrhyw gynnig. Mewn sawl achos, mae'n bosibl y bydd gan y Bwrdd Gweithredol rôl i'w chwarae mewn casglu tystiolaeth a fyddai'n galluogi'r Ymddiriedolaeth i gynnal ei asesiad, er enghraifft drwy gynnal cynlluniau treialu cyfyngedig. Ond bydd disgwyl y bydd yr Ymddiriedolaeth yn craffu ar waith y Bwrdd Gweithredol mewn dull gwrthrychol ac yn gofyn am gyngor annibynnol lle bo hynny'n briodol.

[5] *The Review of the BBC's Royal Charter*, Cyfrol 1: Adroddiad Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Adolygiad Siarter y BBC, para.228

5.3.13 Yn ystod yr ymgynghori lleisiwyd nifer o bryderon ynghylch cynlluniau'r BBC i dreialu gwahanol brosiectau arfaethedig - er enghraifft yr Archif Greadigol a'r "gwasanaethau teledu tra-lleol" - cyn eu bod yn destun Prawf Gwerth Cyhoeddus llawn. Mae cysyniad y gall y cynlluniau treialu eu hunain gael effaith niweidiol ar y farchnad, oherwydd eu maint a'u hyd, ac y gallai cynllun treialu gael ei ymestyn yn wasanaeth llawn heb gyfle i unrhyw graffu cyhoeddus ddigwydd. Wrth dreialu gwasanaethau newydd mae'n bosibl darparu data defnyddiol i gynorthwyo Prawf Gwerth Cyhoeddus. Ond bydd angen bodloni'r Ymddiriedolaeth bod maint a hyd unrhyw gynllun treialu arfaethedig gan y Bwrdd Gweithredol mor fach â phosibl i ddarparu'r wybodaeth angenrheidiol. Hefyd dylid tybio'n gyffredinol, y daw cynllun treialu i ben, lle bo hynny'n ymarferol, cyn gwneud unrhyw benderfyniad ynghylch Prawf Gwerth Cyhoeddus.

Cymeradwyo gwasanaethau newydd

5.3.14 Yn y Papur Gwyrdd cynigiwyd rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ymyrryd pan ystyriai ef neu hi nad oedd yr Ymddiriedolaeth wedi dilyn y broses benodol ar gyfer cymeradwyo gwasanaethau newydd.

5.3.15 Rydym yn cadarnhau'r polisi hwnnw yn y Papur Gwyn hwn: ar ôl cwblhau Prawf Gwerth Cyhoeddus, pe dymunai'r Ymddiriedolaeth fwrw ymlaen â gwasanaeth newydd arbennig, byddai'n gwneud argymhelliad i'r Llywodraeth i'r perwyl hwnnw. Pe bai'n amlwg i'r Ysgrifennydd Gwladol nad oedd yr Ymddiriedolaeth wedi dilyn y broses gymeradwyo yn briodol, gallai ef neu hi atal y cytundeb i'r gwasanaeth newydd. Ond ni fyddai gan yr Ysgrifennydd Gwladol y pŵer i'w gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth newid penderfyniad a wnaed ganddo pe bai'r broses asesu wedi'i dilyn yn briodol.

Cynlluniau presennol y BBC

5.3.16 Yn Hydref 2005, cyhoeddodd y BBC bapur ymgynghorol yn gofyn am sylwadau ar ei gynigion manwl ei hun ar gyfer system trwyddedau gwasanaeth a gweithredu Prawf Gwerth Cyhoeddus. Roedd diben yr ymgynghoriad hwn yn ddeublyg: cyfrannu at weithredu Prawf Gwerth Cyhoeddus drwy'r Bwrdd Llywodraethwyr presennol, a darparu tystiolaeth i'r Ymddiriedolaeth newydd i'w helpu i sefydlu ei systemau newydd gynted â phosibl. Mae'r Llywodraeth yn croesawu gwaith y BBC fel cyfrannwr pwysig i'r ddadl hon. Ond bydd unrhyw benderfyniadau terfynol ar y dull manwl o weithredu'r trwyddedau gwasanaeth a'r Prawf Gwerth Cyhoeddus yn cael eu gwneud gan yr Ymddiriedolaeth newydd, o fewn y fframwaith a ddarparwyd gan y Siarter a'r Cytundeb newydd.

6. Rheoleiddio cystadleuaeth

6.1.1 Mae'r BBC yn sgil ei natur yn effeithio'n sylweddol iawn ar y farchnad ddarlledu - byddai'r farchnad yn wahanol iawn pe na bai'r BBC yno. Fel hyn y bu hi erioed: yn wir, y BBC oedd unig ddarlledwr cenedlaethol y DU am tua thri deg mlynedd cyn i ITV gael ei lansio yn 1955. Mae'r wlad wedi dewis, ymysg mesurau eraill, cynnal darlledwr mawr, a gyllidir yn gyhoeddus, ar ffurf y BBC, i helpu i sicrhau manteision darlledu gwasanaeth cyhoeddus.

6.1.2 Mae adolygiad y Siarter wedi cadarnhau bod cefnogaeth gyhoeddus eang i'r ymyrraeth hon: mae gan y cyhoedd feddwl o'r BBC sy'n ei godi uwchlaw dadleuon traddodiadol o safbwynt methiant y farchnad: mae'n unigryw, yn ychwanegu gwerth yn ei hawl ei hun ac yn sicr mae wedi helpu i osod y safonau ansawdd uchel y mae darlledu'r DU yn enwog amdanynt. O ganlyniad, cadarnhaodd y Papur Gwyrdd y byddai'r BBC yn cael Siarter newydd am ddeng mlynedd arall ac yn cael ei ariannu gan ffi'r drwydded[6] am y cyfnod hwnnw. Mae'r Llywodraeth yn credu y byddai hyn er budd y cyhoedd, ond rhaid cydbwyso hyn ac ystyried y cyd-destun o ran cystadleuaeth.

6.1.3 Mae effaith y BBC ar y farchnad wedi'i gyfyngu bob amser gan ddeddf cystadlu. Ond mae byd y cyfryngau'n datblygu'n gyflym, ac mae'r dewis a'r gystadleuaeth yn cynyddu i gyd-fynd â hynny, a hynny'n rhoi gwerth ar ddiffinio rôl y BBC yn fwy eglur nac erioed o'r blaen. Mae adolygiad o'r Siarter hwn yn rhoi cyfle i ni sefydlu'r berthynas iawn rhwng y BBC a gweddill y farchnad - a hyd yn oed yn bwysicach - sicrhau y gellir ei ail-addasu fel bo angen yn ystod oes y Siarter nesaf.

6.1.4 Mae nifer o'r mesurau yr ydym wedi'u disgrifio hyd yma - y fframwaith dibenion, trwyddedau gwasanaeth, nodweddion cynnwys a'r Prawf Gwerth Cyhoeddus - yn rhan bwysig o'r drefn newydd. Ond mae un prif faes arall sydd angen sylw er mwyn penderfynu ar rôl y BBC yng nghyd-destun y farchnad: effaith y BBC ar gystadleuaeth.

6.1.5 Y man cychwyn ar gyfer ein polisi yw'r ffaith bod gan nifer o weithgareddau'r BBC y potensial i effeithio ar gystadleuaeth. Nid yw hyn yn syndod: fel rydym wedi egluro, mae'r BBC yn gyffredinol yn cynrychioli ymyrraeth polisi cyhoeddus bwriadol yn y farchnad, ac mae'r ddeddf cystadleuaeth a rheoleiddio annibynnol eisoes yn berthnasol i'r BBC (gweler y blwch).

Mae'r Papur Gwyrdd yn amlinellu'r fframwaith presennol ar gyfer rheoleiddio'r BBC mewn perthynas â chystadleuaeth. Mae'n cynnwys yr elfennau canlynol:

- Mae'r ddeddf cystadleuaeth yn berthnasol i'r BBC ac mae gan Ofcom yr un pwerau Deddf Cystadleuaeth *ex post* dros y BBC ag sydd ganddo dros unrhyw ddarlledwr arall;
- Gall y Swyddfa Masnachu Teg (OFT) hefyd ymwneud â materion cystadlu, y mae eu goblygiadau'n ymestyn y tu hwnt i gyfathrebu electronig;
- Mae cyfundrefn masnachu teg ychwanegol yn berthnasol i wasanaethau masnachol y BBC, sydd â dyheadau y tu hwnt i ddeddf cystadleuaeth, dan oruchwyliaeth y Bwrdd Llywodraethwyr.

[6] Mae'r rhan fwyaf o arian cyhoeddus y BBC yn deillio o ffi'r drwydded. Daw cyfran fechan yn sgil y cymorth grant gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad i ariannu Gwasanaeth BBC World.

6.1.6 Lleisiwyd nifer o bryderon am ddull gweithredu'r system bresennol. Mae Ofcom ac OFT yn bryderus nad yw eu pwerau cystadlu *ex post* presennol yn ddigonol i reoleiddio'r BBC. Tanlinellwyd ganddynt fod pwerau *ex post* yn aml yn cymryd amser i'w gweithredu a'u bod yn gallu bod yn aneffeithiol wrth atal niwed yn sgil cystadleuaeth. Fel yr eglurwyd yn y Papur Gwyrdd, mae pryder eang ymysg y diwydiant nad yw rheolau masnachu teg yn glir, ac ystyrir yn aml eu bod yn ei gwneud hi'n fwy anodd cwyno a rhoi sylw i'r cwynion.

6.1.7 Wrth ddatblygu ein polisi, rydym wedi ystyried tri ffactor:

- Rôl yr Ymddiriedolaeth o ran sicrhau budd y cyhoedd a darparu gwerth i dalwyr ffi'r drwydded;
- Arbenigedd sylweddol Ofcom mewn materion sy'n ymwneud â chystadleuaeth ym myd darlledu;
- Ein bod yn sefydlu'r Ymddiriedolaeth i oruchwylio a rheoleiddio'r Bwrdd Gweithredol. Ni ddylai unrhyw drefniadau newydd darfu ar gyfrifoldebau'r Ymddiriedolaeth na thanseilio'r modd y mae'r Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol yn gweithredu ar wahân.

6.1.8 Felly bydd yn ofynnol i'r BBC gyflawni ei gyfrifoldebau i dalwr ffi'r drwydded o fewn fframwaith newydd y farchnad:

- Dyletswydd, i'w amlinellu yn Siarter newydd y BBC, i'r Ymddiriedolaeth ystyried materion cystadleuaeth wrth sicrhau ei fod yn cyflawni dibenion cyhoeddus y BBC;
- Cyfundrefn masnachu teg a adolygwyd;
- System newydd o godau *ex ante* mewn meysydd penodol, fydd yn cael ei gweithredu gan yr Ymddiriedolaeth ac a baratoir ganddynt mewn ymgynghoriad ag Ofcom;
- Trefn gwyno newydd.

6.1.9 Ategir hyn oll gan rôl Ofcom yn cynnal asesiadau effaith ar y farchnad ar gyfer gwasanaethau newydd a newidiadau sylweddol i wasanaethau presennol. Mae'n gwbl ofynnol i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod y BBC yn dryloyw yn ei holl weithgareddau ariannol bob amser a bod angen i wybodaeth ariannol gael ei chyflwyno'n unol â'r safonau uchaf a'r arferion gorau oll.

Cyfundrefn masnachu teg newydd

6.1.10 Yn ystod y drafodaeth a arweiniodd at gyhoeddi'r Papur Gwyrdd, roedd yn glir bod pryderon difrifol ynghylch effeithiolrwydd dull y BBC o weithredu ei drefniadau masnachu teg. Yn y Papur Gwyrdd, gofynnwyd am sylwadau ynghylch a ddylid cadw'r rhain yn eu ffurf bresennol. O ganlyniad i'r sylwadau a dderbyniwyd ar y Papur Gwyrdd, bydd yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth ddatblygu ac ymgynghori ar gyfundrefn masnachu teg newydd fydd yn cynnwys yr egwyddorion canlynol:

- Dylai gynnwys gwasanaethau'r BBC a gyllidir ag arian cyhoeddus yn ogystal â'i wasanaethau masnachol;
- Dylai egluro'r gwahaniaeth rhwng gofynion statudol a gweithrediadau gwirfoddol;
- Dylai nodi pwy - yr Ymddiriedolaeth, Ofcom, yr OFT neu'r Comisiwn Ewropeaidd (y canolwr terfynol ar faterion sy'n ymwneud â Chymorth Gwladwriaethol) - sy'n gyfrifol am beth.

Codau *ex ante*

6.1.11 Yn y Papur Gwyrdd, amlinellodd y Llywodraeth ei farn gan nodi nad oedd yn briodol rhoi pŵer cystadlu *ex ante* sydd heb derfyn i Ofcom, gan y byddai hyn yn tarfu ar ddyletswydd gyffredinol yr Ymddiriedolaeth i sicrhau bod y Bwrdd Gweithredol yn atebol o safbwynt budd y cyhoedd. Ond cytunodd y Llywodraeth i ystyried pwerau penodol tynnach mewn meysydd penodol.

Ex ante neu *ex post?*

Yn fras, mae rheoliad *ex ante* yn ymwneud â phennu rheolau neu godau i atal ymddygiad sy'n achosi pryderon cystadlu cyn iddynt ddigwydd.

Mae rheoliad *ex post* yn ymwneud â delio â chwynion ynghylch ymddygiad gwrth-gystadleuol honedig ar ôl iddo ddigwydd.

6.1.12 Mae ein hymgynghoriad cyhoeddus a'n trafodaeth yn sgil hynny gyda rhanddeiliaid wedi cadarnhau bod angen ffurf ar reoliad *ex ante* ar y BBC, yn ychwanegol at y fframwaith *ex post* presennol, ac y dylai hyn ymestyn i wasanaethau cyhoeddus y BBC.

6.1.13 Felly byddwn yn ymestyn y rheoliad *ex ante* i'r BBC ar ffurf codau. Bydd y Llywodraeth yn disgwyl iddynt fod yn feysydd penodol fydd wedi'u diffinio'n glir. Yr Ymddiriedolaeth fydd yn gyfrifol am lunio a gorfodi'r codau, gan mai corff hwn all gydbwyso orau a fydd y BBC yn cyflawni ei ddibenion cyhoeddus yn erbyn effaith gweithgareddau'r BBC ar gystadleuaeth. Yn ôl y Siarter a'r Cytundeb bydd yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth ffurfio codau *ex ante* mewn meysydd o wasanaethau'r BBC, fydd yn ei farn, â'r potensial i achosi pryderon o ran cystadleuaeth. Bydd yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth ystyried sylwadau Ofcom wrth benderfynu pa feysydd y dylid eu cynnwys ac wrth ffurfio'u codau eu hunain. Golyga hyn, fel man cychwyn, y bydd angen i'r Ymddiriedolaeth ystyried a ddylai unrhyw godau *ex ante* sy'n berthnasol i ddarlledwyr trwyddedig fod yn berthnasol hefyd i'r BBC - wedi'u haddasu'n briodol, lle bo angen, i adlewyrchu statws y BBC a gyllidir ag arian cyhoeddus. Bydd angen iddo ystyried ac ymateb i unrhyw bryderon penodol y bydd Ofcom yn eu codi mewn perthynas â gweithgaredd y BBC hefyd, gan egluro'i resymau, pe na bai'n dilyn cyngor Ofcom. Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod yr arbenigedd angenrheidiol ar gystadlu ar gael iddi: a disgwyliwn iddi weithio'n glòs gydag Ofcom i fanteisio ar y cyngor y mae'n ei gynnig, gan osgoi costau dyblygu diangen.

Croes hyrwyddo

Mae'r Llywodraeth yn credu ei fod yn bwysig y dylai'r BBC barhau i hyrwyddo ei wasanaethau ar yr awyr fel bod talwyr ffi'r drwydded yn ymwybodol o raglenni penodol a chwmpas yr hyn y mae'r BBC yn ei gynnig yn gyffredinol. Mae hyrwyddo'r BBC hefyd wedi chware rôl bwysig mewn symbylu'r rhai sydd wedi manteisio ar deledu digidol a radio. Mae ymchwil gan y BBC ac Ofcom yn awgrymu nad oes gormod o hyrwyddo ar yr awyr gan y BBC o'i gymharu â darlledwyr eraill, a bod gwylwyr a gwrandawyr ar y cyfan yn credu bod hyrwyddo ar yr awyr o fudd, er ei fod yn cythruddo nifer fechan. Yr Ymddiriedolaeth fydd yn gyfrifol am sicrhau bod natur yr hyrwyddo ar yr awyr, a faint o hyrwyddo a wneir, yn parhau i fod yn briodol.

Ond mae Ofcom wedi nodi maes posibl o bryder mewn croes hyrwyddo rhwng cyfryngau digidol. Dyma enghraifft lle disgwyliwn i'r Ymddiriedolaeth, mewn ymgynghoriad ag Ofcom, ffurfio cod *ex ante* i sicrhau y gellir ymestyn rheoleiddio effeithiol ar draws y sector darlledu cyfan.

Mae meysydd posibl pryder posibl eraill a godwyd yn ystod yr ymgynghori'n cynnwys:

- Contractau darlledu cyfyngedig i'r BBC sy'n amharu heb fod angen ar gystadleuaeth (e.e. crynhoi hawliau gormodol);
- Defnyddio technoleg dosbarthu perchenogol yn amhriodol i effeithio ar gystadleuaeth (e.e. o ran gwasanaethau â chynnwys sy'n cael ei lwytho i lawr);
- Gwahaniaethu diangen o ran cynnwys rhaglenni na ellir eu dyblygu (e.e. rhaglennu archifol);
- Y telerau ar gyfer gweithrediadau masnachol rhwng gwasanaethau'r BBC a gaiff eu hariannu gan ffi'r drwydded a gwasanaethau masnachol.

6.1.14 Bydd y codau newydd yn darparu lefel ychwanegol o ddiogelwch ar ben y fframwaith cystadleuaeth *ex post*. Bydd Ofcom a'r OFT yn cadw eu pwerau presennol dan y Ddeddf Cystadleuaeth. Bydd y codau'n gweithredu fel math o ffilter, gan geisio atal problemau cyn iddynt godi. Gan y bydd deddf cystadleuaeth *ex post* yn dal i fod yn berthnasol ni welwn fod angen apêl mewn perthynas â gweithredu'r codau gan yr Ymddiriedolaeth. Hefyd disgwyliwn i'r BBC fod yn destun adolygiad barnwrol o safbwynt gweithredu ei gyfrifoldebau dan y Siarter a'r Cytundeb fel unrhyw drefniant arall - gweler paragraff 9.11.1 i gael mwy o wybodaeth am y BBC ac adolygiad barnwrol.

6.1.15 Er mwyn gweithredu'r trefniadau hyn yn effeithiol ac yn gredadwy, mae'n hanfodol bod gan ddarpar achwynyddion hyder na fydd unrhyw wybodaeth sensitif, fasnachol a gyflwynant i'r Ymddiriedolaeth yn cael ei throsglwyddo i Fwrdd Gweithredol y BBC nac yn cael ei datguddio'n ehangach. Bydd yn ddyletswydd ar yr Ymddiriedolaeth sefydlu mesurau i sicrhau'r gofyniad hwn.

Cwynion Masnachu Teg

6.1.16 Dyma'r egwyddorion y bydd yr Ymddiriedolaeth yn eu cynnwys yn ei threfn gwyno:

- Canllawiau clir yn egluro sut mae'r drefn gwyno'n gweithio. Byddai hyn yn cynnwys disgrifiad o'r holl ddulliau sydd ar gael i achwynyddion, gan gynnwys cwyno dan Ddeddf Cystadleuaeth i Ofcom neu'r OFT;
- Pan ddaw mater gerbron yr Ymddiriedolaeth, tegwch o ran triniaeth rhwng yr achwynydd a'r Bwrdd Gweithredol;
- Trefniadau ar wahân llawn o safbwynt cyngor, yn cynnwys cyngor cyfreithiol, wedi'i ddarparu i'r Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol;
- Datganiad clir o fesurau gwella y gallai'r Ymddiriedolaeth eu defnyddio.

6.1.17 Rydym yn credu y bydd y trefniadau hyn yn sicrhau'r cydbwysedd iawn rhwng defnyddio'r arbenigedd sydd ar gael yn Ofcom a'r OFT a rôl ganolog yr Ymddiriedolaeth i sicrhau budd y cyhoedd. Drwy sefydlu ymlaen llaw sut y gall gweddill y farchnad ddisgwyl i'r BBC weithredu, sicrheir cyfrwng atebolrwydd cyhoeddus newydd pwysig. Rydym yn credu y bydd yn hanfodol bod Ymddiriedolaeth y BBC yn datblygu partneriaeth gref gyda rheolyddion eraill, yn bennaf Ofcom, yn ogystal â ffynonellau arbenigedd allanol eraill, i'w helpu i wneud ei gwaith.

7. Gwasanaethau Masnachol

7.1.1 Darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, yn anad dim yw'r BBC. Ond mae llawer o'r hyn y mae'n ei gynhyrchu drwy ddefnyddio arian talwyr ffi'r drwydded - e.e. rhaglenni teledu - â gwerth parhaus y gellir ei ddefnyddio er budd talwyr ffi'r drwydded. Dyna pam y caniatawyd i'r BBC am nifer o flynyddoedd gynnal gwasanaethau masnachol gyda'r bwriad o roi gwerth yn ôl i'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded - er enghraifft, drwy ail-fuddsoddi mewn rhaglenni, a thrwy hynny leihau pwysau ar ffi'r drwydded.

7.1.2 Roedd y Papur Gwyrdd yn amlinellu polisi clir, wedi'i ategu gan gasgliadau cadarn yn deillio o'r ymgynghoriad a'r ymchwil, y dylai'r BBC barhau i leihau pwysau ar ffi'r drwydded drwy greu incwm masnachol. Dylai geisio manteisio i'r eithaf ar refeniw masnachol, mewn meysydd priodol, i ail-fuddsoddi mewn rhaglenni a thalent er budd talwyr ffi'r drwydded. Ond roedd y Papur Gwyrdd hefyd yn cynnig ffiniau newydd i weithgaredd masnachol y BBC, yn seiliedig ar bedair egwyddor:

- Addas i ddibenion cyhoeddus y BBC;
- Effeithiolrwydd masnachol;
- Diogelu brand y BBC;
- Osgoi camliwio'r farchnad.

7.1.3 Mae ymgynghoriad cyhoeddus ar y Papur Gwyrdd wedi cadarnhau mai dyma'r meini prawf cywir. Tra bod y rhan fwyaf o sylwadau'n dangos cefnogaeth eang i 'bob dull cyfrifol' o gynyddu incwm y BBC, roedd y rhan fwyaf o ymatebwyr yn credu na ddylid blaenoriaethu gwasanaethau masnachol ar draul dyletswyddau craidd gwasanaeth cyhoeddus.

7.1.4 Yn y dyfodol, Ymddiriedolaeth y BBC fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y Bwrdd Gweithredol yn cydymffurfio â'r meini prawf. Mae'n bosibl y bydd rhannau gwrthrychol neu fesuradwy o'r asesiad yn erbyn meini prawf unigol, ond yn anochel mater o farn fydd y penderfyniad cyffredinol. Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth sicrhau ei hun bod systemau ar waith sy'n dehongli ac yn defnyddio'r meini prawf - er enghraifft, wrth asesu a yw teitlau cylchgronau unigol yn cydymffurfio â'r maen prawf cyntaf, gallai ystyried i ba raddau mae'r cynnwys golygyddol yn cyd-fynd ag allbwn y rhaglen. Wrth asesu'r ail faen prawf, dylai ystyried a ellid sicrhau gwell gwerth am arian drwy werthu gwasanaethau masnachol unigol neu eu cau.

7.1.5 Bydd yn ofynnol yn ôl yr Ymddiriedolaeth i'r Bwrdd Gweithredol ddangos sut mae gwasanaeth neilltuol yn sicrhau'r adenillion gorau posibl i dalwyr ffi'r drwydded, gan gyfeirio at weithredwyr y gellir cymharu â hwy yn y farchnad unigol, a bydd yn herio'r targedau y mae'r Bwrdd Gweithredol yn eu cynnig. Hefyd bydd yn ofynnol i'r Bwrdd Gweithredol gyflwyno, fel rhan o'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a gyhoeddir ar wahân, asesiad llawn ac agored o berfformiad y gwasanaethau masnachol, gan gynnwys datganiad cydymffurfio â'r pedwar maen prawf.

7.1.6 Fe ddywedom yn y Papur Gwyrdd na fydd angen i'r Ysgrifennydd Gwladol bellach gymeradwyo gwasanaethau masnachol newydd y BBC. Yn hytrach, yr Ymddiriedolaeth fydd yn gyfrifol am gymeradwyo gwasanaethau masnachol, a hynny yn bennaf ar yr un sail â'r hyn a arferir ar hyn o bryd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn egluro'r ffactorau y bydd yn eu hystyried wrth benderfynu a ddylid cyfeirio gweithgaredd arfaethedig i gael ei gymeradwyo ymlaen llaw.

7.1.7 Mae'n bwysig y dylai'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded gael mynediad at wybodaeth a'r modd y mae cyllid yn cael ei drosglwyddo rhwng gwahanol rannau o'r BBC. Mae hefyd yn bwysig na ddylai fod unrhyw groes gymhorthdal o wasanaethau cyhoeddus y BBC i'w weithgareddau masnachol. Sefydlir mesurau diogelu priodol, yn cynnwys cyfrifon llawn ar wahân a thelerau clir o ran pa weithrediadau masnachol a wneir rhwng y gwasanaethau cyhoeddus a'r gweithgareddau masnachol. Yn y cyd-destun hwn, disgwyliwn i'r Ymddiriedolaeth ddatblygu'r safonau newydd a bennwyd yn yr Adroddiad a'r Cyfrifon diweddaraf ar gyfer BBC Worldwide, sy'n rhoi mwy o fanylder ac eglurder am weithgareddau masnachol y BBC nag o'r blaen.

Rhagflas ar yr awyr

Yn unol â'r Papur Gwyrdd, rydym yn croesawu penderfyniad y BBC i roi diwedd ar roi rhagflas o'u cylchgronau ar yr awyr - gweithgaredd sydd wedi creu cryn bryder ymysg cyhoeddwyr cylchgronau eraill, yn bennaf oherwydd nifer Cylchgronau'r BBC yn y farchnad.

Ond rydym yn cytuno efallai y byddai o fudd i dalwyr ffi'r drwydded gael rhagflas o gynhyrchion eraill - llyfrau a DVDs er enghraifft - sydd â chyswllt uniongyrchol a rhaglenni unigol. Mae'r dystiolaeth rydym wedi'i hystyried o'r ymgynghoriad cyhoeddus, ymchwil ac yn arbennig, seminar cyhoeddus yr Arglwydd Burns ar y mater hwn, wedi cadarnhau bod rhoi rhagflas o'r cynhyrchion hyn yn llai dadleuol na rhoi rhagflas o gylchgronau: nid yw safle'r BBC yn y marchnadoedd dan sylw mor amlwg, mae'n fwy tebygol i'r cynhyrchion dan sylw fod wedi'u cynhyrchu gan gwmnïau eraill ac maent yn tueddu i fod yn deitlau a gyhoeddir un tro'n unig yn hytrach na chyfnodolion.

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn cadw hyn dan ystyriaeth.

8. Cynhyrchu a threfnu

8.1.1 Roedd yn eglur yn y Papur Gwyrdd bod angen i'r BBC gynnal ei safle fel darlledwr sy'n darparu gwasanaeth i bob gwyliwr a gwrandäwr, drwy raglenni prif ffrwd a rhaglenni mwy arbenigol. Eglurwyd y bydd yn parhau fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus o faint gwirioneddol a gyllidir ag arian cyhoeddus, fydd yn gyfrifol am ddarparu amrywiaeth o wasanaethau ar draws gwahanol lwyfannau, gan wneud cyfraniad ehangach i'w ddibenion cyhoeddus, er enghraifft:

- I ba raddau y dylid disgwyl i BBC a gyllidir ag arian cyhoeddus fod o fudd i'r diwydiant yn gyffredinol, drwy ei gyfraniad i ymchwil a datblygiad technolegol ac i hyfforddiant;
- Sut y gall y BBC rannu manteision economaidd ffi'r drwydded er mwyn adlewyrchu'n well ddosbarthiad talwyr ffi'r drwydded drwy'r holl genhedloedd a'r rhanbarthau.

8.1.2 Rydym yn dal yn gwbl ymrwymedig i'r weledigaeth hon o gael BBC o faint a chwmpas am oes y Siarter nesaf, pryd defnyddir ffi'r drwydded fel cyfalaf mentro ar gyfer creadigrwydd y genedl.

8.1.3 Yr un pryd, amlinellwyd yn y Papur Gwyrdd yr egwyddor y dylai'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded elwa o'r cynnwys gorau sydd ar gael - rhaglenni teledu a radio a chynnwys cyfryngau newydd - beth bynnag fo'r ffynhonnell. Mae'r BBC yn falch o fod ag enw da am ei raglenni rhagorol ei hun, sy'n aml yn gosod y safon ar gyfer eu cyfnod ac yn eu maes: o gyfresi sebon poblogaidd dros ben fel *Eastenders*, rhaglenni ffeithiol pwysig fel *Panorama* a *Horizon*, i gomedi arloesol fel y *Young Ones* a *Little Britain*. Mae'r BBC hefyd wedi creu rhaglenni gwych ar y cyd ag eraill: mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys *Life in the Undergrowth* a *Bleak House*. Mae llawer o'r cynnwys mwyaf arloesol a phoblogaidd wedi'i gomisiynu gan gynhyrchwyr o'r tu allan i'r BBC: *Spooks*, *Who Do You Think You Are?*, *The Apprentice* a *Have I Got News for You* i enwi dim ond rhai.

8.2 Cynyrchiadau teledu annibynnol

8.2.1 Yn y Papur Gwyrdd, amlinellwyd egwyddor glir gennym bod angen i'r BBC gynnal sylfaen sylweddol o gynyrchiadau mewnol i gynnal ei gyfraniad cyhoeddus ehangach. Ond os dymuna ddarlledu ei raglen orau ym mhob slot, a defnyddio'r adnoddau sydd ar gael drwy'r diwydiant yn y modd mwyaf effeithiol, mae gan y BBC gyfrifoldeb i fabwysiadu'r broses gomisiynu fwyaf meritocrataidd bosibl.

8.2.2 Yn y Papur Gwyrdd disgrifiwyd gwahanol opsiynau oedd ar gael i gyflawni'r nod polisi eang hwn. Roedd y rhain yn cynnwys mesurau fel addasu cwotâu cynyrchiadau annibynnol, neu newid y ffordd y mesurir hwy. Roeddent hefyd yn cynnwys cynnig y BBC i gael "ffenestr o gystadleuaeth greadigol", neu WOCC, fyddai'n golygu y byddai cyfran ychwanegol o rwydwaith comisiynu'r BBC yn agored i gystadleuaeth gan gynhyrchwyr allanol.

8.2.3 Derbyniwyd sylwadau amrywiol ar y mater hwn. Ym marn y Cynghrair Cynhyrchwyr ar gyfer Sinema a Theledu (PACT), y corff masnachol ar gyfer cynhyrchwyr annibynnol, roedd y WOCC yn "gam pwysig ymlaen tuag at nod y BBC o fuddsoddi yn y syniadau gorau a'r dalent orau, boed hwy o'r tu mewn neu'r tu allan i'r BBC". Roedd Pwyllgor Dethol arbennig Tŷ'r Arglwyddi ar yr Adolygiad Siarter hefyd yn cefnogi'r WOCC, ar yr amod y câi ei fonitro'n

ofalus gan yr Ymddiriedolaeth[7]. Yn ei adolygiad o ddogfen ymgynghorol y sector cynhyrchwyr teledu[8], cadarnhaodd Ofcom y WOCC mewn egwyddor. Roedd eraill yn pwysleisio pwysigrwydd cynnal màs critigol o gynyrchiadau mewnol.

8.2.4 Fel y dywedom yn y Papur Gwyrdd, mae'r system bresennol o gwotâu ar gyfer cynyrchiadau teledu annibynnol wedi helpu i adeiladu sector sy'n ffynnu. Bydd ein trefniadau'n cwrdd â hyn mewn modd hyblyg, gan gynnwys unrhyw newidiadau yn y dyfodol yn lefel y cwota. Ond mae'r Llywodraeth yn credu mai'r ffordd orau i sicrhau bod y rhaglenni gorau'n cyrraedd y sgrîn yw annog cystadleuaeth drwy gyflwyno'r WOCC, a chyplysu hyn â chapasiti cynhyrchu mewnol cryf, er mwyn cefnogi mas critigol o gynyrchiadau mewnol ar lefelau priodol ar gyfer genres unigol. Byddai hyn hefyd yn helpu i ddatblygu a chynnal darparwyr cynnwys lluosog fyddai o fudd i'r BBC, i'r farchnad ehangach a'r DU yn gyffredinol. Mae'r egwyddorion fydd yn llywodraethu'r modd y gweithredu'r WOCC wedi'u nodi isod yn y blwch.

Egwyddorion y WOCC

Neilltuir cyfran sylweddol o gomisiynau – digon i sicrhau faint y mae'r BBC ei angen i sicrhau ei gyfraniad ehangach i wasanaeth cyhoeddus – ar gyfer cynyrchiadau mewnol. Pennir lefel y "sicrwydd mewnol" hwn ar gyfradd o 50%.

Hefyd bydd "sicrwydd indie": y gyfran o gomisiynau a gynigir yn unig i gwmnïau cynhyrchu annibynnol, naill ai'n uniongyrchol neu i gystadlu amdanynt o fewn y sector annibynnol. Pennir hyn ar lefel y cwota presennol ar gyfer cynyrchiadau annibynnol (25% ar hyn o bryd) - ond gall newid os bydd y cwota'n newid.

Mae'r WOCC yn cynrychioli comisiynau a gynigir ar gyfer cystadlaethau sy'n agored i bawb: cynyrchiadau mewnol y BBC, cynhyrchwyr annibynnol a chynhyrchwyr allanol eraill. Bydd y BBC yn ceisio sicrhau bod y WOCC a'r sicrwydd indie yn cyfateb i 50% o'r holl gomisiynau, wrth fesur yn ôl oriau.

8.2.5 Bydd yr Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod y broses gomisiynu a swyddogaethau cynhyrchu'r Bwrdd Gweithredol ar wahân, a bod mynediad cyfartal i'r strwythurau comisiynu, a thriniaeth deg yn y broses, i gynhyrchwyr mewnol, annibynnol a chynhyrchwyr eraill.

8.2.6 Bydd yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth adolygu perfformiad y WOCC yn rheolaidd. Drwy wneud hyn bydd yn dilyn yr egwyddor y dylai'r WOCC sicrhau dewis ac amrywiaeth, gan ddarparu cyfle gwirioneddol i bob math o gynhyrchwr annibynnol (yn ogystal â'r BBC ei hun) o bob rhan o'r DU ac ar draws sawl gwahanol allbwn. Wrth wneud hyn, gall fanteisio ar ddata ac arbenigedd allanol, yn cynnwys yr arbenigedd a'r data a gasglwyd gan Ofcom yn ei rôl mewn perthynas â'r cwotâu perthnasol, gan ystyried cynnwys polisi ehangach.

[7] *The Review of the BBC's Royal Charter*, Cyfrol 1: Adroddiad Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Adolygiad Siarter y BBC, para.267
[8] Ofcom: *Review of the television production sector: a consultation document* 10 Ionawr 2006 www.ofcom.org.uk

8.3 Cynyrchiadau radio annibynnol

8.3.1 Roedd y Papur Gwyrdd yn gofyn am sylwadau'n benodol ynghylch a oedd trefniadau presennol y BBC ar gyfer cynyrchiadau radio annibynnol yn ddigonol ai peidio, neu a oedd lle i gynyddu'r cwota gwirfoddol neu ei wneud yn fandadol. Roedd y sylwadau a dderbyniwyd ar y pwynt hwn yn rhanedig: roedd cynhyrchwyr radio annibynnol yn dadlau'n gryf am gwota gorfodol, yn cynnwys holl allbwn radio'r BBC, ac yn y pen draw wedi'i osod ar yr un lefel ag ar gyfer cynyrchiadau teledu annibynnol. Roedd sylwadau PACT yn debyg. Ond roedd nifer o rai eraill yn ystyried bod y cwota gwirfoddol o10% yn ddigonol, er bod galw am gadw hyn dan ystyriaeth.

8.3.2 Y man cychwyn ar gyfer polisi'r Llywodraeth yw y dylai'r nod ar gyfer radio fod yr un fath ag ar gyfer teledu: sicrhau'r cynnwys gorau posibl ar gyfer y gynulleidfa, drwy'r gymysgedd iawn o gystadleuaeth ar gyfer syniadau a'r gallu mewnol i gynhyrchu rhaglenni. Ond fel y nodwyd yn y Papur Gwyrdd, mae'r ddwy farchnad hon yn wahanol iawn. Mae'r BBC yn llawer pwysicach fel comisiynydd yn y sector radio hyd yn oed nag ydyw ym marchnad teledu annibynnol, er y gallai hyn newid wrth i boblogrwydd DAB gynyddu, ynghyd ag amlder ac amrywiaeth gorsafoedd radio ar gael i'r gwrandäwr. Hefyd mae'r BBC wedi mynd dros ei gwota radio'n gyson ers iddo gael ei gyflwyno. Mae dadl gref, felly, na fyddai fawr o ddiben gwneud y cwota gwirfoddol yn un gorfodol - yn wir, fe allai beidio â chymell y BBC i greu partneriaethau gyda'r sector. Ond rydym yn credu ei fod yn bwysig, lle bo'n bosibl, y dylid annog cystadlu am ansawdd er mwyn sicrhau'r rhaglenni gorau i wrandawyr.

Cynhyrchwyr radio annibynnol a'r BBC

Am nifer o flynyddoedd mae'r BBC wedi gweithredu cwota gwirfoddol o 10% ar gyfer cynyrchiadau radio annibynnol ar draws nifer o genres cymwys. Mae wedi mynd dros y cwota hwnnw'n gyson - er enghraifft, yn 2003/04, roedd tua 12% o "oriau cymwys" yn cael eu darparu gan gynhyrchwyr annibynnol, gyda chyfanswm gwerth o oddeutu £12.9m.

Fel y nodwyd gennym yn y Papur Gwyrdd, mae'r BBC wedi penderfynu ehangu'r rhaglenni sy'n cael eu cynnwys gan y cwota - "yr oriau cymwys" - i gynnwys chwaraeon, radio yn y Cenhedloedd a'r gorsafoedd radio digidol newydd, fel bydd 3,000 awr yn ychwanegol o gynyrchiadau annibynnol yn flynyddol. Rydym yn croesawu'r datblygiad hwn, a'r telerau masnachu newydd ar gyfer gynhyrchwyr radio annibynnol a gyhoeddwyd yn Awst 2005.

8.3.3 Felly byddwn yn ei gwneud yn ddyletswydd gyffredinol ar yr Ymddiriedolaeth i sicrhau bod cynhyrchwyr radio annibynnol yn cael y cyfle i gyfrannu'n llawn at ddarpariaeth y BBC o'r rhaglenni gorau posibl i wrandawyr.

8.3.4 Er mwyn cwrdd â'r ymrwymiad cyffredinol hwn, mae'n fwy na thebyg y bydd yr Ymddiriedolaeth am barhau i bennu cwota gwirfoddol ar y lefel bresennol o leiaf. Hefyd bydd am ystyried ffyrdd eraill o gynyddu cyfleoedd. Yn y cyd-destun hwn, rydym yn croesawu ymrwymiad y BBC i weithredu "ffenestr o gystadleuaeth greadigol" ar gyfer Radio 4, gan ddisgwyl y bydd yn canfod mwy o gyfleoedd yn y dyfodol. Bydd yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth adolygu'r sefyllfa. Rydym hefyd yn croesawu oriau cymwys estynedig y BBC i gynnwys chwaraeon, radio yn y rhanbarthau a'r gorsafoedd radio digidol newydd.

Efallai y bydd am weld estyniadau pellach yn ystod oes y Siarter nesaf, gan adlewyrchu ei ymrwymiad cyffredinol.

8.4 Cynyrchiadau annibynnol ar gyfer BBC Ar-lein

8.4.1 Fel yr adroddwyd gennym yn y Papur Gwyrdd, mae'r BBC wedi mabwysiadu argymhelliad[9] Philip Graf y dylai 25% o gynnwys BBC Ar-lein gael ei gynhyrchu'n allanol. Yn unol â hynny, pennwyd cwota o 25%, wedi'i fesur yn ôl gwariant. Cefnogwyd y mesur hwn hefyd gan Bwyllgor Dethol arbennig Tŷ'r Arglwyddi ar adolygiad y Siarter[10].

8.4.2 Ychydig iawn o sylwadau a gafwyd am y maes hwn yn yr ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd. Ond byddwn yn sicrhau y bydd egwyddorion tebyg yn cael eu mabwysiadu ar gyfer cynnwys ar-lein ag ar gyfer radio: lle bo'n bosibl, dylid annog cystadleuaeth gan ei fod yn debygol o sicrhau'r cynnwys gorau i gynulleidfaoedd. Dylai o leiaf gynnwys cwota annibynnol ar gyfer cynyrchiadau annibynnol.

8.5 Hyfforddiant

8.5.1 Fel yr amlinellwyd yn y Papur Gwyrdd, bydd y Siarter a'r Cytundeb yn sicrhau bod y BBC yn parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant ar raddfa sylweddol. Bydd hyn yn rhan allweddol o gyfraniad y BBC i ansawdd cynhyrchu. Bydd angen i'r BBC ddatblygu ei strategaeth hyfforddiant yn unol â'r oblygiadau newydd a osodir arno gan y Siarter a'r Cytundeb, yn enwedig gweithredu system WOCC ar gyfer cynyrchiadau teledu annibynnol, a phwysigrwydd cynyddol cyfryngau newydd i gyflawni ei ddibenion cyhoeddus.

8.5.2 Y BBC yw'r cyflogwr mwyaf yn ein diwydiannau clyweled. Drwy baratoi a chynnal gweithlu â sgiliau o safon uchel yn y cyfryngau felly, bydd strategaeth hyfforddi'r BBC yn gwneud cyfraniad sylweddol i'w ddiben cyhoeddus newydd o symbylu creadigrwydd. Mae hyfforddiant mewn nifer o sgiliau y gellir eu trosglwyddo'n hanfodol os ydym am sicrhau ffyniant ein diwydiannau creadigol. Bydd cyfraniad y BBC yn cefnogi creadigrwydd a chynhyrchiant drwy'r diwydiant ac yn datblygu sgiliau drwy holl gymunedau'r DU. Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd yn dangos bod cefnogaeth eang i rôl y BBC fel y disgrifiwyd hi.

8.5.3 Ymddiriedolaeth y BBC ddylai sicrhau bod buddsoddiad y BBC a'u strategaeth ar gyfer hyfforddiant a sgiliau'n datblygu dros amser i gyfateb i anghenion y BBC a'r diwydiant ehangach, gan fanteisio ar adolygiadau arbenigol o bryd i'w gilydd fel bo angen.

8.5.4 Mewn blynyddoedd diweddar datblygwyd Strategaethau Sgiliau Cenedlaethol ledled y DU er mwyn cynnal economi cystadleuol, cynhyrchiol, gyda Chynghorau Sgiliau Sector wrth eu craidd. Skillset yw'r Cyngor Sgiliau Sector DU-eang, sy'n cael ei arwain gan ddiwydiant a'i drwyddedu gan y Llywodraeth, ar gyfer y diwydiannau clyweled. Mae'r Llywodraeth yn croesawu ymrwymiad presennol y BBC i Skillset ac mae am weld datblygiad strategol pellach ym mholisi hyfforddiant a sgiliau ar gyfer y diwydiant ehangach a chyfraniad teilwng i raglen sgiliau'r DU wedi'i datblygu gyda hwy a thrwyddynt. Mae'r Llywodraeth yn croesawu penderfyniad y BBC i gymryd rhan yn ogystal â chefnogi'r cam o ddatblygu Rheolydd Hyfforddiant a Sgiliau Darlledu newydd a system gyd-reoleiddio mewn partneriaeth ag Ofcom, Skillset a gweddill y diwydiant darlledu, yn ogystal â chynyddu ei ymrwymiad, drwy'r strwythur newydd hwn, i hyfforddiant annibynnol.

[9] Adroddiad Adolygiad Annibynnol BBC Ar-lein, Mai 2004

[10] *The Review of the BBC's Royal Charter*, Cyfrol 1: Adroddiad Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Adolygiad Siarter y BBC, para.276

Parchu

Mae'r Llywodraeth yn croesawu'r cytundeb gan y BBC a darlledwyr eraill i ddarparu cyfleoedd mentora a phrofiad gwaith i bobl ifanc fel rhan o raglen Parchu y Llywodraeth.

8.6 Ymchwil

8.6.1 Mae'r Llywodraeth yn parhau i fod o'r farn fel y nodir yn y sylwadau a nodir yn y Papur Gwyrdd, bod gan y BBC rôl allweddol i'w chwarae fel "canolfan ragoriaeth" ar gyfer yr holl ddiwydiant darlledu. Dylai allu gwneud ymchwil arloesol gyda'r rhyddid a sicrheir gan arian cyhoeddus, nad yw bob amser ar gael i gwmnïau a gyllidir gan y farchnad ac a ogwyddir gan y farchnad. Hefyd dylai allu dylanwadu ar wneud polisïau a safonau ar lefelau cenedlaethol a rhyngwladol, gan gydymffurfio â rheolau ar gymorth gwladwriaethol.

8.6.2 Mae'r Llywodraeth yn disgwyl i'r BBC adeiladu ar y llwyddiannau hyn yn y gorffennol a chynnal ei safle fel corfforaeth sy'n cymryd-risg ac yn arwain yn y byd yn y maes hwn - yn arbennig wrth iddo gyflawni ei ddiben newydd o Datblygu Prydain Ddigidol, yn cynnwys drwy ei rôl arweiniol yn y newid trosodd i ddigidol. Roedd Pwyllgor Dethol arbennig Tŷ'r Arglwyddi ar adolygu'r Siarter yn cytuno gyda'r cynnig hwn[11].

8.6.3 Mae sefyllfa unigryw y BBC hefyd yn golygu y bydd mewn sefyllfa i wrthsefyll dylanwad technoleg perchenogol trwy ddatblygu dewisiadau safonol agored eraill, yn ogystal â gallu pontio methiannau'r farchnad wrth ddatblygu a defnyddio systemau newydd yn yr amgylchedd darlledu.

8.6.4 Dan y Siarter newydd, bydd angen i'r Ymddiriedolaeth ystyried sut i fanteisio i'r eithaf ar werth cyhoeddus fydd yn deillio o ymchwil a gweithgareddau datblygu'r BBC. Bydd angen iddo sicrhau y bydd cydbwysedd priodol rhwng y posibilrwydd i greu refeniw drwy fanteisio'n fasnachol ar eiddo deallusol y BBC, a'r gwerth posibl i dalwyr ffi'r drwydded ac economi'r DU drwy sicrhau bod datblygiadau newydd ar gael yn eang ac yn agored.

8.6.5 Rydym yn croesawu'r gwaith mae'r BBC yn ei wneud fel rhan o'i Adolygiad Technoleg, yn arbennig ei gynlluniau i ganolbwyntio ei ymchwil a'i ddatblygiad yn fwy penodol ar y meysydd hynny na all y farchnad eu darparu, lle gorfodir y BBC i ddefnyddio systemau perchenogol er y byddai talwyr ffi'r drwydded yn cael gwell gwerth am arian drwy ddatblygu a defnyddio safonau agored, neu lle mae'r BBC yn y sefyllfa orau i arwain a datblygu'r farchnad - yn cynnwys gweithio'n fwy clòs gyda phartneriaid lle bo'n bosibl.

8.7 Cynyrchiadau Rhanbarthol

8.7.1 Yn y Papur Gwyrdd, amlinellodd y Llywodraeth ei farn y dylai'r BBC sicrhau bod ei gyfraniad i gynyrchiadau'r DU yn hybu datblygiad economaidd y DU y tu hwnt i Lundain. Mae canolfannau cynhyrchu llewyrchus yn dod â swyddi a refeniw i'w hardaloedd a phan geir màs critigol o weithgaredd, maent yn hybu twf diwydiannau creadigol eraill, gyda'r potensial i sicrhau manteision ar-sgrîn i'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded.

[11] *The Review of the BBC's Royal Charter*, Cyfrol 1: Adroddiad Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Adolygiad Siarter y BBC, para.209

8.7.2 Am y rheswm hwn, ailadroddwn ein bod yn croesawu mewn egwyddor gynigion y BBC i symud màs critigol o gynhyrchiadau i ddinasoedd y tu allan i Lundain, yn arbennig i Ogledd Orllewin Lloegr. Mae'n fodd pwerus posibl o ymestyn diben cynrychioliadol y BBC. Hefyd mae'r potensial i symbylu llawer ar y diwydiant cyfryngol rhanbarthol, gyda manteision i'r economi ehangach. Ond mae'n glir, y bydd angen i'r Ymddiriedolaeth fodloni ei hun bod y cynlluniau'n rhoi gwerth am arian ar ran talwyr ffi'r drwydded. Fel y nodwyd gennym yn y Papur Gwyrdd, wrth wneud penderfyniadau yn y maes hwn, dylid eu seilio ar rai o'r prif egwyddorion, sef effeithlonrwydd a gwerth am arian. Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth fodloni ei hun bod cynigion presennol y BBC yn cynnig y ffordd fwyaf cost-effeithiol o gyflawni amcanion symbylu diwydiannau creadigol y tu allan i Lundain, a rhoi ffocws mwy DU-eang i'r BBC.

8.7.3 Hefyd bydd y BBC am edrych ar y posibilrwydd o fanteisio i'r eithaf ar bartneriaethau yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau, yn arbennig gydag ITV a chyrff cydlynu lleol fel yr Asiantaethau Datblygu Rhanbarthol, gan geisio sicrhau bod y gost cyn lleied â phosibl i dalwr ffi'r drwydded.

9. Ymddiriedolaeth y BBC a'r Bwrdd Gweithredol

9.1.1 Pobl Prydain sy'n berchen ar y BBC. Maent wedi buddsoddi drwy ffi'r drwydded mewn darlledwr sydd wedi datblygu'n un y gellir ymddiried ynddo ac un a berchir. Mae'r Llywodraeth yn credu mai'r system orau i lywodraethu'r BBC yw un sy'n cydnabod y berthynas unigryw hon rhwng y BBC a'r cyhoedd. Bydd Ymddiriedolaeth newydd y BBC yn cynrychioli buddiannau talwyr ffi'r drwydded yn fwy eglur na'r Bwrdd Llywodraethwyr presennol a bydd y system newydd yn fwy tryloyw, yn annibynnol ar y Llywodraeth ac yn edrych fwy tuag allan. Bydd yn gwahaniaethu'n glir rhwng rolau deublyg presennol y Bwrdd Llywodraethwyr, rolau sydd weithiau'n gwrthdaro wrth gynrychioli budd y cyhoedd a rheolaeth y BBC.

9.1.2 Talwyr ffi'r drwydded yw rhanddeiliaid y BBC. Ni allant fynegi eu barn yn uniongyrchol drwy werthu eu cyfranddaliadau na thrwy bleidleisio i gael gwared o'r bwrdd - felly mae angen i'w diddordebau gael eu cynrychioli gan gorff, a diben y corff hwnnw yw deall, canfod ac adlewyrchu budd y cyhoedd ar weithgareddau'r BBC. Y corff hwn fydd Ymddiriedolaeth y BBC. Ei waith fydd gwarchod buddiannau talwyr ffi'r drwydded, nid y rhai sy'n ymwneud â rheolaeth y BBC.

Egwyddorion llywodraethu da

Mae'r model newydd yn cefnogi'r egwyddorion hyn oherwydd:

- Mae wedi'i seilio'n ddigamsyniol ym muddiannau'r cyhoedd;
- Mae'n briodol i sefydliad sydd wedi'i adeiladu ar greadigrwydd;
- Mae'n cryfhau ac yn gwarchod annibyniaeth y BBC;
- Mae'n wirioneddol agored, tryloyw a gwrthrychol;
- Mae'n sicrhau atebolrwydd priodol am arian y cyhoedd;
- Mae'n ennyn hyder y cyhoedd, ac yn cynnwys y cyhoedd yn ddigonol mewn gwneud penderfyniadau;
- Mae'n darparu diogelwch addas i'r rhai y tu allan i'r gorfforaeth y gallai gweithgareddau'r BBC effeithio arnynt (yn bennaf, er nad yn unig, y rhai'n cystadlu yn ei erbyn yn y sector preifat);
- Wrth gynnal asesiadau effaith, mae'n defnyddio meini prawf sy'n fodd i gymharu'n uniongyrchol â gweddill y farchnad ddarlledu;
- Mae'n eglur ynghylch y gwahaniaeth rhwng llywodraethu a rheoleiddio ac mae ganddo strwythurau i gefnogi'r ddau;
- Mae'n eglur ynghylch rolau perthnasol Gweithwyr Gweithredol a rhai Anweithredol ac mae'n cynnwys hyn mewn dulliau gweithio;
- Mae'n cynnwys mecanweithiau addas ar gyfer archwilio, cwyno etc.

9.1.3 Bu i ni amlinellu yn y Papur Gwyrdd pam bod angen diwygio'r system bresennol, a'n hegwyddorion arweiniol, fel y datblygwyd hwy gan y panel annibynnol ar Adolygiad y Siarter dan arweiniad yr Arglwydd Burns[12] (gweler y blwch). Edrychom ar opsiynau a gynigiwyd gan y panel, gan y BBC a rhanddeiliaid eraill. Daethom i'r casgliad mai'r ffordd orau i ddatrys y gwrthdaro yn y system bresennol oedd cael gwared ar y Bwrdd Llywodraethwyr a chael dau gorff newydd yn ei le: Ymddiriedolaeth y BBC a'r Bwrdd Gweithredol. Bydd gan bob un ohonynt rolau a chyfrifoldebau gwahanol, wedi'u hamlinellu yn y Siarter a'r Cytundeb newydd.

> *"Rwy'n credu eich bod yn methu'r pwynt drwy awgrymu y gallwch chi fabwysiadau'r cod cyfun a'i orfodi ar Fwrdd Ymddiriedolaeth GIG neu'r BBC"*
>
> Syr Derek Higgs

9.1.4 Mae'r trefniadau newydd yn ystyried y Cod Cyfun ar Lywodraethu Corfforaethol[13], ond maent yn benodol i'r BBC. Mae hyn yn gyson â thystiolaeth[14] a roddwyd i Bwyllgor Dethol arbennig Tŷ'r Arglwyddi gan Syr Derek Higgs. Cyfrannodd ei adroddiad ar lywodraethu corfforaethol yn helaeth at y Cod.

9.1.5 Roedd cefnogaeth gyhoeddus helaeth mewn egwyddor i'n cynigion, ac rydym yn ei gadarnhau fel ein model i'r dyfodol. Ond roedd galw eang am fwy o eglurhad ac eglurder ynglŷn â'r strwythur newydd a rolau'r Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol. Dyma a wneir yn yr adrannau canlynol.

Pwy fydd y BBC?

9.1.6 Dan y Siarter newydd, bydd yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol yn rhan ffurfiol o'r BBC. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith y bydd dau wahanol gorff gyda rolau pwysig yn y BBC. Ond bydd y Siarter hefyd yn egluro bod eu cyfryw gyfrifoldebau yn wahanol iawn. Bydd yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau ar wahân, ond rhyngddynt, fe fyddant yn gyfrifol am bopeth y bydd y BBC yn ei wneud.

9.1.7 Yr Ymddiriedolaeth fydd corff sofran y BBC ac eglurir hyn yn y Siarter newydd. Yn syml, mae hyn yn golygu mai'r Ymddiriedolaeth fydd â'r gair olaf os bydd yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol yn anghytuno. Nid yw'n golygu y gall yr Ymddiriedolaeth arfer swyddogaethau'r Bwrdd Gweithredol ei hun.

9.2 Gwahanu'r Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol

9.2.1 Nod y system newydd yw cryfhau annibyniaeth y BBC ar y Llywodraeth. Bydd yn creu llinell atebolrwydd newydd - o'r Ymddiriedolaeth newydd yn uniongyrchol at dalwr ffi'r drwydded. Atgyfnerthir yr atebolrwydd newydd hwn drwy wahanu clir rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol, ynghyd â gofynion digynsail o safbwynt bod yn agored a thryloyw. Bydd

[12] *Emerging themes* Rhagfyr 2004 http://www.bbccharterreview.org.uk/pdf_documents/041130_emerging_themes.pdf

[13] Y Cod Cyfun ar Lywodraethu Corfforaethol, Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, Gorffennaf 2003

[14] Cofnodion Tystiolaeth i Bwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar Adolygiad o Siarter y BBC, 5 Gorffennaf 2005, Dr, Dieter Helm, Syr Derek Higgs a Syr Robert Phillis, Syr John Bourn, Cwestiynau 1263-1349. Gweler p. 3.

hyn yn helpu i gael gwared ar y gwrthdaro posibl rhwng buddiannau sy'n rhan annatod o rôl y Llywodraethwyr presennol fel hyrwyddwyr a beirniaid o ran rheolaeth y BBC.

9.2.2 Cyflawnir y gwahanu clir hwn drwy rolau penodol a gwahanol yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol, a gynhwysir yn y Siarter a'r Cytundeb newydd. Bydd y system newydd yn sicrhau bod gweithgareddau'r Bwrdd yn cael eu goruchwylio'n effeithiol gan yr Ymddiriedolaeth, er budd y cyhoedd; ac ar yr un pryd, bydd yn atal rheolaeth fanwl o weithgareddau'r Bwrdd Gweithredol gan yr Ymddiriedolaeth mewn modd a fyddai'n tynnu oddi wrth rôl strategol yr Ymddiriedolaeth.

Beth sydd mewn enw?

Yn y Papur Gwyrdd, eglurwyd mai teitl gweithio yw '**Ymddiriedolaeth y BBC**'.

Ond ers i'r Papur Gwyrdd gael ei gyhoeddi, mae pobl y tu mewn a'r tu allan i'r BBC wedi derbyn y teitl ac wedi dod i arfer ag ef.

Nid yw Ymddiriedolaeth y BBC yn 'Ymddiriedolaeth' yn yr ystyr gyfreithiol. Nid yw ei haelodau yn ymddiriedolwyr unrhyw eiddo. Ond mae'r teitl yn dynodi'n gywir rôl y corff fel un sy'n gwarchod budd y cyhoedd, sy'n bwysig.

Bydd y **Bwrdd Gweithredol** newydd yn cynnwys aelodau Anweithredol. Ond credwn ei fod yn gwneud synnwyr i gadw'r teitl, gan ei fod yn cyfleu dyletswydd y Bwrdd i weithredu'r strategaeth a bennwyd a'r penderfyniadau a wnaed gan yr Ymddiriedolaeth.

9.2.3 Amlinellir cyfryw rolau allweddol y cyrff newydd yn fanylach yn Atodiad 1.

9.3 Yr Ymddiriedolaeth

Aelodau'r Ymddiriedolaeth

9.3.1 O ystyried yr ystod o gyfrifoldebau sydd gan yr Ymddiriedolaeth newydd, rydym wedi penderfynu y bydd Cadeirydd, Is-gadeirydd a deg aelod arall. Penodir aelodau dan Orchymyn y Cyfrin-Gyngor, sy'n golygu y penodir hwy, fel y Llywodraethwyr presennol, gan y Goron yn ôl cyngor y Llywodraeth. Hysbysebir pob sedd newydd a'i llenwi'n unol â gweithdrefnau Nolan. Penodir aelodau'r Ymddiriedolaeth am ddim mwy na 5 mlynedd, a gellir eu hail-benodi am dymor ychwanegol, yn unol ag arfer gorau mewn penodiadau cyhoeddus.

Sgiliau, profiad a chynrychiolaeth

9.3.2 Mae dau ffactor pwysig am aelodaeth yr Ymddiriedolaeth: yn gyntaf, pa sgiliau ac arbenigedd ddylai'r aelodau feddu arnynt, ac yn ail, i ba raddau y dylai geisio cynrychioli cymunedau neu grwpiau penodol?

9.3.3 Roedd ein hymgynghoriad cyhoeddus a'n hymchwil[15] yn dangos cefnogaeth i gynnig y Papur Gwyrdd, sef y dylai aelodau Ymddiriedolaeth y BBC ddod o wahanol gefndiroedd a meddu ar wahanol brofiad proffesiynol. Awgrymodd nifer o ymatebwyr nodweddion eraill y dylid eu cynrychioli ar yr Ymddiriedolaeth, o frwdfrydedd dros wylio'r teledu a gwrando ar y radio i brofiad o redeg sefydliad mawr heb fod yn gysylltiedig â'r cyfryngau. Ond y nodwedd a awgrymwyd fwyaf aml gan ymatebwyr oedd 'synnwyr cyffredin'.

9.3.4 Mae sylwadau mwy amrywiol fyth ynghylch i ba raddau y dylai'r Ymddiriedolaeth gynrychioli poblogaeth y DU. Derbyniwyd nifer o awgrymiadau gan wahanol sefydliadau a grwpiau diddordeb yn awgrymu y dylent gael eu cynrychioli'n uniongyrchol ar yr Ymddiriedolaeth - y dylent gael eu haelodau eu hunain. Cadarnhaodd ein hymgynghoriad cyhoeddus a'n hymchwil[16] farn y Llywodraeth nad yw ceisio gwneud yr Ymddiriedolaeth yn gorff cynrychioliadol uniongyrchol yn angenrheidiol nac yn ymarferol.

9.3.5 Mae un eithriad i'r rheol gyffredinol hon, fodd bynnag. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys aelodau unigol yn benodol ar gyfer buddiannau pob un o gyd genhedloedd y DU - Lloegr[17], yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon. Rydym wedi cynnwys yr eithriad hwn yn sgil sylwadau amlwg iawn o'r ymgynghoriad cyhoeddus o blaid y cynnig. Ond penodir yr aelodau hyn hyd yn oed ar sail eu harbenigedd ehangach. Nod y Llywodraeth fydd penodi'r bobl orau i'r Ymddiriedolaeth - y rhai sy'n fwyaf abl i gyflawni ei dyletswyddau heriol - waeth beth fo'u rhyw a'u tarddiad ethnig neu genedl. Hefyd byddem yn disgwyl i gyfansoddiad yr Ymddiriedolaeth adlewyrchu'n gryf pa mor berthnasol yw'r BBC i'r genedl gyfan.

9.3.6 Bydd angen i'r Ymddiriedolaeth allu sicrhau budd y cyhoedd yn y BBC a sicrhau bod y Bwrdd Gweithredol yn atebol. Bydd angen pobl â'r arbenigedd priodol, gan gynnwys yn y diwydiannau darlledu a'r cyfryngau (gan gynnwys y cyfryngau newydd); cystadleuaeth; agweddau ariannol, cyfreithiol, corfforaethol neu reoleiddiol o redeg sefydliadau mawr; rheoli portffolio eiddo mawr; arbenigedd yn y meysydd a gynhwysir gan ddibenion cyhoeddus y BBC, gan gynnwys materion rhyngwladol; ac wrth sicrhau atebolrwydd y sefydliadau hynny i'w rhanddeiliaid.

Rhedeg yr Ymddiriedolaeth

9.3.7 Yr Ymddiriedolaeth fydd yn gyfrifol am ei staff cefnogi dynodedig ei hun. Bydd ganddi fynediad at ei chyngor cyfreithiol ei hun yn ogystal ac at arbenigedd allanol. Mae'r Llywodraethwyr presennol eisoes wedi cymryd camau i'r cyfeiriad hwn drwy sefydlu eu "Huned Lywodraethu" eu hunain a symud i bencadlys ar wahân. Bydd yr Ymddiriedolaeth angen ei hadnoddau ei hun i gyflawni ei rôl arolygu strategol ei hun yn effeithiol - ond, o ran cwrdd â'i chostau, bydd yn defnyddio'r un disgyblaethau economi ag ddefnyddir gyda'r BBC yn ehangach.

[15] Adroddiad Diwygiedig ar Adolygiad Siarter y BBC, Opinion Leader Research, Tachwedd 2005, 22.
[16] Adroddiad Diwygiedig ar Adolygu Siarter y BBC, Opinion Leader Research, Tachwedd 2005, 23
[17] Byddem yn disgwyl i aelod Ymddiriedolaeth Lloegr gael cyfrifoldeb arbennig er mwyn sicrhau bod pob un o Ranbarthau Lloegr wedi'u cynrychioli yng ngwasanaethau'r BBC, a'u bod yn cyfrannu atynt

Tâl

Aelodau'r Ymddiriedolaeth

Bydd lefel tâl i aelodau'r Ymddiriedolaeth yn cael ei bennu gan yr Ysgrifennydd Gwladol i gyfateb i gyfrifoldebau'r swydd a'r sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol. Dylid pennu cyfraddau tâl ar gyfer y swyddi hyn ar lefel tebyg i aelodau bwrdd Ofcom.

Er bydd aelodau'r Ymddiriedolaeth yn debygol o fod yn rhan amser, mae'r ymrwymiad angenrheidiol o ran amser yn debygol o fod yn llawer mwy na'r hyn yw i'r Llywodraethwyr presennol.

Bwrdd Gweithredol

Telir tâl safonol, a benderfynir gan yr Ymddiriedolaeth i aelodau Anweithredol , a bydd yr Ymddiriedolaeth yn pennu'r tâl ar gyfer Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn sefydlu paramedrau bras ar gyfer gweddill y Bwrdd Gweithredol - er enghraifft, pennu terfyn ar gyfanswm y gyllideb tâl a sicrhau bonwsau sy'n adlewyrchu perfformiad a disgwyliadau talwyr ffi'r drwydded. Bydd pwyllgor cyflog y Bwrdd Gweithredol - fydd yn cynnwys aelodau Anweithredol yn unig - yn pennu lefelau tâl unigol o fewn y paramedrau bras hynny.

9.3.8 Dan amgylchiadau arferol, rhaid i'r Ymddiriedolaeth gyfarfod i drafod ei busnes, ond bydd yn gallu penderfynu drosto'i hun lle, pryd a pha mor aml y bydd yn cyfarfod - er y byddem yn disgwyl iddi barhau â'r arfer presennol o gynnal rhai cyfarfodydd y tu allan i Lundain, a darparu cyfleoedd i'r cyhoedd gyfrannu sylwadau - a allai gynnwys cynnal cyfarfodydd cyhoeddus o bryd i'w gilydd. Bydd yn cyhoeddi ei threfniadau ar gyfer trafod busnes.

9.4 Y Bwrdd Gweithredol

9.4.1 Bydd y Bwrdd Gweithredol yn cynnwys uwch Weithredwyr yn bennaf, ond gyda lleiafrif sylweddol o aelodau Anweithredol. Y Cyfarwyddwr Cyffredinol fydd y cadeirydd neu aelod Anweithredol, ar ddisgresiwn yr Ymddiriedolaeth.

Gweithwyr Anweithredol

9.4.2 Bydd o leiaf draean o'r Bwrdd Gweithredol, a dim llai na phedwar, yn aelodau Anweithredol. Prif swydd yr aelodau Anweithredol fydd dod â phersbectif ehangach i benderfyniadau'r Bwrdd Gweithredol, gan weithredu fel "cyfaill beirniadol". Ni fyddant yno i gynrychioli "rhanddeiliaid" y BBC: swyddogaeth bwysig yr Ymddiriedolaeth ei hun fydd honno. Yn hytrach, byddant yn rhoi'r un math o gefnogaeth ag a ddarperir ar hyn o bryd gan y Llywodraethwyr - ond a fyddai wedi'i golli fel arall wrth i'r Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol ymwahanu. Bydd cyfle i aelodau Anweithredol hysbysu'r Ymddiriedolaeth o faterion ddaw i'r amlwg.

Y pwyllgor enwebu

I bwrpas penodi aelodau Gweithredol, bydd y pwyllgor enwebu'n cynnwys y Cyfarwyddwr Cyffredinol, un aelod Gweithredol arall a dau aelod Anweithredol. Lle bo angen, bydd gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol bleidlais derfynol.

9.4.3 Ar wahân i'r Cadeirydd, a benodir yn uniongyrchol gan yr Ymddiriedolaeth, penodir aelodau'r Bwrdd Gweithredol ar argymhelliad pwyllgor enwebu'r Bwrdd (gweler y blwch).

9.4.4 Er mwyn sicrhau'r cydbwysedd cywir o arbenigedd, penodir aelodau Anweithredol yn unol â gweithdrefnau Nolan a bydd angen i'r Ymddiriedolaeth eu cymeradwyo. Penderfynir ar gylch gorchwyl aelodau Anweithredol gan yr Ymddiriedolaeth, a chyhoeddir hwy.

Rhedeg y Bwrdd Gweithredol

9.4.5 Yn unol ag arfer gorau, bydd yn ofynnol i'r Bwrdd Gweithredol sefydlu o leiaf dri phwyllgor: archwilio, cyflogau ac enwebu. Bydd y pwyllgorau archwilio a chyflogau'n cynnwys aelodau Anweithredol. Dylai cadeirydd y pwyllgor archwilio feddu ar brofiad ac arbenigedd ariannol diweddar.

9.5 Sofraniaeth yr Ymddiriedolaeth: pwy sy'n gyfrifol?

9.5.1 Yr hyn sydd wrth wraidd y newidiadau hyn yw'r awydd i wneud y BBC yn fwy tryloyw i dalwyr ffi'r drwydded a rhanddeiliaid eraill. Mae'n hanfodol bod pobl o'r tu allan i'r BBC yn gwybod pa ran o'r sefydliad sy'n gyfrifol am ddelio â'u pryderon.

9.5.2 Yr Ymddiriedolaeth fydd y corff sofran o fewn y BBC. Ystyr hyn mewn termau ymarferol yw mai gan yr Ymddiriedolaeth fydd y gair terfynol. Ond, fel yr ydym wedi egluro o'r blaen, mae gan yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol wahanol rolau a chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio'n glir. Er bod yr Ymddiriedolaeth yn adlewyrchu budd y cyhoedd, y rhan fwyaf o'r amser y Bwrdd Gweithredol fydd yn y sefyllfa orau i ddelio â phryderon rhanddeiliaid yn y lle cyntaf. Y Bwrdd Gweithredol, yn y lle cyntaf, fydd yn delio ag ymholiadau gwylwyr a gwrandawyr ynghylch y modd y caiff gwasanaethau'r BBC eu rhedeg o ddydd i ddydd. Bydd partneriaid a chystadleuwyr cyhoeddus a masnachol hefyd yn cysylltu â'r Bwrdd Gweithredol yn y lle cyntaf yn y rhan fwyaf o achosion.

9.5.3 Mae rhai eithriadau pwysig i hyn, yn seiliedig ar rôl arbennig yr Ymddiriedolaeth wrth ystyried budd y cyhoedd mewn perthynas â gweithgareddau'r BBC. Er enghraifft pan fydd yr Ymddiriedolaeth yn ystyried achos i wneud newid sylweddol i wasanaeth presennol neu gymeradwyo gwasanaeth cwbl newydd, bydd yn gofyn i'r cyhoedd, darlledwyr eraill a phartïon â diddordeb gyflwyno sylwadau iddo'n uniongyrchol. A phan fydd yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion yn ymwneud â thrwydded gwasanaeth, bydd yn cysylltu'n uniongyrchol â phartïon â diddordeb.

9.5.4 Y peth pwysicaf y dylid ei wneud yw sicrhau bod y bobl y tu allan i'r BBC yn gwybod gyda phwy y dylid siarad. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn egluro hyn mewn sawl ffordd:

- Cyhoeddi protocolau – sefydlu sut bydd y gwaith dyddiol yn symud yn dryloyw rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol;
- Trefn gwyno - bydd yn ofynnol yn ôl y Siarter a'r Cytundeb i'r Ymddiriedolaeth bennu a chyhoeddi trefn ar gyfer delio â chwynion, gan nodi sut y gallai achwynyddion ddisgwyl cael eu trin, er enghraifft o ran amser ymateb a chydraddoldeb mynediad i achwynyddion a rheolaeth y BBC:
- Contract atebolrwydd gyda thalwyr ffi'r drwydded - nodi sut bydd yr Ymddiriedolaeth yn ymwneud â thalwyr ffi'r drwydded.

Rôl barhaus Ofcom

9.5.5 Rhoddodd Deddf Gyfathrebu 2003 bwerau rheoleiddio helaeth i Ofcom dros y BBC (gweler y blwch). Ni welwn fod unrhyw reswm ar hyn o bryd dros leihau rôl Ofcom yn hyn o beth - mae wedi cyflawni ei gyfrifoldebau mewn modd sydd wedi creu llawer iawn o hyder allanol.

Cyfrifoldebau Ofcom mewn perthynas â'r BBC

Mae'n rhaid i'r BBC gydymffurfio â chod tegwch Ofcom a llawer o'i god safonau rhaglenni'r diwydiant (nid yn benodol yr agweddau cywirdeb ac amhleidioldeb). Gall Ofcom fonitro a yw'r BBC yn cydymffurfio ai peidio ac ystyried cwynion yn y meysydd hyn. Mewn achosion o dorri amodau, gall Ofcom ddirwyo'r BBC neu gyfarwyddo'r BBC i ddarlledu cywiriad neu ddatganiad o ganfyddiadau. Hefyd mae gan Ofcom y pŵer i orfodi ymrwymiadau'r BBC mewn perthynas â chwotâu cynyrchiadau annibynnol.

Mae'r Llywodraethwyr yn pennu'r holl gwotâu sy'n berthnasol i newyddion a materion cyfoes, rhaglenni rhanbarthol, cynyrchiadau gwreiddiol a chynyrchiadau rhanbarthol – ar ôl ymgynghori gydag Ofcom. Ond mae angen cytundeb Ofcom ar gyfer:

- Cwotâu cynyrchiadau gwreiddiol a chynyrchiadau rhanbarthol;
- Unrhyw ostyngiad yng nghwotâu newyddion a materion cyfoes neu raglenni rhanbarthol sy'n is na lefel gwirioneddol 2002.

Ac mae Ofcom yn gyfrifol am:

- Fonitro a gydymffurfir yn erbyn y cwotâu hyn ac yn erbyn y cwota cynhyrchu annibynnol safonol o 25% a'r cwota tarddiad-Ewropeaidd o 50% (mae hefyd yn ofynnol i'r Llywodraethwyr fonitro a gydymffurfir yn y meysydd hyn, dan y Siarter presennol);
- Gweithredu sancsiynau priodol, yn cynnwys dirwyon, os na fydd y BBC yn cwrdd â'r cwotâu.

Mae'r Llywodraethwyr yn cymeradwyo'r Datganiadau Polisi Rhaglenni a baratoir ar gyfer pob gwasanaeth BBC, ac maent hefyd yn gyfrifol am fesur perfformiad yn erbyn yr addewidion a wnaed yn y datganiad hwn. Ond mae'n rhaid iddynt ystyried arweiniad Ofcom ar y modd mae'n disgwyl i ddarlledwyr masnachol baratoi'r datganiadau hyn, a phob pum mlynedd mae Ofcom yn cynnwys y BBC yn ei asesiad o effeithiolrwydd darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.

O ran polisi cystadleuaeth, caiff y BBC ei reoleiddio gan Ofcom (ar y cyd â'r OFT) a'r Comisiwn Ewropeaidd, fel unrhyw ddarlledwr arall.

9.5.6 Yn y Papur Gwyrdd, eglurwyd felly y byddem ni am i'r trefniadau newydd ar gyfer yr Ymddiriedolaeth sefydlu eu hunain cyn ystyried rhannu'r cyfrifoldebau unwaith eto dros reoleiddio safonau a chwotâu. Rydym yn cadarnhau na fydd unrhyw newidiadau i'r sefyllfa bresennol tan o leiaf bum mlynedd o gychwyn y Siarter newydd.

9.6 Gwasanaethau masnachol y BBC

9.6.1 Er bod gwasanaethau masnachol y BBC yn cael eu rhedeg fel is gwmni masnachol, byddant yn gweithio ar sail yr un egwyddorion cyffredinol sy'n sylfaen i'r system newydd: tryloywder ac atebolrwydd. Hefyd bydd angen i'r strwythurau a sefydlir sicrhau bod gwasanaethau'r BBC a gyllidir ag arian cyhoeddus yn gwbl ar wahân i'r rhai y mae'n eu rhedeg yn gwbl fasnachol ac nad oes unrhyw draws-gymhorthdal rhwng y ddau. Bydd hyn yn cynnwys, er enghraifft, darparu adroddiadau blynyddol a chyfrifon ar wahân ar gyfer y gwasanaethau masnachol yn ogystal â sicrhau bod gweithrediadau masnachol gyda'r gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cynnal ar delerau masnachol.

Bwrdd BBC Worldwide

Rydym yn croesawu cynigion y BBC i ailstrwythuro Bwrdd BBC Worldwide, sy'n gyfrifol am holl is gwmnïau masnachol gweithredol y BBC ar wahân i Adnoddau'r BBC a BBC World. Bydd y Bwrdd yn cynnwys aelodau gweithredol a dau fath o aelod Anweithredol. "Aelodau Anweithredol annibynnol" fydd y rhai hynny heb unrhyw swydd arall o fewn gwasanaethau cyhoeddus neu fasnachol y BBC, tra bod gan "Aelodau Anweithredol y BBC" o bosibl rolau eraill o fewn y Gorfforaeth (yn cynnwys bod yn aelodau i'r Bwrdd Gweithredol, ond byth yr Ymddiredolaeth). Bydd lleiafrif sylweddol o aelodau Anweithredol. Bydd Bwrdd BBC Worldwide yn cael ei gadeirio gan aelod Anweithredol annibynnol a bydd dau aelod Anweithredol annibynnol arall.

9.7 Y World Service

9.7.1 Roedd ein hymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd yn cadarnhau bod y cyhoedd yn credu bod World Service y BBC - rhan o adran Newyddion ehangach y BBC Global News - yn werthfawr iawn yng ngolwg y cyhoedd, ac ystyrid ei fod yn unigryw ac yn rhan anhepgor o gynnig y BBC. Ond pa ran sydd i'r World Service yn y strwythur llywodraethu newydd?

9.7.2 Yn wahanol i weddill gwasanaethau cyhoeddus y BBC, caiff y World Service ei ariannu'n uniongyrchol gan grant-mewn-cymorth gan y Swyddfa Dramor a Chymanwlad (FCO). Diffinnir ei berthynas â'r FCO gan ddwy brif ddogfen, Cytundeb Darlledu a Memorandwm Ariannol. Er bod y World Service yn gwbl annibynnol o ran agweddau golygyddol a rheoli, mae'n ofynnol i'r FCO a'r World Service, yn ôl y Cytundeb Darlledu, weithio gyda'i gilydd wrth ystyried natur ac amrywiaeth rhaglenni. Yr FCO sy'n gyfrifol am gytuno ar fesurau perfformio ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir - yn ymarferol, mae hyn yn golygu, y marchnadoedd a gynhwysir, ffigurau cynulleidfaoedd a chlywadwyedd. Mae'r Memorandwm Ariannol yn amlinellu'r fframwaith ariannol y mae'r World Service yn gweithredu o'i fewn.

9.7.3 O fewn y BBC, bydd y World Service yn atebol i'r Bwrdd Gweithredol a, thrwy'r Bwrdd Gweithredol, i Ymddiriedolaeth y BBC.

9.8 Atebolrwydd

9.8.1 Yn y Papur Gwyrdd amlinellwyd gweledigaeth ar gyfer math newydd o atebolrwydd: lle byddai'r Ymddiriedolaeth yn ceisio'n weithgar i ystyried diddordebau talwyr ffi'r drwydded a'u bod yn dylanwadu ar weithgareddau'r Bwrdd Gweithredol. Yn y Papur Gwyrdd awgrymwyd nifer o ddulliau gennym y gallai'r Ymddiriedolaeth eu defnyddio er mwyn cyflawni hyn.

9.8.2 Roedd yr ymateb o'r ymgynghoriad yn dangos yn glir bod y rhan fwyaf o bobl am weld mwy o dryloywder ac atebolrwydd yn ymddygiad y BBC ac yn ei benderfyniadau. Roedd cefnogaeth arbennig i raglenni ymchwil, cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd a gwe-ddarlledu. Cyfeiriwyd at y rhyngrwyd yn aml fel cyfrwng delfrydol y gellid ei ddefnyddio i wella atebolrwydd cyhoeddus.

9.8.3 Roedd ymchwil pellach i gynulleidfaoedd hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd ymchwil i gynulleidfaoedd ac ymgynghorai drwy e-fforymau, cyfarfodydd agored a chyfarfodydd cyffredinol blynyddol fel ffyrdd o helpu'r Ymddiriedolaeth i asesu ac ymateb i farn y cyhoedd[18].

9.8.4 Mae'r ymgynghoriad a'r ymchwil yn dangos y potensial i'r Ymddiriedolaeth ddatblygu perthynas newydd gyda'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded. Bydd yn ofynnol i'r Ymddiriedolaeth gyhoeddi ac ymgynghori ar ei threfniadau manwl ei hun ar gyfer ymwneud â thalwyr ffi'r drwydded. Bydd yn sicrhau bod ei rhaglen ymwneud yn cynnwys nifer o ddulliau cyswllt er mwyn ei galluogi i gynrychioli diddordebau'r holl wahanol rai sy'n talu ffi'r drwydded drwy'r wlad. Gellir gweld enghreifftiau pellach o dechnegau ymwneud yn Atodiad III.

9.8.5 Ond mae'n bwysig cydnabod bod y BBC mewn sefyllfa unigryw. Bydd angen iddo ddod o hyd i atebion i ddwy broblem yn arbennig:

- Sut i ymgysylltu â chynulleidfaoedd sy'n anodd cyrraedd atynt;
- Sut i bwyso a mesur y sylwadau y mae'n eu derbyn. Nid yn unig y mae'r BBC yn gwasanaethu cynulleidfa eang iawn, gydag o bosibl chwe deg miliwn o wylwyr a gwrandawyr yn y DU, ond mae'n ennyn diddordeb brwd gan nifer o wahanol bobl sy'n lleisio eu barn a charfannau pwyso.

9.8.6 Yr her i'r Ymddiriedolaeth fydd gwneud yn siŵr ei bod yn sicrhau budd y cyhoedd heb iddo gael ei ddylanwadu gan grwpiau diddordeb penodol. Bydd yn amlinellu ei chynlluniau ar gyfer ymwneud uniongyrchol â'r cyhoedd mewn contract atebolrwydd newydd gyda thalwyr ffi'r drwydded. Bydd y contract yn disgrifio sut bydd yr Ymddiriedolaeth yn gwneud y defnydd gorau o ddulliau sydd ar gael iddi, yn cynnwys defnyddio ei gwasanaethau darlledu ei hun, i ymwneud â'r cyhoedd: er enghraifft, wrth ymarfer ei phŵer i gyflwyno adolygiad trwydded gwasanaeth mewn ymateb i sylwadau talwyr ffi'r drwydded.

Atebolrwydd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol

9.8.7 Mae gan y BBC strwythur cymhleth o gyrff cynghori. Ar y brig mae Cynghorau Darlledu Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, a Fforwm Cenedlaethol Lloegr. Roedd ein hymgynghoriad yn dangos nad yw bodolaeth y Cynghorau'n hysbys iawn ymysg y cymunedau a'r rhanbarthau y maent yn eu cynrychioli. Nid yw'n eglur i bobl pwy sy'n aelodau ohonynt a sut i gysylltu â hwy. O'r persbectif hwnnw, o leiaf, mae eu heffaith ehangach wedi bod yn gyfyngedig.

9.8.8 Mae'r Llywodraeth yn credu bod gan y Cynghorau, neu eu holynwyr, rôl werthfawr o hyd i'w chwarae o fewn fframwaith atebolrwydd ehangach yr Ymddiriedolaeth. Ond mae angen sicrhau eu bod yn gweithio'n well. Yr Ymddiriedolaeth fydd yn penderfynu sut orau y gellir cyflawni hyn. Fel man cychwyn, bydd y Siarter a'r Cytundeb yn cyfnewid y Cynghorau Darlledu am "Gynghorau Cynulleidfa" newydd i Loegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

[18] Adroddiad Diwygiedig ar Adolygiad Siarter y BBC, Opinion Leader Research, Tachwedd 2005, p 31

9.9 Cwynion

9.9.1 Mae gan y ffordd y mae'r BBC yn delio â chwynion ddylanwad pwysig iawn ar y modd y mae'r byd y tu allan yn edrych arno. I lawer o bobl, gwneud cwyn yw eu hunig gyswllt gwirioneddol gyda pheirianwaith y BBC. Mae'n hanfodol felly, bod y fframwaith ar gyfer delio â chwynion - a bennir gan yr Ymddiriedolaeth ei hun - yn sicrhau y bydd pobl yn teimlo bod y BBC wedi rhoi ystyriaeth o ddifrif iddynt a'u bod wedi'u trin yn deg a phroffesiynol, hyd yn oed pan na fydd eu cwyn yn cael ei chadarnhau.

9.9.2 Bydd fframwaith yr Ymddiriedolaeth yn cynnwys rhai egwyddorion allweddol, fel trin yr achwynydd yn gyfartal, a bod y Bwrdd Gweithredol, pan wneir apeliadau i'r Ymddiriedolaeth, yn cadw at derfynau amser ac yn egluro penderfyniadau'n llawn. Ond hefyd bydd angen i'r Ymddiriedolaeth adlewyrchu cyfrifoldebau Ofcom ynghylch safonau cynnwys: er mai i sylw'r Bwrdd Gweithredol y cyfeirir cwynion yn y lle cyntaf, ac er mai'r Bwrdd hefyd fydd yn delio â hwy, rhaid i'r fframwaith sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth ei hun yn chwarae rhan y canolwr terfynol, ac eithrio pan fo achwynyddion yn manteisio ar awdurdod Ofcom.

9.10 Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO)

9.10.1 Yn dilyn Deddf Gyfathrebu 2003, atgyfnerthwyd rôl NAO ynghylch y modd y defnyddia'r BBC ffi'r drwydded i sicrhau gwerth am arian, gan ddiogelu annibyniaeth olygyddol y Gorfforaeth ar yr un pryd. Prif nodweddion y trefniadau, a gynhwysir yng Nghytundeb y BBC yw:

- Mae Pwyllgor Archwilio'r BBC yn sefydlu rhaglen o adolygiadau yn dilyn deialog gyda'r Pennaeth a'r Archwilydd Cyffredinol (sy'n Bennaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol). Dyrennir adolygiadau unigol i sefydliadau yn cynnwys yr NAO.
- Cyflwynir adroddiadau gan yr NAO, a sefydliadau eraill, i Swyddfa Archwilio'r BBC ac yna fe'u cyflwynir yn llawn i'r Senedd gan Lywodraethwyr y BBC, ynghyd ag ymateb y BBC, yr un pryd ag y cyhoeddir adroddiad a chyfrifon blynyddol y BBC.

9.10.2 Mae'r Llywodraeth yn credu bod y trefniadau presennol wedi gwella atebolrwydd y BBC i'r Senedd ynghylch y modd y defnyddir yr arian cyhoeddus a dderbynia, gan gadw ar yr un pryd annibyniaeth y BBC o ran polisi golygyddol a rhaglenni. Byddai ehangu mynediad NAO heb gyfyngiadau, ym marn y Llywodraeth, yn golygu y byddai risg o effeithio ar annibyniaeth olygyddol y BBC a byddai'n gwrthdaro â'r egwyddor mai'r sawl sy'n talu ffi'r drwydded ddylai weithredu fel prif linell atebolrwydd y gorfforaeth. Roedd ein hymgynghoriad cyhoeddus yn dangos nad yw pobl eisiau i'r Llywodraeth na'r Senedd gael mwy o reolaeth dros y BBC nag a geir ar hyn o bryd.

9.10.3 Ond rydym yn credu, dan y trefniadau newydd, y byddai o fudd i'r Ymddiriedolaeth, yn ei swyddogaeth o sicrhau bod y Bwrdd Gweithredol yn atebol, cryfhau ei berthynas gyda'r NAO, am y rhesymau canlynol:

- Gan fod yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol wedi ymwahanu mae mwy o le (ac angen) i'r Ymddiriedolaeth ofyn am gyngor arbenigol o'r tu allan i'r BBC ar nifer o faterion;
- Bydd y Siarter a'r Cytundeb newydd yn gosod dyletswyddau penodol ar yr Ymddiriedolaeth i sicrhau bod y Bwrdd Gweithredol yn rhoi gwerth am arian.

9.10.4 Gyda golwg ar hyn, mae Llywodraethwyr y BBC a'r NAO wedi trafod y modd y gweithredwyd y trefniadau hyd yma ac maent wedi cytuno ei fod yn hanfodol bod yr NAO yn gallu chwarae rhan lawn mewn trafodaethau gyda'r Ymddiriedolaeth ynghylch pa feysydd ddylai fod yn destun adolygiadau gwerth am arian. Mae hyn yn golygu y dylid darparu'r wybodaeth am weithgareddau'r BBC y mae'r NAO ei hangen o fewn rheswm arno er mwyn penderfynu pa feysydd y dylid eu harchwilio. Bydd yr Ymddiredolaeth yn sicrhau bod hyn yn digwydd.

9.10.5 Mae'r Llywodraethwyr a'r NAO hefyd wedi cytuno y byddai'n ddefnyddiol i adroddiadau'r NAO gael eu cyhoeddi mor fuan ag y bo hynny'n ymarferol ar ôl eu cwblhau, yn hytrach nac aros i adroddiad a chyfrifon blynyddol y BBC gael eu cyhoeddi.

9.10.6 Bwriadwn adlewyrchu'r pwyntiau hyn yn y Cytundeb newydd.

9.10.7 Mae'r Llywodraeth yn disgwyl i'r trefniadau greu perthynas glos rhwng yr Ymddiredolaeth a'r NAO, ac y bydd yr Ymddiredolaeth yn defnyddio arbenigedd sylweddol y NAO i'w helpu i oruchwylio'r Bwrdd Gweithredol. Rydym yn croesawu cynnig Cadeirydd presennol y BBC y dylai'r Ymddiredolaeth ofyn i NAO ystyried i ba raddau y cwrddir â thargedau "hunan-help" yn y dyfodol ac y bydd canlyniadau'r gwaith hwn hefyd yn cael eu hadrodd i'r Senedd. Mae'r Llywodraeth yn credu y bydd hyn yn helpu i gryfhau'r berthynas rhwng y BBC a'r NAO yn sylweddol.

9.11 Adolygiad Barnwrol

9.11.1 Bydd y Siarter a'r Cytundeb newydd yn amlinellu'n fanwl ddibenion, cyfrifoldebau, dyletswyddau ac ymrwymiadau'r BBC ac o'i fewn, yr Ymddiredolaeth a'r Bwrdd Gweithredol. Er mai mater i'r llysoedd fydd hyn yn y pen draw, mae'r Llywodraeth yn hollol gredu y dylai'r BBC fod yn destun adolygiad barnwrol os na fydd yn cydymffurfio â'i Siarter a'r Cytundeb ar yr un sail â chyrff statudol eraill nad ydynt yn cydymffurfio â'u fframweithiau statudol. Ni fydd unrhyw beth yn y Siarter a'r Cytundeb i atal hyn. Am y tro cyntaf, bydd y Siarter yn cyfeirio'n benodol at gwmpas adolygiad barnwrol yn y rôl hon.

9.12 Trawsnewid

9.12.1 Mae'r trefniadau newydd ar gyfer y BBC yn newid strwythurol a diwylliannol mawr. Bydd angen eu gweithredu'n ofalus er mwyn iddynt weithio'n briodol. Bydd angen amser ar yr Ymddiredolaeth i oruchwylio'r modd y bydd ei pholisïau ei hun yn datblygu - ni fydd yn ddigonol nac yn dderbyniol iddi dderbyn polisïau'r Bwrdd Llywodraethwyr yn ddi-gwestiwn. Felly bydd y Siarter newydd a'r Cytundeb yn sicrhau bod cyfnod o drawsnewid, i alluogi'r Ymddire dolaeth roi'r strwythurau newydd ar waith, gan sicrhau eu bod yn gwbl weithredol mor fuan ag y bo hynny'n ymarferol bosibl yn oes y Siarter newydd.

9.12.2 Daw'r Siarter presennol i ben ar 31 Rhagfyr 2006. Os bydd yn bosibl, ac os bydd y BBC yn cytuno, byddwn yn dod â'r Siarter i ben yn gynt na'r dyddiad hwn er mwyn i'r trefniadau newydd ddod i rym mor fuan â phosibl.

10. Ariannu

10.1 Consesiynau ffi'r drwydded

10.1.1 Mae ymgynghori ac ymchwil trwy gydol yr adolygiad o'r Siarter wedi dangos cefnogaeth i ffi'r drwydded barhau fel y ffordd "leiaf gwael" o ariannu'r BBC. Yn ogystal, mae ymchwil a wnaed gan Ofcom wedi dangos cefnogaeth gyhoeddus i ffi unffurf, ar y sail bod teledu, yn wahanol i wasanathau cyhoeddus eraill fel gofal iechyd ac addysg, yn rhyw fath o "foethusrwydd".

10.1.2 Fodd bynnag mae'r Llywodraeth wedi derbyn ystod eang o bryderon ynghylch gweithrediad manwl ffi'r drwydded. Mynegodd llawer bryder ei fod yn annheg i bobl ar incwm isel gan awgrymu y dylid ymestyn yr ystod bresennol o gonsesiynau. Cynigiodd eraill y dylai ffi'r drwydded fod yn seiliedig ar brawf modd. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylid gostwng yr oed cymwys i gael trwydded deledu am ddim o 75 i 65.

10.1.3 Croesawyd ymrwymiad y Llywodraeth i archwilio anomaleddau'r cynllun Llety ar gyfer Gofal Preswyl (ARC) (gweler y blwch), ond roedd yr argymhellion ar gyfer newid yn canolbwyntio ar ddiffygion unigol yn hytrach na ffyrdd y gellid gwella'r cynllun yn gyffredinol.

10.1.4 Mae ymatebwyr i'r ymgynghoriadau rydym wedi eu cynnal trwy gydol proses yr adolygiad o'r Siarter wedi cyflwyno ystod eang iawn o grwpiau yr oeddent yn teimlo oedd yn haeddu consesiynau arbennig. Mae hwn yn amlygu un o anawsterau canolog unrhyw gynllun consesiynau: mae'r galw yn uchel iawn, ond nid oes llawer o gydsynio ynghylch pwy ddylai gael consesiynau, y meini prawf ar gyfer eu dyrannu, na'r ffordd y dylid eu hariannu. Byddai consesiynau ar gyfer grwpiau eang o bobl, er enghraifft pob myfyriwr, staff arlwyo neu bersonél gwasanaeth, yn ddrud i bawb arall (p'un a fyddai cronfeydd cyhoeddus neu y rhai eraill sy'n talu ffi'r drwydded yn talu amdanynt); byddai llawer o bobl nad ydynt ar incwm arbennig o isel nac ag angen arbennig am deledu yn elwa arnynt; a byddai'n gadael anghenion grwpiau eraill y gellid dadlau bod ganddynt haeddiant cyfartal, heb eu datrys. Rydym yn argymell dim newidiadau i'r ystod bresennol o gonsesiynau.

Cynllun ARC

Mae'r cynllun consesiynol hwn yn rhoi hawl i bobl 60 oed neu'n hŷn sydd wedi ymddeol a phobl anabl sy'n byw mewn cartrefi nyrsio a phreswyl ac mewn mathau penodol o dai gwarchod i elwa ar drwydded deledu gyfunol am ffi o £5 fesul uned llety. Mae'r rheoliadau sy'n rheoli cynllun ARC, fodd bynnag, yn cael eu llunio'n fanwl, yn enwedig mewn perthynas â thai gwarchod. Er mwyn bod yn gymwys, mae'n rhaid i hwn:

(a) ffurfio rhan o grŵp o bedwar annedd o leiaf o fewn ffin gyffredin a chyfyngedig;

(b) cael ei ddarparu i bersonau anabl, personau dryslyd yn feddyliol neu bersonau 60 oed neu'n hŷn sydd wedi ymddeol fyw ynddo;

(c) cael ei ddarparu neu ei reoli gan awdurdod lleol, cymdeithas tai neu gorfforaeth ddatblygu;

(ch) cynnwys person (e.e. warden) â'r swyddogaeth o ofalu am anghenion y trigolion ac sydd naill ai'n byw ar y safle neu'n gweithio yno am 30 awr yr wythnos o leiaf.

Cynllun Llety ar gyfer Gofal Preswyl (ARC)

10.1.5 Mae cynllun ARC yn frith o anomaleddau amlwg, sy'n deillio o'r ffaith ei fod yn dyrannu consesiynau ar sail llety yn hytrach nac angen unigol. Pa fodd bynnag y caiff y llety cymwys ei ddiffinio, fe fydd felly bobl bob amser y gellir dadlau eu bod yn haeddu consesiwn ond sy'n methu â chymhwyso, a'r rheiny sydd yn gymharol gyfoethog ond sydd yn cymhwyso. Yn fyr, pe byddai'r Llywodraeth yn cynllunio cynllun consesiynol o'r cychwyn heddiw, ni fyddai'n mabwysiadu cynllun ARC fel y mae ar hyn o bryd.

10.1.6 Ar y llaw arall, mae rhai unigolion agored iawn i niwed yn elwa ar gynllun ARC. Byddai diddymu'r cynllun yn sicr yn arwain at i nifer sylweddol o bobl fod ar eu colled, llawer ohonynt yn aelodau o grwpiau gwirioneddol agored i niwed. Yn ogystal, mae penderfyniad y Llywodraeth i ddarparu trwyddedau teledu am ddim i bobl dros 75 oed wedi ymestyn consesiynau i dros 3.4 miliwn o henoed nad oeddent yn gymwys ar gyfer cynllun ARC, gan leihau effaith gyffredinol ei anomaleddau. Nid ydym felly yn argymell unrhyw newidiadau i'r cynllun ar hyn o bryd.

10.2 10.2 Casglu a gorfodi

10.2.1 Gan fod ffi'r drwydded i aros trwy gydol cyfnod y Siarter nesaf, mae'n hanfodol bod y trefniadau casglu a gorfodi yn effeithlon, yn gost effeithiol ac yn cael eu gorfodi mewn ffordd sy'n cynnal cefnogaeth y cyhoedd.

10.2.2 Mewn ymateb i'r cwestiynau a ofynnwyd gennym yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus, roedd y gost sy'n gysylltiedig â chasglu a gorfodi ffi'r drwydded yn fater i sawl ymatebydd. Roedd hyn hefyd yn fater i Bwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi, a ganfu fod cost casglu a gorfodi yn ormodol ac awgrymodd fod y BBC yn gwella effeithlonrwydd cost trwy feincnodi ei berfformiad yn erbyn systemau tebyg eraill.[19]

10.2.3 Roedd gan ymatebwyr eraill ymysg y cyhoedd bryderon ynghylch tôn hysbysebion TV Licensing. Cwynodd rhai am swyddogion gorfodi yn 'bygwth ac yn codi ofn', yn enwedig y rheiny nad oeddent yn berchen ar set deledu ac wedi hysbysu TV Licensing yn unol â hynny.

10.2.4 Mynegwyd pryderon hefyd ar sail amgyffrediad fod llawer o'r bobl oedd yn cael eu herlyn am beidio meddu ar drwydded ymysg y rheini oedd leiaf galluog i dalu. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai osgoi talu'r drwydded fod yn ddyled sifil yn hytrach nag yn drosedd gyfreithiol. Nodwyd ganddynt bod dedfryd o garchar yn ymateb anghymesur o llym i beidio â thalu dirwyon oherwydd osgoi talu'r drwydded (ceir crynodeb o'r sefyllfa bresennol isod). Dangosodd ymchwil a wnaed fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd fod peth amgyffrediad o annhegwch o ran gorfodi ffi'r drwydded, er bod y cyfranogwyr yn dueddol o gytuno y dylai fod rhyw fath o gosb, cyhyd â bod pobl yn cael bob cyfle i dalu[20].

[19] *Adolygiad o Siarter Brenhinol y BBC, Cyfrol 1: Adroddiad Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar yr Adolygiad o Siarter y BBC, para 138.*
[20] Adroddiad Diwygiedig Adolygiad o Siarter y BBC, Opinion Leader Research, Tachwedd 2005.

10.2.5 Hyd yn oed o ystyried cost ffi'r drwydded, teledu yw un o'r gweithgareddau hamdden rhataf sydd i'w gael o hyd. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod pryderon y cyhoedd ynghylch effaith y system drwyddedu a'r ffordd y caiff ei gorfodi, yn enwedig mewn perthynas â chartrefi incwm isel. Bydd sicrhau atebolrwydd cyhoeddus o ran trefniadau gorfodi ac argaeledd a symlrwydd cynlluniau talu hawdd yn hanfodol i gynnal cefnogaeth ar gyfer y system trwyddedu teledu.

10.2.6 Mae'r Llywodraeth yn argymell mynd i'r afael â'r pryderon hyn mewn tair ffordd:

- Ystyried ymhellach yr argymhellion i ailgyfeirio troseddwyr i ffwrdd o'r system Cyfiawnder Troseddol;
- Gwneud yr Ymddiriedolaeth yn fwy uniongyrchol atebol am weithgareddau TV Licensing;
- Annog ymgymryd â chynlluniau talu hawdd.

Ailgyfeirio oddi wrth y system cyfiawnder troseddol

10.2.7 Ni ellir carcharu person am osgoi talu ffi'r drwydded deledu. Mae gan y llysoedd y grym i roi dedfryd o garchar am beidio â thalu dirwyon, beth bynnag yw'r drosedd wreiddiol. Fodd bynnag, mae ganddynt hefyd ddyletswydd i ystyried modd y troseddwyr wrth osod lefel y dirwyon a dim ond pan fydd pob llwybr arall wedi cael ei gynnig neu ei ystyried y gallant roi dedfryd o garchar am beidio talu dirwy. Cyfanswm y bobl a gafodd eu carcharu am beidio â thalu dirwyon am osgoi talu ffi'r drwydded deledu yn 2004 oedd 46.

10.2.8 Ar 7 Tachwedd 2005, cyhoeddodd yr Adran Materion Cyfansoddiadol Bapur Gwyn o'r enw 'Supporting Magistrates' Courts to Provide Justice' ar statws presennol Ynadaeth a Llysoedd Ynadon ac argymhellion ar gyfer diwygio yn y dyfodol. Roedd yn ystyried ystod o brosesau a dulliau gwaredu amgen ar gyfer rhai o'r achosion cyfaint uchel, cymharol isel eu lefel sy'n dod gerbron y llysoedd, mewn ffyrdd nad ydynt yn cael effaith andwyol nac yn rhwystro ansawdd cyfiawnder. Nododd y papur osgoi talu ffi'r drwydded deledu fel un o nifer o droseddau lle mae angen archwilio ymhellach i'r posibilrwydd o leihau'r baich ar y llysoedd ac i ailgyfeirio troseddwyr oddi wrth y system cyfiawnder troseddol.

10.2.9 Dyma'r opsiynau sy'n cael eu hystyried ymhellach:

- Defnyddio dull amgen o waredu achosion y Drwydded Deledu cyn iddynt ddod i mewn i system y llysoedd;
- Y manteision y gellid eu cael, a pha mor dderbyniol i'r cyhoedd fyddai mabwysiadu system lle byddai'r BBC/TV Licensing yn cael y grym i awdurdodi a chyhoeddi gwysion neu ofynion drwy'r post;
- Prosesu swmp y gwaith gweinyddol yn ymwneud ag achosion y Drwydded Deledu gydag unrhyw bledion euog yn cael eu trin heb atebolrwydd i wrandawiad llawn mewn Llys Ynadon.

10.2.10 Mae'r Llywodraeth yn bwriadu ymgynghori ymhellach â rhanddeiliaid allweddol ar yr agwedd hon o'r polisi.

Atebolrwydd a rôl yr Ymddiriedolaeth

10.2.11 Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod peth pryder ymysg y cyhoedd ynglŷn â'r ffordd y mae TV Licensing yn cynnal ei swyddogaethau casglu a gorfodi. Mae TV Licensing yn gweithredu o dan gontract i'r BBC, sydd, fel yr awdurdod trwyddedu teledu, yn gyfrifol am sicrhau gwerth am arian y trefniadau casglu a gorfodi. Bu'r BBC yn llwyddiannus yn lleihau'r achosion o osgoi talu'r drwydded ac rydym yn cydnabod bod angen dull trylwyr o weithredu i gynnal a gwella'r cofnod hwnnw. Ond ni ellir ystyried effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ar eu pen eu hunain. Ar yr un pryd, mae trin y cyhoedd gyda thegwch a pharch yn bwysig i gynnal cefnogaeth gyffredinol i'r system trwyddedu teledu.

10.2.12 Mae gan Lywodraethwyr y BBC ddyletswydd gyffredinol, yn unol â'r Siarter bresennol, i fodloni eu hunain bod holl weithgareddau'r Gorfforaeth yn cael eu cynnal i'r safonau uniondeb, priodoldeb a gwerth am arian uchaf. Byddwn yn rhoi dyletswydd benodol ar Ymddiriedolaeth y BBC i fodloni ei hun bod gweithgareddau casglu a gorfodi'r BBC, a rhai ei asiantau, yn gymesur ac yn gyson â statws gwasanaeth cyhoeddus y BBC.

Annog manteisio ar gynlluniau talu hawdd

10.2.13 Mae'r Llywodraeth yn croesawu'r BBC yn mabwysiadu ystod eang o ddulliau ar gyfer talu ffi'r drwydded deledu. Mae 59% o ddeiliaid trwyddedau bellach yn talu trwy Ddebyd Uniongyrchol a nod y BBC yw cynyddu'r defnydd o'r cyfleuster hwn, wedi ei feincnodi yn erbyn defnydd Debyd Uniongyrchol ledled y DU. Mae'r Gorfforaeth hefyd yn hyrwyddo talu ar-lein, a gyflwynwyd gyntaf yn 2000/01 ac sydd bellach yn rhoi cyfrif am rhyw 2.4 y cant o'r holl drwyddedau sy'n cael eu gwerthu. Nod y BBC yw bod 20% o'r holl ryngweithio â chwsmeriaid yn cael ei gyflawni trwy geisiadau hunanwasanaeth, fel gwasanaethau'r we a gwasanaethau awtomataidd dros y ffôn. Gall aelodau o'r cynllun Cash Easy Entry lofnodi i dderbyn neges atgoffa ar eu ffonau symudol drwy negeseuon testun SMS ac roedd 250,000 o aelodau'r cynllun wedi gwneud hynny erbyn mis Tachwedd 2005. Mae defnyddio technoleg newydd yn y ffordd hon yn ymestyn dewis ac yn gwneud ffi'r drwydded yn haws i'w thalu.

10.2.14 Fodd bynnag, awgrymodd ymchwil a wnaed fel rhan o ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd bod yr ystod bresennol o ddulliau talu yn ddryslyd ac roedd ymdeimlad o annhegwch i bobl na allai fforddio talu am eu trwydded deledu mewn un cyfandaliad[21]. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu archwilio'r mater ymhellach yng nghyd-destun setliad nesaf ffi'r drwydded.

10.3 Gosod lefel ffi'r drwydded

10.3.1 Mae'r Papur Gwyn hwn yn rhoi fframwaith clir i'r BBC o ddibenion a chyfrifoldebau ar gyfer cyfnod y Siarter nesaf. Fodd bynnag, Ymddiriedolaeth y BBC fydd yn penderfynu sut y dylid cyflwyno'r rhain o fewn ffiniau y setliad ffi'r drwydded sydd i ddod. Yn unol â hynny, gall fod angen i'r Ymddiriedolaeth wneud penderfyniadau anodd yn aml ynghylch sut y dylid dyrannu'r adnoddau sydd ar gael.

10.3.2 Caiff y cyllid sydd ar gael trwy ffi'r drwydded ei ddefnyddio gan y BBC i gyflawni ei ddibenion. Fel yr ydym wedi egluro, bydd yr Ymddiriedolaeth yn pennu cynlluniau a blaenoriaethau ei ddibenion, mewn ymgynghoriad â'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded a rhanddeiliaid eraill – a bydd

[21] Adroddiad Diwygiedig Adolygiad o Siarter y BBC, Opinion Leader Research, Tachwedd 2005.

angen iddo gyflwyno mwy o eglurder i'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded ynghylch yr hyn y mae eu harian yn cael ei ddefnyddio ar ei gyfer a'r ffordd y mae'n cael ei wario. Mae'n rhaid bod cyflwyno'r gwerth gorau posibl am arian ar gyfer y rhai sy'n talu ffi'r drwydded yn flaenllaw ym mhob penderfyniad y mae'r Ymddiriedolaeth yn ei wneud.

Hawliau chwaraeon

Mae'r farchnad ar gyfer hawliau chwaraeon yn gystadleuol eithriadol. Mae er budd y rhai sy'n talu ffi'r drwydded bod y BBC yn gallu cystadlu am hawliau chwaraeon, tra'n sicrhau ar yr un pryd ei fod yn cynnal gwerth am arian a chystadleuaeth deg.

Yn y Papur Gwyrdd, aethom ati i archwilio prosesau'r BBC ar gyfer pennu gwerth hawliau chwaraeon, yn unol ag adolygiad Gardam o wasanaethau radio digidol y BBC. Nid ydym wedi canfod unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu bod y prosesau hynny yn ddiffygiol.

Fodd bynnag, bydd angen i'r BBC sicrhau wrth fynd yn ei flaen bod eu caffaeliadau hawliau chwaraeon yn parhau i gynrychioli gwerth am arian.

10.3.3 Rydym yn parhau i ddefnyddio cyngor annibynnol wrth gyrraedd ein casgliadau. Yn unol â'r ymrwymiad hwn, mae'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon wedi penodi PKF i ddarparu cyngor arbenigol ar ystod o faterion yn cynnwys gwerth am arian gweithrediadau presennol y BBC. Ceir mwy o wybodaeth am PKF yn www.pkf.co.uk. Bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi manylion y setliad maes o law. Yn amodol ar ystyriaeth briodol i gyfrinachedd, ein bwriad yw sicrhau bod canfyddiadau PKF ar gael. Fel rhan o'n harchwiliad parhaus o'r materion, byddwn yn gwneud ymchwil i barodrwydd y cyhoedd i dalu.

10.3.4 Fel oedd yn wir gyda setliad ffi'r drwydded bresennol, byddwn yn disgwyl i'r BBC gyflawni rhan fawr o'r arian y mae ei angen trwy "hunan-gymorth": effeithlonrwydd, gwelliannau o ran casglu a gorfodi ffi'r drwydded a refeniw masnachol.

10.4 Dychwelyd gwerth i'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded

10.4.1 Mae'r Llywodraeth o'r farn y dylai darparu stiwardiaeth effeithiol o ffi'r drwydded ar ran y rhai sy'n talu ffi'r drwydded fod yn un o ddyletswyddau pwysicaf yr Ymddiriedolaeth: sicrhau y caiff ei wario gyda'r effeithiolrwydd a'r effeithlonrwydd mwyaf posibl a darparu gwerth am arian bob amser. Bydd yn rhan o rôl yr Ymddiriedolaeth i sicrhau ac arddangos gwelliannau parhaus yn effeithlonrwydd y BBC, gan gynyddu'r elw a wneir trwy'i wasanaethau masnachol a threchu costau buddsoddiadau arfaethedig. Trwy wneud hyn gall adeiladu cronfeydd wrth gefn strategol i'w buddsoddi mewn blynyddoedd diweddarach ac, wrth gwrs, bydd ganddo'r opsiwn pennaf o beidio â hawlio swm llawn ffi'r drwydded lle mae'r Ymddiriedolaeth o'r farn bod hyn er budd y cyhoedd.

10.5 Parhau â ffi'r drwydded

10.5.1 Dangosodd y Llywodraeth yn y Papur Gwyrdd ei bod o'r farn mai ffi'r drwydded deledu oedd y ffordd orau i ariannu'r BBC o hyd ac y dylai barhau i fod y prif fecanwaith ariannu trwy gydol y deng mlynedd nesaf. Cadarnhaodd ymatebion i ymgynghoriad y Papur Gwyrdd ein

casgliadau cynharach[22]. Rydym felly yn cadarnhau ein polisi y bydd ffi'r drwydded yn parhau am oes y Siarter nesaf.

10.5.2 Fodd bynnag, fel y mae'r Papur Gwyrdd yn nodi, mae cwestiynau wedi cael eu codi ynghylch dyfodol ffi'r drwydded yn yr hirdymor o ystyried faint o newid technolegol sy'n debygol. Awgrymodd yr Arglwydd Burns a'r panel annibynnol ar yr adolygiad o'r Siarter y gallai fod angen yn y pen draw i ystyried ffurfiau araill o ariannu'r BBC, fel tanysgrifio neu hysbysebu hyd yn oed.

10.5.3 Rydym felly yn cadarnhau mai ein polisi fydd i adolygu'r cwmpas ar gyfer mecanweithiau ariannu amgen ar ôl diwedd y Siarter nesaf yn 2016, gyda'r ddealltwriaeth glir y bydd y BBC yn parhau i gael ei ariannu gan ffi'r drwydded am y deng mlynedd nesaf. Rydym yn disgwyl i'r adolygiad hwn gael ei gynnal tua diwedd y newid i'r digidol, er mwyn caniatáu ar gyfer y cynllunio angenrheidiol cyn bod unrhyw newidiadau'n cael eu gweithredu.

10.5.4 Yn unol â rheolau'r UE, mae ariannu gwasanaethau cyhoeddus y BBC gan ffi'r drwydded yn gyfystyr â Chymorth Gwladwriaethol. Disgwylwn i'r BBC barhau i fod yn drylwyr wrth sicrhau bod ei ddefnydd o ffi'r drwydded yn cydymffurfio â rheolau'r UE ar Gymorth Gwladwriaethol.

[22] *Yr hyn ddywedoch chi am y BBC DCMS Gorffennaf 2004*

11. Dyfodol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus y tu hwnt i'r BBC

11.1.1 Mae'r BBC yn gwbl ganolog i ddarlledu teledu gwasanaeth cyhoeddus yn y DU a bydd yn parhau i fod. Ond nid y BBC yw'r unig ddarlledwr gwasanaeth cyhoeddus. Mae eraill – ITV, Channel 4, S4C a Teletext – i gyd yn gwneud cyfraniadau pwysig i system sy'n creu rhaglenni o ansawdd uchel ar draws ystod eang o genres, fel newyddion, materion cyfoes, drama, y celfyddydau a rhaglennu rhanbarthol. Mae'r Llywodraeth o'r farn bod cynnal lluosogaeth darparwyr Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n ategu ac yn cystadlu â'i gilydd wedi bod yn bwysig o ran sicrhau bod yr ansawdd a'r amrywiaeth hwn yn cael eu cynnal.

11.1.2 Fel yr amlinellodd y Papur Gwyrdd, mae lledaeniad teledu digidol yn codi cwestiynau am y graddau y gellir cynnal y system Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus bresennol, a'r ffordd y caiff ei hariannu, yn y tymor canolig i'r tymor hwy. Mae cynyddu cystadleuaeth o sianelau eraill yn rhoi pwysau ar gyfrannau cynulleidfa'r Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n cael eu hariannu'n fasnachol ac yn sgil hynny, ar eu refeniw hysbysebu. Awgrymodd adolygiad Ofcom o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yn 2004 na fydd, yn y pen draw, yn realistig i gyflwyno rhwymedigaethau gwasanaeth cyhoeddus sylweddol ar sianelau sy'n gwbl fasnachol fel ITV a Five. Mae'n dadlau hefyd, heb ymyrraeth, y byddai'n rhaid i Channel 4 gwtogi ar ei gyfraniad i Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus er mwyn denu digon o hysbysebu i barhau'n sefydlog yn ariannol. Yn y sefyllfa hon, y BBC yn y pen draw fyddai'r unig ddarparwr teledu Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus arwyddocaol yn y DU. Mae ystod o ymatebion posibl i sefyllfa o'r fath wedi cael eu hawgrymu, gan gynnwys ariannu uniongyrchol ar gyfer Channel 4 ac argymhelliad Ofcom ei hun ar gyfer Cyhoeddwr Gwasanaeth Cyhoeddus newydd.

11.1.3 Fel yr eglurodd y Papur Gwyrdd, mae'r Llywodraeth yn cydnabod grym y dadleuon hyn, er ei bod yn rhy gynnar i ragweld yn sicr yn union sut y bydd y farchnad ddarlledu yn datblygu, neu'r effaith tymor hwy y bydd hyn yn ei gael ar ddarpariaeth rhaglennu o fath DGC. Wrth edrych i'r dyfodol, bydd ein polisi'n cael ei lywio gan dair ystyriaeth allweddol:

- Effaith manteisio ar ddigidol sy'n dod i'r amlwg;
- Ein hymrwymiad i BBC cryf, sy'n cael ei ariannu gan ffi'r drwydded am y deng mlynedd nesaf;
- Pwysigrwydd cynnal lluosogaeth darpariaeth DGC.

11.1.4 Rydym yn cadarnhau mai ein polisi fydd cynnal adolygiad, wrth i effaith y newid i ddigidol ddod yn gliriach yn ystod cyfnod y Siarter nesaf, o'r achos dros ariannu cyhoeddus – gan gynnwys arian ffi'r drwydded – i gael ei ddosbarthu'n fwy eang y tu hwnt i'r BBC.

11.1.5 Dangosodd ein hymgynghoriad gefnogaeth eang i'r argymhelliad hwn, er bod peth trafodaeth wedi bod ynghylch amseriad priodol adolygiad o'r fath. Bydd y Llywodraeth yn cynnal yr adolygiad yn ddigon cynnar i allu caniatáu i ddarpariaeth darlledu gwasanaeth cyhoeddus luosog gael ei chynnal. Rydym yn disgwyl i hyn olygu cynnal yr adolygiad yn agos at gwblhau newid i'r digidol, ond gan gadw'r opsiwn o gynnal adolygiad cynharach cyn diwedd y degawd hwn.

Channel 4

11.1.6 Mae Channel 4 yn gorfforaeth gyhoeddus, wedi ei hariannu trwy hysbysebu. Mae'r Llywodraeth yn glir bod gan Channel 4 rôl hanfodol i'w chwarae, ar y cyd â'r BBC, mewn darparu Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus i'r dyfodol. Rydym yn croesawu camau diweddar i atgyfnerthu ei ymrwymiad i ddarparu cynnwys gwasanaeth cyhoeddus amrywiol, o ansawdd uchel ar draws ystod gynyddol o sianelau a llwyfannau.

11.1.7 Yn y Papur Gwyrdd, gwnaeth y Llywodraeth hi'n glir y byddai'n archwilio ystod o opsiynau ar gyfer mathau penodol o gymorth i Channel 4, cyn yr adolygiad ehangach a ddisgrifir uchod, a allai ei helpu i gynnal ei gyfraniad Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yn y tymor canolig. Mae Channel 4 yn gwneud yn dda yn ariannol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae ei gyfran o'r gynulleidfa yn sylweddol is mewn cartrefi digidol nag ydyw mewn cartrefi analog ac mae'n debygol o wynebu pwysau ariannol yn y dyfodol. Rydym yn croesawu cynllun Ofcom i ymgymryd ag adolygiad llawn o ragolygon ariannol Channel 4 yn 2006/07 a byddwn yn cymryd diddordeb agos yn ei gasgliadau. Fel rhan o'r penderfyniadau terfynol ar setliad ffi'r drwydded, byddwn yn ystyried mathau o gymorth fel gofyn i'r BBC ddarparu cymorth ariannol i Channel 4 tuag at dalu ei gostau cyfalaf newid i'r digidol a dymuniad Channel 4 i sicrhau swm cyfyngedig o gapasiti daearol digidol ychwanegol gan y BBC.

12. Camau nesaf

Mae'r Papur Gwyn yn ddatganiad o bolisi'r Llywodraeth. Mae'n seiliedig ar ddwy flynedd o ymgynghori, ymchwil a thrafodaeth gyhoeddus helaeth y mae miloedd o bobl wedi cyfrannu atynt. Caiff y penderfyniadau a geir yn y Papur Gwyn hwn eu gweithredu yn y Siarter a'r Cytundeb newydd, y cyhoeddir drafft ohono ar y wefan (gweler isod).

Bydd cyfnod byr ar gyfer rhoi sylwadau ar y Papur Gwyn hwn a'r Siarter a'r Cytundeb drafft a'r drafodaeth seneddol yn ystod y cyfnod hwn. Caiff y Siarter a'r Cytundeb newydd eu terfynu yn ddiweddarach yn 2006.

Dylid anfon sylwadau at:

Drwy e-bost: bbccharterreview@culture.gsi.gov.uk

Drwy'r post: BBC Charter Review Consultation
Department for Culture, Media and Sport
2-4 Cockspur Street
LONDON
SW1Y 5DH

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau yw dydd Gwener 28 Ebrill 2006.

Am fwy o wybodaeth ewch i'n gwefan **www.bbccharterreview.org.uk**

Os hoffech gyfrannu sylwadau ond yn methu ymateb yn ysgrifenedig, ffoniwch yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar 020 7211 6200; ar agor o ddydd Llun i ddydd Gwener: 10:00am i 12:00pm a 2:30pm i 4:30pm.

Yn ysbryd Rhyddid Gwybodaeth, hoffem gyhoeddi eich sylwadau ar ein gwefan. Os byddai'n well gennych i ni beidio â chyhoeddi eich cyfraniad, gwnewch hyn yn glir yn eich ymateb, a nodwch (yn fyr) eich rhesymau pam.

Noder y gall yr Adran dderbyn cais Rhyddid Gwybodaeth ar gyfer y sylwadau ar y Papur Gwyn nad ydym yn eu cyhoeddi. Bydd eich rhesymau dros ofyn i ni beidio â chyhoeddi eich sylwadau yn cael eu hystyried pan fydd yr Adran yn ystyried sut i ymateb i unrhyw gais o'r fath am wybodaeth.

Yn ogystal, efallai y gofynnir i ni ddatgelu eich manylion personol. Gwnewch hynny'n glir yn eich ymateb os ydych yn fodlon i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu rhyddhau ar gais.

Os oes gennych gŵyn am y broses cyfrannu sylwadau hon, cyfeiriwch hi at:

Liz Sweet
Department for Culture, Media and Sport Strategy Division
2-4 Cockspur Street
LONDON
SW1Y 5DH

Mae asesiad effaith rheoliadol wedi cael ei ddatblygu i gyd-fynd gyda'r polisi hwn ac mae ar gael yn www.bbccharterreview.org.uk/publications

13. Atodiad I: Rolau allweddol yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol

Goruchwylio ac archwilio

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn...	Bydd y Bwrdd Gweithredol yn...
• Ymgynghori ar "gylchoedd gwaith diben', yn nodi blaenoriaethau strategol yr Ymddiriedolaeth o fewn pob diben, a sut y caiff llwyddiant ei farnu.	• Cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus y BBC o fewn y fframwaith a osodwyd gan yr Ymddiriedolaeth. Rhoi cyfrif i'r Ymddiriedolaeth am ba mor dda y mae wedi cyflwyno'r gwasanaethau a bodloni'r blaenoriaethau a nodwyd gan yr Ymddiriedolaeth ar gyfer y BBC.
• Galw'r Bwrdd Gweithredol i gyfrif am ei berfformiad wrth gyflwyno gwasanaethau'r BBC a gweithgareddau eraill. Cynnal adolygiadau fel bo angen.	• Gwneud penderfyniadau am gynnal y BBC a chyllidebau'r BBC o ddydd i ddydd yn unol â'r blaenoriaethau a osodwyd gan yr Ymddiriedolaeth.
• Cyhoeddi trwyddedau gwasanaeth i'r Bwrdd Gweithredol ar gyfer cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus unigol. Penderfynu pa weithgareddau ddylid eu cynnwys mewn trwyddedau gwasanaeth, yn unol ag egwyddorion clir.	• Cyflwyno argymhellion i'r Ymddiriedolaeth ar gyfer newidiadau arwyddocaol i wasanaethau sydd eisoes yn bodoli ac ar gyfer gwasanaethau newydd arfaethedig.
• Sicrhau bod y raddfa gywir o graffu'n digwydd yn achos pob gweithgaredd, yn cynnwys gwasanaethau newydd arfaethedig a newidiadau i wasanaethau sydd eisoes yn bodoli.	• Gwneud ceisiadau i'r Ymddiriedolaeth am drwyddedau gwasanaeth.
• Cynnal y Prawf Gwerth Cyhoeddus pryd bynnag y bo angen, gan weithredu'r meini prawf ar gyfer pennu arwyddocâd mewn achosion o amheuaeth ac ymarfer diwydrwydd dyladwy wrth wneud hynny. Gweithio gydag Ofcom i gytuno ar fethodoleg ar gyfer cynnal yr asesiad effaith ar y farchnad, gydag Ofcom ei hun yn gyfrifol am gynnal yr asesiad effaith ar y farchnad hwnnw, yn amodol ar oruchwyliaeth gan grŵp llywio ar y cyd.	
• Ar sail y Prawf Gwerth Cyhoeddus, cymeradwyo neu wrthod cynigion ar gyfer gwasanaethau newydd neu newidiadau sylweddol i wasanaethau sydd eisoes yn bodoli a gynigir gan y Bwrdd Gweithredol.	
• Mabwysiadu, cyhoeddi a pharhau i adolygu datganiad ar fasnachu teg.	
• Cymeradwyo'r canllawiau a lunnir gan y Bwrdd Gweithredol mewn ymateb i'r datganiad hwn.	
• Llunio, mewn ymgynghoriad ag Ofcom ac eraill, codau ex ante sy'n cynnwys meysydd penodol o weithgaredd a sicrhau bod y Bwrdd Gweithredol yn cydymffurfio â'r codau hynny.	
• Rheoleiddio'r safonau rhaglenni a'r cwotâu hynny sy'n dod o fewn y cylch gwaith hwn (heb ragfarn i gydbwysedd presennol y cyfrifoldeb gydag Ofcom).	

Gwasanaethau masnachol

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn...	Bydd y Bwrdd Gweithredol yn...
• Galw'r Bwrdd Gweithredol i gyfrif o ran sicrhau bod gwasanaethau masnachol y BBC yn cael eu gweithredu'n unol â'r pedwar maen prawf: addas at ddibenion cyhoeddus, effeithlonrwydd masnachol, masnachu'n deg ac amddiffyn brand.	• Cymeradwyo cynlluniau busnes, strategaethau masnachol, targedau a chyllidebau a gyflwynir ar gyfer y gwasanaethau masnachol.
• Gosod a chymhwyso'r canllawiau cymeradwyo gwasanaeth masnachol. Cymeradwyo neu wrthod trafodion arfaethedig fel sy'n ofynnol yn unol â'r canllawiau.	• Sicrhau cyhoeddi adroddiad a chyfrifon yn ymwneud â gwasanaethau masnachol y BBC.
• Cymeradwyo targedau'r Bwrdd Gweithredol ac elfennau eraill ar strategaeth fasnachol y BBC, a galw'r Bwrdd Gweithredol i gyfrif am eu cyflwyno.	• Sicrhau cydymffurfio â rheolaeth ariannol, trefniadau rheoli a rheoli risg a gofynion y Siarter a'r Cytundeb a chyfraith gyffredinol.
• Cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon a baratowyd gan y Bwrdd Gweithredol.	• Masnachu'n deg o fewn y polisïau a osodwyd gan yr Ymddiriedolaeth.

Cyllid, effeithlonrwydd a gwerth am arian

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn...	Bydd y Bwrdd Gweithredol yn...
• Sicrhau bod y Bwrdd Gweithredol yn cyflwyno effeithlonrwydd ariannol a gwerth am arian.	• Paratoi a llofnodi'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn derfynol a'u cyflwyno i'r Ymddiriedolaeth.
• Cymeradwyo cyllidebau macro – ar lefel trwyddedau gwasanaeth neu weithgareddau arwyddocaol eraill sy'n debygol o fod â goblygiadau ar gyfer cyflwyno dibenion y BBC – wedi eu cyflwyno gan y Bwrdd Gweithredol.	• Cyflwyno effeithlonrwydd ariannol, tryloywder a gwerth am arian.
• Archwilio a rhoi sylwadau ar adroddiad blynyddol a chyfrifon y Bwrdd Gweithredol. Gosod yr adroddiad a'r cyfrifon gerbron y Senedd gyda'i sylwadau ei hun.	• Cynnal materion ariannol gweithredol y BBC yn y ffordd orau i sicrhau gwerth am arian.
• Comisiynu archwiliadau gwerth am arian i feysydd penodol o weithgaredd y BBC, gan gynnwys o'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.	
• Sicrhau bod cyfrifon y Bwrdd Gweithredol yn cydymffurfio i'r graddau eithaf posibl ag arfer gorau cyfredol.	
• Cymeradwyo argymhellion unigol, strategol neu ariannol lle y gallai fod goblygiadau sylweddol i gyflawni diben cylchoedd gwaith a strategaethau neu i sefyllfa ariannol gyffredinol y BBC.	

Atebolrwydd cyhoeddus ac ymgynghoriad

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn...	Bydd y Bwrdd Gweithredol yn...
• Cynnal ei busnes yn dryloyw, yn agored ac er budd y rhai sy'n talu ffi'r drwydded.	• Delio gyda chwynion yn y lle cyntaf, lle y bo'n briodol.
• Cyhoeddi contract o atebolrwydd gyda'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded – gan nodi sut y bydd yr Ymddiriedolaeth yn ymgysylltu â'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded.	
• Datblygu a chyhoeddi set o brotocolau a fydd, ymysg pethau eraill, yn nodi'r ffordd y bydd traffig yn llifo rhwng yr Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol o ddydd i ddydd.	
• Cyhoeddi protocol yn disgrifio sut y bydd yr Ymddiriedolaeth yn cynnal safonau agored a thryloyw uchel.	
• Gosod y fframwaith ar gyfer delio â chwynion am y BBC a gweithredu fel y canolwr terfynol, ac eithrio lle mae gan gorff arall, e.e. Ofcom, gyfrifoldeb.	
• Comisiynu ymchwil, cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus a cheisio barn arbenigol er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus.	
• Cynnal ymchwiliadau i unrhyw weithgaredd gan y BBC lle mae ganddi achos i amau nad yw'n cydymffurfio â'r gofynion a oruchwylir gan yr Ymddiriedolaeth.	

Penodiadau

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn...	The Executive Board will...
• Penodi Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol.	• Penodi a galw i gyfrif dîm rheoli'r BBC, a'i is-gwmnïau.
• Cymeradwyo penodiadau Anweithredol i'r Bwrdd Gweithredol.	• Penodi aelodau Anweithredol y Bwrdd Gweithredol.

Cynnwys

Bydd yr Ymddiriedolaeth yn...	Bydd y Bwrdd Gweithredol yn...
• Goruchwylio cydymffurfio ag egwyddorion cywirdeb a thegwch.	• Sicrhau y cydymffurfir â safonau a chwotâu perthnasol.
	• Sicrhau bod tegwch a chywirdeb yn parhau yn flaenllaw i ohebu'r BBC.
	• Cyfrifol am gyfeiriad darlledu golygyddol a chreadigol y BBC.

14. Atodiad II: Hanes byr

14.1 14.1 Ymgynghori ac Ymchwil

14.1.1 Mae'r broses adolygu hyd yma wedi cynnwys graddfa ddigyffelyb o gyfranogiad cyhoeddus o du diwydiant, yn cynnwys ystod o ddigwyddiadau, ymgynghori, ymchwil a dadansoddiad wedi ei ffocysu.

14.1.2 Ar 11 Rhagfyr 2003 lansiwyd yr ymgynghoriad cychwynnol i ofyn i wylwyr a gwrandawyr beth maent ei eisiau gan y BBC. Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghorol 'Adolygiad o Siarter Brenhinol y BBC,' a thaflenni i fynd gyda hi, yn gwahodd y cyhoedd i gyflwyno eu barn ar ffurf llythyr neu e-bost. Derbyniwyd bron 5,500 o ymatebion i gyd, yn ogystal â thros 26,000 o ymweliadau â'n gwefan Adolygiad o'r Siarter.

14.1.3 Fel rhan o'r cyfnod ymgynghori hwn, cymerodd Tessa Jowell ac Andrew McIntosh, y Gweinidog dros Ddarlledu bryd hynny, ran mewn cyfres o ymweliadau ledled y DU ym mis Mawrth 2004. Cynhaliwyd cyfarfodydd agored gyda'r cyhoedd ac, mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Deledu Frenhinol, seminarau gydag aelodau allweddol o'r diwydiant darlledu lleol. Ymwelasant hefyd ag amrywiaeth o sefydliadau y cyfryngau a gweld rhai o weithgareddau'r BBC yn y gwledydd a'r rhanbarthau.

14.1.4 Cynhaliwyd rhaglen fawr o ymchwil arolwg, rhwng diwedd Ionawr a dechrau Mehefin 2004 i gefnogi a phrofi'r ymgynghoriad, ac i sicrhau ein bod yn adlewyrchu barn holl adrannau'r boblogaeth. Roedd hwn yn cwmpasu ymchwil arolwg ansoddol, cydgynghorol a meintiol. Cafodd ffactorau demograffig – o oedran, ethnigrwydd a lleoliad daearyddol, i ymddygiad defnyddio'r cyfryngau – eu hystyried. Cyhoeddwyd crynodeb o holl ganfyddiadau'r ymgynghoriad a'r ymchwil yn 'What You Said about the BBC', ym mis Gorffennaf 2004. Mae'r adroddiad llawn ar gael yn http://www.bbccharterreview.org.uk/publications/CR_PUBS/ pub_wysabbc.html

14.1.5 Ar ddechrau 2005 comisiynwyd ymchwil ansoddol pellach i archwilio barn pobl am yr argymhellion oedd yn dod i'r amlwg o'r Papur Gwyrdd, 'BBC cryf, annibynnol ar y llywodraeth', fel rhagflaenydd i ymgynghoriad y Papur Gwyrdd. Cyhoeddwyd adroddiad yr ymchwil ar y cyd â'r Papur Gwyrdd.

14.1.6 Nododd cyhoeddi'r Papur Gwyrdd ar 2 Mawrth 2005 ddechrau cyfnod pellach o ymgynghori. Cafodd hwn ei hysbysebu trwy ddosbarthu taflenni a thrwy hysbysebu yn y wasg genedlaethol. Gwahoddwyd y cyhoedd a'r diwydiant a rhanddeiliaid eraill i gyflwyno eu sylwadau i ni naill ai drwy e-bost, llythyr neu drwy holiadur ar-lein ar ein gwefan. Derbyniwyd tua 4,500 o ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Mae'r holl ymatebion bron wedi cael eu cyhoeddi yn llawn ar ein gwefan, ac eithrio yn bennaf lle mae pobl wedi gofyn i ni beidio â chyhoeddi eu safbwyntiau.

14.1.7 Daeth dros 4,000 o ymatebion yn uniongyrchol o aelodau unigol o'r cyhoedd. Cafodd pob un ei ddarllen a'i fwydo i adroddiad cryno, sydd wedi ei gyhoeddi'n llawn ar ein gwefan i gefnogi'r Papur Gwyn hwn.

14.1.8 Derbyniwyd tua 130 o ymatebion ar ran sefydliadau. Rydym wedi dadansoddi pob un o'r ymatebion hyn yn ofalus. Maent wedi helpu i lywio llawer o'r penderfyniadau polisi a nodir yn y Papur Gwyn hwn.

14.1.9 Rydym hefyd wedi comisiynu peth ymchwil ansoddol pellach i brofi rhai agweddau penodol ar y Papur Gwyrdd – yn bennaf y syniad o'r Ymddiriedolaeth; rhoi mwy o atebolrwydd i'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded; a mater casglu a gorfodi ffi'r drwydded. Mae canlyniadau'r ymchwil hwn wedi bwydo i mewn i'r Papur Gwyn ac mae'r adroddiad wedi ei gyhoeddi yn llawn ar ein gwefan.

14.2 14.2 Cynghorydd Annibynnol a Seminarau

14.2.1 Penododd yr Ysgrifennydd Gwladol Gynghorydd Annibynnol, yr Arglwydd Burns, ar 18 Medi 2003, i roi cyngor ar nifer o faterion gwahanol trwy gydol y broses o adolygu'r Siarter.

14.2.2 Penododd yr Ysgrifennydd Gwladol Banel Annibynnol hefyd ar 15 Mehefin 2004 i weithio gyda'r Arglwydd Burns. Aelodau'r panel oedd Sly Bailey, Alan Budd, Howard Davies, Janet Finch, Tim Gardam ac Alice Rawsthorn.

14.2.3 Cynhaliodd yr Arglwydd Burns a'i banel gyfres o seminarau i drafod nifer o faterion allweddol ar gyfer yr adolygiad o'r Siarter, a nodwyd trwy ymgynghoriad cyhoeddus ac ymchwil.

14.2.4 Cynhaliwyd y gyfres o 20 Gorffennaf i 3 Rhagfyr 2004 ac roedd yn cynnwys 13 o seminarau fel a ganlyn:

- Dibenion Cyhoeddus y BBC;
- Ariannu;
- Egwyddorion Llywodraethu a Rheoleiddio;
- Gwasanaethau Masnachol y BBC;
- Teledu'r BBC;
- Radio'r BBC;
- Cynrychiolaeth Gwledydd, Rhanbarthau a Chymunedau;
- Addysg a Dysgu;
- Rôl Ryngwladol;
- Dinasyddiaeth Wybodus;
- Diwylliant;
- Chwaraeon
- Modelau Llywodraethu a Rheoleiddio.

14.2.5 Cynhaliwyd y seminarau o flaen cynulleidfa fach a oedd wedi cael ei gwahodd, yn cynnwys arbenigwyr a chynrychiolwyr y diwydiant, yn ogystal ag aelodau'r cyhoedd. Darlledodd y BBC y seminarau hyn y fyw ar y rhyngrwyd trwy ffrydiau gwe.

14.2.6 Cyfrannodd y seminarau at sail dystiolaeth gredadwy sydd wedi rhoi sylfaen gadarn i ni ar gyfer Adolygiad o'r Siarter. Yn fwy uniongyrchol, roedd gan ganlyniadau'r seminarau hyn rôl allweddol o ran datblygu themâu ar gyfer dau bapur cynghori'r panel i'r Ysgrifennydd Gwladol. Roedd ganddynt rôl hefyd mewn helpu i ddatblygu themâu ar gyfer y Papur Gwyrdd.

14.2.7 Cyflwynodd y panel eu cyngor terfynol i'r Ysgrifennydd Gwladol ar 28 Ionawr 2005 a defnyddiwyd hwn i helpu i ffurfio'r opsiynau yn y Papur Gwyrdd. Roedd y themâu a ystyriwyd gan y panel i gyd yn deillio o'r ymgynghoriad cyhoeddus ac wedi eu diffinio ganddo.

14.3 14.3 Cyhoeddiadau

14.3.1 Ynghyd â'r wybodaeth a gafwyd o'r ymgynghoriad a'r ymchwil a chanlyniad y seminarau, ystyriwyd ystod eang o dystiolaeth allanol hefyd trwy gydol proses yr ymgynghori, gan helpu i lywio ein meddylfryd yn y Papur Gwyrdd. Roedd hyn yn cynnwys:

- Adolygiad Ofcom o Deledu Gwasanaeth Cyhoeddus;
- Adroddiad Philip Graf ar BBC Ar-lein;
- Adroddiad Patrick Barwise ar wasanaethau teledu digidol newydd y BBC;
- Adroddiad Tim Gardam ar wasanaethau radio digidol newydd y BBC.

14.3.2 Cyhoeddodd y Panel Annibynnol ddau bapur: cyhoeddwyd y cyntaf "Themâu sy'n dod i'r Amlwg" ar 1 Rhagfyr 2004 a hwn oedd y papur ar gyfer y seminar terfynol yn y gyfres. Mae'n crynhoi prif themâu y drafodaeth i'r pwynt hwnnw. Gellir gweld yr adroddiad yn: http://www.bbccharterreview.org.uk/publications/in_pubs/pub_emerging_themes.html

14.3.3 Yr ail oedd cyngor terfynol y panel i'r Ysgrifennydd Gwladol a chafodd ei gyhoeddi ar 28 Ionawr 2005. Roedd yn adlewyrchu canlyniad y trafodaethau a gafwyd yn ystod y gyfres o seminarau gwybodus, dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Burns. Gellir gweld yr adroddiad terfynol yn: http://www.bbccharterreview.org.uk/publications/in_pubs/pub_final_advice.html

14.3.4 Rydym wedi derbyn dros 10,000 o ymatebion i gyd i'n dau gyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus gan ystod eang iawn o bobl – o'r BBC i gwmnïau teledu a radio annibynnol bach, o elusennau a chyrff masnachu mawr i aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae pob un ymateb wedi bod yn amhrisiadwy o ran helpu i benderfynu ar y polisi terfynol a geir yn y ddogfen hon. Mae'r ymatebion hyn i'r ymgynghoriad, ochr yn ochr â'r rhaglen estynedig o ymchwil a thystiolaeth eraill a gasglwyd, wedi sicrhau mai'r adolygiad hwn o'r Siarter fu un o'r rhai sydd wedi cynnwys y cyhoedd fwyaf erioed ac mae'r penderfyniadau sydd wedi eu gwneud wedi cael eu dylanwadu'n gryf gan lais y cyhoedd.

15. Atodiad III: Dulliau cynnwys y cyhoedd

Fframwaith y Work Foundation ar gyfer Ymgysylltu

15.1.1 Mae astudiaeth ddiweddar[23] a wnaed gan y Work Foundation yn cywain ynghyd nifer o ddulliau ymarferol o ymgynghori y gall yr Ymddiriedolaeth fod am eu dilyn. Mae'r astudiaeth yn argymell fframwaith o ddulliau i wella cyfranogiad ac i ychwanegu gwerth cyhoeddus, yn seiliedig ar y technegau canlynol:

- Grwpiau Ffocws: 12 o bobl, 1-2 awr, wedi eu huno i drafod mater penodol;
- Paneli Dinasyddion (ymchwil): sampl gynrychioliadol 500-5,000 person, 'seinfwrdd' ar gyfer datblygiad polisi, barnau a gasglwyd drwy arolygon, cyfweliadau a grwpiau ffocws;
- Paneli Dinasyddion (sefydlog): i brofi opsiynau polisi penodol a chraffu ar weithrediad polisi;
- Rheithgorau dinasyddion: tebyg i grwpiau ffocws, ond wedi eu dewis ar sail gynrychioliadol;
- Fforwm dinasyddion: tua 100 o bobl, yn gweithio mewn grwpiau o 10, bob un â hwylusydd a bysellbad unigol i gofrestru ymatebion i gwestiynau penodol;
- Pollau piniwn cydgynghorol – ymgynghoriad cychwynnol, wedyn trafodaeth, ac yna ail arolwg barn.

Arfer gorau

15.1.2 Bydd yr Ymddiriedolaeth am adeiladu ar arfer gorau o'r sectorau cyhoeddus a phreifat ehangach. Mae'r argymhellion arloesol a ddaeth i'r amlwg o'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyrdd yn cynnwys:

- Cyfarfodydd Neuadd y Dref Electronig Estynedig – trafodaeth wedi ei hwyluso'n ofalus o fynychwyr a rhith fynychwyr (trwy'r we);
- Gweithdai Cydweithredol – yn cynnwys gwneuthurwyr rhaglenni, cynulleidfaoedd, ac aelodau o'r Ymddiriedolaeth a'r Bwrdd Gweithredol;
- Rhwydweithiau Electronig – panel sefydlog, cynrychioliadol o'r rhai sy'n talu ffi'r drwydded sy'n cael eu gwahodd i roi barn o bryd i'w gilydd ar faterion allweddol.

[23] Public Value, Politics and Public Management: Adroddiad cyntaf y prosiect Gwerth Cyhoeddus yn y Work Foundation, pp. 32-35

Argraffwyd yn y DU i'r Stationery Office Limited
ar ran Rheolwr Llyfrfa ei Mawrhydi
ID 183383 03/06

Department for Culture,
Media and Sport
2-4 Cockspur Street
London SW1Y 5DH
PP 855 March 2006